

RHYBUDD O GYFARFOD / NOTICE OF MEETING



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

*Emyr Williams
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffôn/Phone (01766) 770274
E.bost/E.mail : parc@eryri.llyw.cymru*

Snowdonia National Park Authority

*Emyr Williams
Chief Executive
Snowdonia National Park Authority
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffacs/Fax (01766) 771211
Gwefan/Website: www.eryri.llyw.cymru*

Cyfarfod: *Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau*

Dyddiad: *Dydd Mercher 18 Tachwedd 2020*

Amser: *10.00 a.m.*

Anfonir cyfarwyddiadau ymuno at yr Aelodau ar wahân

Meeting: *Performance & Resources Committee*

Date: *Wednesday 18 November 2020*

Time: *10.00 a.m.*

Joining instructions will be sent to Members separately

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Members appointed by Gwynedd Council

Y Cynghorwyr / Councillors :

*Freya Hannah Bentham, Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd,
Annwen Hughes, Judith Mary Humphreys, Edgar Wyn Owen,
Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;*

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Members appointed by Conwy County Borough Council

Y Cynghorwyr / Councillors :

Philip Capper, Wyn Ellis-Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru

Members appointed by The Welsh Government

*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle,
Mr. Tim Jones, Mr. Neil Martinson, Mr Owain Wyn.*

RHAGLEN

- 1.* **Cadeirydd**
Ethol Cadeirydd y Pwyllgor.
- 2.* **Is-gadeirydd**
Ethol Is Gadeirydd y Pwyllgor.
3. **Ymddiheuriadau**
Derbyn ymddiheuriadau gan yr Aelodau
4. **Datgan diddordeb**
Derbyn datganiadau diddordeb gan yr Aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem.
5. **Cofnodion**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2020 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir. (Copi yma)
6. **Taflen Gweithredu**
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)
7. **Archwilio Cymru - Tystysgrif Cydymffurfiaeth**
Derbyn yr adroddiad canlynol gan Archwilio Cymru. (Copi yma)
8. **Amcannion Gwelliant a Strategol 2021-26**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)
9. **Rhaglen Waith Corfforaethol 2020/21**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
- 10 **Dangosyddion Perfformiad 2020/21 – Canlyniadau Hanner Blwyddyn**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
11. **Craffu Strategol Diweddariad**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)
12. **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) Amcanion Gwelliant**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)
13. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
14. **Prosiectau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: Adroddiad Diweddaru**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)
15. **Proffil Risg yr Awdurdod**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
16. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Blynyddol**
Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Personél a'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)

17. **Adroddiad Monitro Cwynion**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)
18. **Rhyddid Gwybodaeth**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)
19. **Adroddiad Cynnydd Prosiectau**
Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Partneriaethau'r yr Wyddfa. (Copi yma)
20. **Strategaeth AD – Adroddiad Diweddarau Blynyddol**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Personél. (Copi yma)
21. **Absenoldebau Staff 2019/20**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Personél. (Copi yma)
22. **Adroddiad Monitro Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2019/20**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Personél. (Copi yma)
23. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**
Cyflwyno cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 1af Gorffennaf, 19eg Awst ac 11eg Medi 2020. (Copïau yma)

* Tynnir eich sylw at orchymyn sefydlog 5.8 sy'n datgan "Ni fydd unrhyw Aelod yn gwasanaethu fel Cadeirydd neu Is Gadeirydd mwy nac un Pwyllgor".

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 15fed GORFFENNAF 2020**

Y Cyngorydd Alwyn Gruffydd (Gwynedd) (Cadeirydd)

PRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cyng Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng Philip Capper, Wyn Ellis Jones;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Mr. Neil Martinson, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Mr. E. Roberts, Ms. B. Hughes, Mrs. J. Worrall, Mrs. A. Gaffey;

Yn bresennol

Luned Fon Jones – Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Ymddiheuriadau

Cyng Freya Bentham, Judith Humphreys, Ifor Glyn Lloyd; Ms. Elinor Gwynn.

1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau newydd Covid19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a :-

- bod Rhybudd o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi, hefyd, roedd yr Agenda ac adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gyda'r gwaith o wirio'r cofnodion.

2. Datgan Budd

Cyhoeddodd Mr Emyr Williams, Mr G. Iwan Jones, Mr Jonathan Cawley, Mr Emyr Roberts, a Ms Bethan Hughes ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda a gadawsant y cyfarfod wrth i'r mater gael ei drafod. Cyhoeddodd Mrs. Jo Worrall a Mrs. Anwen Gaffey ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda, ond fe wnaethant aros yn y cyfarfod.

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 20fed Tachwedd 2019 a llofnododd y Cadeirydd nhw fel gwir gofnod.

Yn codi ar hynny,

6. Pwysau Cyllido Diwedd Blwyddyn Llywodraeth Cymru

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Aelodau'n cael gwybod am gynigion cyllido pan gyflwynir yr adroddiad chwe mis nesaf.

10. Craffu Strategol ar gyfer 2020/21

Gofynnodd Cadeirydd yr Awdurdod am ddiweddariad ar Graffu Strategol yr Awdurdod ar gyfer 2020/21. Dywedodd y Prif Weithredwr, er bod y pandemig wedi effeithio ar y llinell amser, y byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Trafnidiaeth yn cael ei wahodd i ystyried Adroddiad yr Ymgynghorwyr ar yr Adolygiad o Barcio a Thrafnidiaeth, cyn ei gyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Gweithgor Aelodau.

16. Maniffesto Ieuentid Europarc - Adroddiad Cynnydd

Teimlai Cadeirydd yr Awdurdod y dylid dwysáu'r maes gwaith hwn mewn ymateb i'r pandemig a dywedodd y Prif Weithredwr fod y llinell amser ar gyfer datblygu Maniffesto Ieuentid Europarc wedi'i ohirio oherwydd effaith y pandemig ar argaeledd staff.

4. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol 2019/20**

Cyflwynwyd - Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn amlinellu barn y 'Gwasanaethau Archwilio Mewnol' ar reolaethau mewnol o fewn yr Awdurdod a'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer 2020/21.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad a chadarnhaodd ei bod yn fodlon â safon gyffredinol dda rheolaethau mewnol yr Awdurdod yn y meysydd yr ymchwiliwyd iddynt yng Nghynllun Archwilio 2019/20.

Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad a gofyn am fanylion pellach fel a ganlyn:-

- cwestiynodd Aelod sut y gallai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd bod data incwm Plas Tan y Bwlch yn "foddhaol", pan roedd yn amlwg bod cyfres o fethiannau y cyfeiriwyd atynt yn eu hadroddiad. Cofnodwyd y methiannau yn gyson yng nghofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch dros nifer o flynyddoedd, gan gynnwys diwedd y flwyddyn hon, ac yr oedd y ffigurau incwm yn dal i fod yn anghywir. Dywedodd Mr. Neil Martinson nad oedd, o ran llywodraethu, yn cefnogi'r canfyddiadau hyn, a gofynnodd i hyn gael ei gofnodi yn y cofnodion.
- mewn ymateb, dywedwyd wrth yr Aelodau mai pwrpas yr archwiliad oedd canfod cywirdeb y data incwm yn yr adroddiadau a dilyn y data a gyflwynwyd yn ôl i'r ffynonellau perthnasol. Roedd cyfnod o 5 i 7 diwrnod wedi'i ddyrannu ar gyfer y gwaith, a byddai angen llawer mwy o adnoddau ar gyfer archwiliad manylach o Blas Tan y Bwlch. Gan fod y ffocws ar y Data Incwm, roedd y sicrwydd "boddhaol" yn adlewyrchu barn yr archwilydd bod rheolaethau ar waith.
- mewn ymateb i roi sicrwydd ar sut i symud ymlaen o ran y datblygiad ym Mhlas Tan y Bwlch, para. 5.5 o Atodiad 2, amlinellodd hyn farn yr Archwiliad Mewnol ar y costau a'r amcanion incwm ychwanegol a gynhwyswyd yn adroddiad "Cynnig Datblygu Plas Tan y Bwlch", roedd yn ymddangos bod yr amcangyfrifon yn rhesymol ac roedd rhesymeg y tu ôl i'r amcanion yn yr adroddiad, er, fe welir dro arall pa mor gywir ydynt.
- Gofynnir i'r aelodau awgrymu meysydd i'w hystyried gan Archwilio Mewnol, fel rhan o ddull sy'n seiliedig ar risg i ystyried y risgiau mwyaf i'r Awdurdod. Roedd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod yn ddiweddarach heddiw, sy'n argymhell trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd o £3.2 miliwn. Wrth nodi y derbyniwyd peth o'r arian yn hwyr gan Lywodraeth Cymru, yr oedd oddeutu £2.4 miliwn yn parhau i fod heb ei wario. Ni allai'r mater hwn fod oherwydd aflonyddwch Covid-19 a chynigiodd yr Aelod fod hwn yn faes i'w ystyried gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i ddarganfod pam nad yw'r arian wedi'i wario, a beth sydd angen ei newid.

- mewn ymateb i'r cais i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol archwilio'r tanwariant sy'n cael ei ddwyn ymlaen yn 2019/20, gofynnodd y Prif Swyddog Cyllid i'r mater hwn gael ei ystyried yng nghyfarfod yr Awdurdod sydd ar ddod, o dan yr adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2019/20, a phe bai'r Aelodau'n penderfynu bwrw ymlaen, yna byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol.
- gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch pam yr oedd Yr Ysgwrn wedi'i gynnwys yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2020/21. Mewn ymateb, dywedwyd wrth yr Aelodau fod Yr Ysgwrn wedi cael ei ddewis i'w gynnwys gan fod y prosiect bron wedi'i gwblhau a gallai'r archwiliad ddarparu mewnwelediad defnyddiol i'r hyn a oedd wedi mynd yn dda a'r hyn nad oedd wedi mynd yn dda, ac i ddysgu gwersi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai'r Cynllun Archwilio Mewnol, yn y dyfodol, yn cynnwys datganiad yn amlinellu pwrpas yr archwiliad yn y golofn reswm.
- Gofynnodd yr aelodau hefyd am arweiniad ar sut y byddai'r archwiliad yn cael ei gynnal, a fyddai angen i'r Tîm Archwilio gael mynediad i Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, ac effaith bosibl Covid-19 ar gwmpas y gwaith ac ar yr amserlen. Mewn ymateb, dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai'r gwaith yn dechrau tan fis Medi gan fod gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol rwymedigaethau blaenorol gyda sefydliadau eraill. Cytunwyd ar yr amserlen gyda swyddogion ymlaen llaw, a gallai argaeledd gwybodaeth electronig a gweithio o bell trwy Zoom a MTeams fod yn fwy effeithlon yn y tymor hir.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i'r Pennaeth Archwilio Mewnol am ddod i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol.

PENDERFYNWYD

1. **derbyn yr adroddiad fel "Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol" yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.**
2. **derbyn y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu 2020/21, yn amodol ar ei newid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a / neu'r Pennaeth Cyllid.**

5. Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 16 Hydref a 20fed Tachwedd 2019, a 5ed Chwefror 2020, er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.

6. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2019/20

Cyflwynwyd - Y pedwerydd Adroddiad Cynnydd ar gyfer chwarter olaf 2019/20.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad yn manylu ar Gynnydd yr Awdurdod yn erbyn amcanion am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020. Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar gynnydd mewn dangosyddion coch, rhai ohonynt oherwydd effeithiau Covid-19 ar waith yr Awdurdod yn ystod y chwarter hwn.

Ein Cymunedau

Yn codi ar hynny, cododd aelod bryder bod y mesur cyntaf (tudalen 38 o'r adroddiad) yn cyfeirio at brosiect a ddylai fod wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2019. Ni ellid

defnyddio'r rheswm na chafodd ei gyflawni i Covid-19, a gofynnwyd i'r swyddogion fod yn fwy agored a gonest am unrhyw anawsterau, fel y gallai'r Aelodau ddeall yn well beth yw'r problemau. Mewn ymateb, esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod swyddogion wedi cael problemau wrth gyflawni yn ystod chwarteri 1-3 y disgwyliid iddynt gael eu datrys erbyn chwarter 4.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol bod angen darparu gwell esboniadau a chytuno i gyfleu'r angen i swyddogion ddarparu mwy o eglurder yn y dyfodol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fanylion pellach ar "Fesur budd economaidd i economi leol gweithgareddau seiliedig ar Brosiect yr Awdurdod" (tudalen 38) a dywedodd fod ymgynghorwyr allanol bellach wedi'u comisiynu i gyflawni'r gwaith hwn, a oedd wedi cael ei oedi gan nad oedd swyddogion wedi gallu cyfarfod â'r ymgynghorwyr cyn diwedd 2019. Roedd y gwaith bellach ar y gweill a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Hydref / Tachwedd 2020.

Mewn ymateb i gwestiwn ar geisiadau am fastiau telathrebu (tudalen 40 o'r adroddiad), cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod swyddogion yn pwysleisio'r angen i ddarparwyr ganiatáu i'r cymunedau lleol ddefnyddio'r mastiau ar gyfer band eang ac ati, lle mae hyn yn bosibl.

Wrth "ddiffinio ein rhanddeiliaid a'r ffyrdd a'r dulliau mwyaf effeithiol o gyfathrebu â nhw" (tudalen 41), roedd aelod yn teimlo na ddylai swyddogion roi gormod o bwyslais ar ymchwil Prifysgol Caergrawnt gan nad oedd yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd yr Aelod wedi codi'r mater mewn cyfarfod blaenorol, ac yn pryderu bod yr ymchwil yn ddiffygiol. Nid oedd yn sampl ar hap nac yn sampl gynrychioliadol, gan fod 47% o'r holl ymatebwyr wedi gwneud gwaith gwirfoddol yn y Parc Cenedlaethol. Roedd yn dderbyniol cyfeirio at yr ymchwil, ond gofynnwyd i swyddogion wirio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a hefyd sefydlu methodoleg ar gyfer arolygon yn y dyfodol.

Cydbwysu ein Adnoddau a'n hymdrechion

Gofynnodd Aelod pam mai dim ond 75% o staff yr Awdurdod a gafodd eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf (tudalen 66 o'r adroddiad). Dywedodd swyddogion fod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r broblem gyda'r Penaethiaid Gwasanaethau perthnasol. Awgrymodd Aelod, yn ogystal â gweithio gyda'r Penaethiaid Gwasanaethau, y dylai uwch swyddogion asesu'r broses i sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio.

Yn codi ar hynny, atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau eu bod hefyd yn destun Adolygiadau Datblygiad Personol (tudalen 67 o'r adroddiad) a gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ystyried ffyrdd y gallai'r Awdurdod ddarparu Datblygiad Aelodau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad terfynol ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol 2019/20, fel y'i cyflwynwyd.

7. Dangosyddion Perfformiad 2019/20: Pedwerydd Chwarter a Chanlyniadau Blynyddol

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod canlyniadau Dangosyddion Perfformiad 2019/20.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad, a ystyriodd yr Aelodau hwn yn fanwl.

Dangosyddion Perfformiad Lleol:

Iechyd a Lles (3ch)

Gofynnodd aelod am wybodaeth bellach am berthynas yr Awdurdod â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad diweddar yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a chadarnhaodd fod y dangosyddion, sy'n cyfeirio at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi'u tynnu o'r Rhaglen Waith Gorfforaethol eleni, ar wahân i un maes, sef y Gymraeg. Cytunodd y Prif Weithredwr y dylai'r Rhaglen Waith Gorfforaethol yn y dyfodol gynnwys dangosyddion y gall yr Awdurdod eu cyflawni yn unig.

Dangosyddion Corfforaethol (CHR/002)

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y cynnydd yn nifer yr absenoldebau salwch tymor hir o'i gymharu â 2018/19. Dywedodd y Pennaeth Personél fod hyn yn ymwneud â nifer fach o staff ar absenoldebau salwch tymor hir, pob un ohonynt yn cael eu cefnogi gan dystysgrifau meddygol gan eu meddyg teulu. Dywedodd y Pennaeth Personél ymhellach fod absenoldebau salwch yr Awdurdod ar gyfer chwarter cyntaf 2020/21 wedi gostwng yn sylweddol, gan fod llawer o staff yn gweithio gartref oherwydd pandemig Covid-19 a hefyd oherwydd y cynllun seibiant.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac aros am adroddiad diweddar ar berthynas yr Awdurdod â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

8. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24**

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Personél a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer i gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020/24.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac, mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw ddylanwad ar broses benodi Llywodraeth Cymru. Wrth nodi bod angen i'r Awdurdod fod yn rhagweithiol, roedd Cynllun Mentora cynharach wedi nodi ac annog ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol - ni chafodd hyn unrhyw ddylanwad ar y broses benodi.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar, ac wedi newid, y broses benodi ar gyfer rhai cyrff cyhoeddus. Er bod penodiadau i'r Awdurdod am ddau gyfnod o 4 blynedd ar hyn o bryd, efallai na fydd hyn yn wir bellach, a dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol nad oedd unrhyw sicrwydd ar gyfer y dyfodol.

Cytunodd yr aelodau a'r swyddogion y dylai'r Awdurdod weithio tuag at gael mesurau ar waith i annog demograffig iau, ac i barhau gyda'r gwaith i fabwysiadu Maniffesto Ieuentid.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.

9. **Datganiad Polisi Tâl 2020/21**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Personél i Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2020/21 a derbyn yr Adroddiad Polisi Tâl ar gyfer 2019/20.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Personél yr adroddiad a'r cefndir a nododd gywiriad i adroddiad Cymru gan fod Adroddiad Blynyddol y Polisi Tâl ar gyfer 2019/20 ac nid 2018/19 fel y nodwyd yn yr argymhelliad. Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd y dyfarniad cyflog ar gyfer 2020/21 wedi'i gytuno eto, a bod yr Undebau Llafur yn trafod cynnig o 2.75% ar hyn o bryd.

Yn codi ar hynny, ac mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Pennaeth Personél fod manylion pellach am nifer y staff sy'n derbyn pob gradd tâl wedi'u cynnwys fel rhan o adroddiad blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

PENDERFYNWYD

1. cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2020/21.

2. cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Polisi Cyflog ar gyfer 2019/20.

10. Safonau'r Iaith Cymraeg

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer ynghyd ag Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2019/20 yr Awdurdod.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd fod holl staff yr Awdurdod yn cael cyfleoedd i fynychu cyrsiau gwella iaith Cymraeg (Gloywi Iaith).

Cytunodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer hefyd i drafod dyluniad posteri ac arwyddion yr Awdurdod gyda'r tîm dylunio graffig i sicrhau bod yr iaith Gymraeg i'w gweld yn glir.

Gofynnodd aelod am wybodaeth bellach ar sut mae'r Awdurdod yn Hyrwyddo Safonau'r Gymraeg (para. 5.1). Dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer fod gan yr Awdurdod strategaeth a chynllun gweithredu i annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy weithgareddau yn y gymuned, ond nid oes ganddo unrhyw ddylanwad uniongyrchol. Gosodwyd y targed fel gofyniad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad ac awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer i gyhoeddi Adroddiad Monitro Safonau Iaith Cymru 2019/20 ar wefan yr Awdurdod.

11. Ymgynghoriad Cynllun Eryri

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau ar ymgynghoriad cyhoeddus terfynol Cynllun Eryri (Cynllun Rheoli newydd y Parc Cenedlaethol) ynghyd â chyflwyniad fideo.

Adroddwyd - Amlinellodd y Rheolwr Partneriaethau ganlyniad yr ymgynghoriad trwy gyflwyniad fideo. Rhoddwyd crynodeb o'r prif ganfyddiadau i'r aelodau a chynghorwyd hwy ar yr ychwanegiadau a'r diwygiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad. Hefyd, byddai'r adborth o ymateb yr Aelodau i adroddiad y Cadeirydd "Eryri a'r Normal Newydd" yn cael ei ymgorffori ac os oedd gan Aelodau unrhyw gwestiynau pellach, dylid eu hanfon ymlaen drwy'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau i'r Rheolwr Partneriaethau ymateb.

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- roedd angen prawf ddarllen y ddogfen ymhellach i gywiro gwallau gramadegol.
- codwyd pryderon bod enwau lleoedd Cymreig yn cael eu cyfieithu a chytunodd yr aelodau y dylid trafod y mater mewn cyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn fuan.
- roedd Aelod o'r farn y dylid cael cyfle pellach i drafod canlyniadau mesuradwy cyn i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod ym mis Medi. Teimlai'r Prif Weithredwr y byddai'n anodd rhoi canlyniadau mesuradwy i Gynllun Eryri oherwydd natur y ddogfen a chynghorodd y byddai'n trafod y mater ymhellach gyda'r Rheolwr Partneriaethau.
- roedd Aelod yn teimlo ei bod yn ddiangen sefydlu grŵp tasg a gorffen trafndiaeth pellach yn 2022 gan y gallai'r Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Trafndiaeth barhau i edrych ar faterion trafndiaeth ehangach. Nodwyd bod aelodaeth o'r Grŵp Tasg a Gorffen yn destun penodiadau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi cynnydd ar gynhyrchu'r Cynllun.**
- 2. cyflwyno adroddiad i gyfarfod buan o Weithgor yr Aelodau mewn perthynas â chyfieithu enwau lleoedd Cymreig.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.11.2018

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
7 – Rhaglen Waith Gorfforaethol 2018-19	PENDERFYNWYD aros am adroddiad pellach ar berthynas yr Awdurdod yn y dyfodol gyda Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd/Ynys Môn a Chonwy/Sir Ddinbych ar ôl iddynt fabwysiadu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer cyflawni eu cynlluniau lles.	Y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad maes o law.	PW	Cyflwynir adroddiad i'r Gweithgor ym mis Hydref. Gan fod y gwaith yn parhau, bydd yr adroddiad yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 25.03.20. CWBLHAWYD	IA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 27.03.2019

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
7 - 2018/19 Diweddariad ar y Gyllideb	PENDERFYNWYD cyflwyno adroddiadau pellach fel yr amlinellwyd.	<ol style="list-style-type: none"> adroddiad i ail-werthuso'r cynllun ariannol tymor canolig. sefydlu Gweithdy i flaenoriaethu deg prosiect pwysicaf yr Awdurdod yn barod at pan fydd gan Lywodraeth Cymru gyllid ychwanegol pellach yn 2019/20. adroddiad ar yr arian ychwanegol, yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a Brexit yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf. 	<p>PW / DE / ER</p> <p>PW</p> <p>PW</p>	<p>Cyflwynwyd adroddiad i'r Awdurdod ym mis Chwefror 2020.</p> <p style="text-align: right;">CWBLHAWYD</p> <p>Adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Gweithgor Aelodau ym mis Hydref 2019.</p> <p style="text-align: right;">CWBLHAWYD</p> <p>I'w gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2019</p> <p>Ddim yn gyraeddadwy - mae swyddogion yn gofyn am gael ei dynnu o'r Daflen Gweithredu.</p>	IA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 24.07.2019

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
13. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2018/19	PENDERFYNWYD derbyn adroddiad terfynol Rhaglen Waith Corfforaethol 2018/19, fel y'i cyflwynwyd.	Adolygu'r Amcanion Gwella ar gyfer 2020/21.	PW / GIJ / JC	<p>Cychwyn ar y gwaith yn ystod yr Haf 2019</p> <p>Mae'r aelodau wedi cytuno i ohirio'r adolygiad.</p> <p>Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ac adroddwyd ar y canlyniad i'r Gweithgor Aelodau ar 21.10.20.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18.11.20. cyn ymgynghoriad ffurfiol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.</p>	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 20.11.2019

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
6. Pwysau Cyllido Diwedd Blwyddyn Llywodraeth Cymru	PENDERFYNWYD y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys gwybodaeth fanylach ar bob llinell i roi cefndir byr, rhesymeg ac eglurhad i'r Aelodau ar y bidiau cymeradwy.	Y Prif Weithredwr i gyflwyno'r adroddiad.	PW	Ar y gweill	NA
8. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2019-20	PENDERFYNWYD aros am adroddiad diweddar gan y Pennaeth Ymgysylltu ar Strategaeth Wirfoddoli'r Awdurdod.	Y Pennaeth Ymgysylltu i gyflwyno'r adroddiad diweddar.	HP	Strategaeth Gwirfoddoli Ddrafft i'w gyflwyno i'r Tîm Rheoli ym mis Tachwedd, ac i'r aelodau maes o law.	NA
10. Craffu Strategol ar gyfer 2020/21	PENDERFYNWYD bod y Grwpiau Tasg a Gorffen sydd newydd eu sefydlu i gytuno ar y briff ar gyfer Rheoli Traffig a Chyfrif Carbon ac adrodd yn ôl i'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol i'w ystyried ac enwebu aelod arweiniol.	I symud ymlaen fel yr amlinellwyd.	PW	Adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2020. CWBLHAWYD.	IA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAC AC ADNODDAU – 15.07.2020

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
7. Dangosyddion Perfformiad 2019/20: Pedwerydd Chwarter a Chanlyniadau Blyneddol.	PENDERFYNWYD aros am adroddiad diweddar ar berthynas yr Awdurdod â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.	Y Prif Weithredwr i gyflwyno'r adroddiad.	PW	Adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18.11.20. CWBLHAWYD	IA
11. Ymgynghoriad Cynllun Eryri	PENDERFYNWYD cyflwyno adroddiad i gyfarfod buan o Weithgor yr Aelodau mewn perthynas â chyfieithu enwau lleoedd Cymreig.	Y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol i gyflwyno'r adroddiad.	NJ	Gweithgor Aelodau ar 21.10.20. wedi derbyn adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol. 'Roedd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi'i wahodd i fynychu a bu iddo gymryd rhan yn y sesiwn drafod. CWBLHAWYD.	IA

Cyfeirnod: 1965A2020-21

Dyddiad: Awst 2020

Archwiliad o Gynllun Gwella 2020-21 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Tystysgrif

Rwyf yn ardystio fy mod i wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ar ôl ei gyhoeddi ar 3 Mehefin 2020, yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 15(6) i (9) y Mesur a'i fod wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau o ran y canlynol:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn bodloni unrhyw safon o ran perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac yn gyfrifol am y wybodaeth a geir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Awdurdod, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch a wyf o'r farn bod y Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a eglurir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw'r wybodaeth, nac ynghylch a oes modd cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Awdurdod. Bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau a bennir mewn deddfwriaeth. Euthum ati hefyd i asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Nid yw'r gwaith yr wyf i wedi'i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y gellir dibynnu'n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella.



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

CC: Julie James AS – Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Nick Selwyn – Rheolwr

EITEM RHIF 8

CYFARFOD:	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD:	18 Tachwedd, 2020
TEITL:	AMCANION STRATEGOL a LLES 2021-26
AWDUR:	Prif Weithredwr
PWRPAS:	<ol style="list-style-type: none"> 1. Er mwyn i'r aelodau fabwysiadu Amcanion Strategol a Lles drafft ffurfiol ar gyfer y cyfnod 2021 i 2026. 2. I'r Aelodau gymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar yr Amcanion Strategol a Lles drafft ar gyfer y cyfnod 2021 i 2026.

1. CEFNDIR:

- 1.1. Ym mis Mawrth 2019, cytunodd yr Awdurdod i adolygu ei amcanion strategol a lles, a llinell amser i fabwysiadu Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer y cyfnod 2020-25. Roedd aelodau'r Awdurdod wrth wneud hynny eisiau sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu mynd i'r afael yn well â'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru (Gwerthfawr a Chydnerth) gan Lywodraeth Cymru yn ei amcanion a'i Gynllun Corfforaethol. Roedd yr aelodau hefyd eisiau i'r cynllun corfforaethol adlewyrchu gwaith yr Awdurdod yn well a gallu mynd i'r afael ag effeithiau Covid ar waith yr Awdurdod. Yna newidiwyd y llinell amser raglunedig y cytunwyd arni ac felly bydd yr amcanion strategol a lles ar gyfer y cyfnod 2021-26.
- 1.2. Yn y cyfnod hwn, mae aelodau wedi ystyried mabwysiadu amcanion strategol a lles yr Awdurdod sawl gwaith: yn yr Awdurdod, y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, fe gynullwyd grŵp tasg a gorffen, mewn Gweithgorau ac mewn gweithgorau wedi'u hwyluso. Amgaeir y llinell amser yn Atodiad 1.
- 1.3. Ar y 15fed o Orffennaf, cytunodd a chymeradwyodd yr Awdurdod amcanion strategol a lles ar sail ymgynghori anffurfiol â rhanddeiliaid dros gyfnod yr haf. Yn y Gweithgor ar 21 Hydref derbyniodd yr Aelodau adroddiad yn rhoi adborth ar yr ymgynghoriad anffurfiol ac yn argymhell (gydag un gwelliant) y dylai'r Awdurdod ymgynghori'n ffurfiol ar yr amcanion hynny.
- 1.4. Mae'r Awdurdod wedi cytuno o'r blaen y byddai'r Gweithgor ar 21.10.20 yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad anffurfiol ac i ddirprwyo awdurdod Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i fabwysiadu'r amcanion strategol a lles

drafft yn ffurfiol ar gyfer y cyfnod 2021-26 a'u cymeradwyo ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol â rhanddeiliaid.

2. AMCANION STRATEGOL A LLES 2021-26 A CHYNLLUN CORFFORAETHOL 2021-22

- 2.1 Dylid cadarnhau anghymhwysiad y mesur Llywodraeth Leol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Fel Awdurdod, mae angen i ni nawr ddangos gwerth am arian a gwelliant parhaus trwy adrodd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Fel y trafodwyd yn flaenorol gydag aelodau, dylai hyn hwyluso aliniad gwell o waith yr Awdurdod â'r cynllun corfforaethol, mecanweithiau adrodd a sefydlu amcanion realistig a CAMPUS ar gyfer rhaglenni gwaith blynyddol.
- 2.2 Yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol, bydd swyddogion wedyn yn coladu'r holl adborth, yn dwyn ynghyd yr amcanion Strategol a Lles terfynol, ac yn adrodd arnynt er mwyn i'r aelodau eu cymeradwyo'n derfynol. Ar ôl eu mabwysiadu'n ffurfiol gall gwaith paratoi ar y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/22 ddigwydd.
- 2.3 Yn y Flwyddyn Newydd bydd swyddogion yn drafftio'r rhaglen waith flynyddol ar gyfer 2021/22 a fydd yn cael ei gyrru gan yr amcanion strategol a lles ac mae aelodau'n dymuno i'r rhaglen waith adlewyrchu mwy o waith craidd yr Awdurdod. Mae angen i'r Awdurdod fabwysiadu ei gynllun corfforaethol yn ffurfiol ar gyfer 2021/22 erbyn diwedd Ebrill 2021. Bydd gan aelodau gyfle i ystyried y rhaglen ddrafft cyn ei mabwysiadu'n ffurfiol ym mis Ebrill.
- 2.4 Yr her ar gyfer ddull gweithredu wedi'i hadnewyddu tuag at gynllun corfforaethol yw gosod Dangosyddion Perfformiad ystyrion a gosod amcanion CAMPUS. Yn y flwyddyn gyntaf wrth ddatblygu'r cynllun corfforaethol, sydd wedi'i osod yn erbyn amcanion newydd, a pheidio â gorfod adrodd fel Awdurdod gwella o dan y mesur Llywodraeth Leol, bydd angen cydnabod gwaith presennol yr Awdurdod fel llinell sylfaen i ddatblygu arno yn y blynyddoedd dilynol.

3. AMCANION STRATEGOL A LLES 2021-26

- 3.1 Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae aelodau wedi datblygu amcanion strategol a lles gan ganolbwyntio ar dri chanlyniad, dau ohonynt yn wynebu tuag allan ac un yn wynebu tuag i mewn sydd a wnelo sut mae'r Awdurdod am weithredu.
- 3.2 Mae'r gweithgor ar 21 Hydref yn argymhell y canlynol i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod:

Amgylcheddau Cydnerth:

1. Gwella rheolaeth hamdden a mynd i'r afael ag effeithiau negyddol hamdden,
2. Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd,
3. Gwella rheolaeth a'r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol,
4. Mynd i'r afael â heriau senarios rheoli tir ar ôl Brexit,
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

Cymunedau Cydnerth:

1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd preswylwyr,
2. Cefnogi pobl ifanc,
3. Gwerth twristiaeth i gymunedau lleol,
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol,
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd cydnerth o weithio.

1. Datblygu gweithlu medrus,
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau,
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth,
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu,
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y parc Cenedlaethol.

Ffyrdd cydnerth o weithio.

1. Datblygu gweithlu medrus,
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau,
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth,
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu,
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y parc Cenedlaethol.

4. ARGYMHELLION:

4.1 I'r aelodau nodi cyngor Gweithgor Aelodau ar 21 Hydref 2020.

4.2 I aelodau fabwysiadu'r Amcanion Strategol a Lles drafft ar gyfer 2021-26 at ddibenion ymgynghoriad ffurfiol fel yr amlinellir ym mharagraff 3.

ATODIAD 1.

Gwanwyn, 2019	Ymgysylltiad cychwynnol â Phenaethiaid Gwasanaeth
Haf, 2019	Ymgysylltu Aelodau a Staff i drafod cynigion ar gyfer Amcanion Llesiant ac opsiynau cwmpas ar gyfer cynnwys blaenoriaethau'r adroddiad "Gwerthfawr a Chydnerth"
Medi, 2019	Gweithgor Aelodau wedi'i Hwyluso i gwmpasu Amcanion Llesiant posibl (at ddibenion ymgysylltu).
Tachwedd, 2019	Cadarnhau llinell amser diwygiedig ar gyfer mabwysiadu Amcanion Llesiant newydd.
Gaeaf 2019/20	Gweithgor Aelodau pellach wedi'i Hwyluso i gwmpasu Amcanion Llesiant.
Gwanwyn 2020	Gweithgorau / grwpiau tasg a gorffen i ystyried yr Amcanion Llesiant ymhellach.
Meh / Gorff 2020	Aelodau (Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau) yn cymeradwyo Amcanion Lles ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys staff, partneriaid, Llywodraeth Cymru, Cynghorau Cymunedol, y sector wirfoddol, y sector breifat ac eraill.
Medi neu mis Tachwedd 2020	Aelodau yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a chytuno ar flaenoriaethau drafft y gwasanaeth, amcanion gwella ac amcanion* lles.
Tachwedd / Rhagfyr 2020	Ymgynghoriad Ffurfiol â rhanddeiliaid
Yn gynnar ym mis Chwefror, 2021	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad, paratoi drafft terfynol o'r Amcanion gwella * ac amcanion lles ac i lunio rhaglen waith yn seiliedig ar hynny. Bydd angen mewnbwn Swyddog Archwilio Cymru ar yr adeg hon.
Yn gynnar ym mis Mawrth, 2021	Gweithgor Aelodau i ystyried y drafft terfynol.
Mawrth 2021, Pwyllgor P&A	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau (ar ran yr Awdurdod) i fabwysiadu'r amcanion gwella* a'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2021-26. Mae hyn yn caniatáu i'r Cynllun Corfforaethol gael ei baratoi i'w fabwysiadu gan gyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill 2021. Bydd y Cynllun yn cynnwys datganiad yn egluro sut mae'r amcanion yn helpu'r Awdurdod i gyflawni'r nodau Llesiant, a sut y cymhwysodd yr egwyddorion datblygu cynaliadwy.
Ebrill 2021	Awdurdod yn mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-22.

* Gellir anghymhwysu Mesur Llywodraeth Leol erbyn Ebrill 2021.

EITEM RHIF 9

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	18 Tachwedd 2020
TEITL	RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2020-21
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Adroddiad cynnydd Chwarter Un a Dau ar gyfer 2020-21

1. CEFNDIR

- 1.1 Ynghlwm mae adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol yn amlinellu manylion cynnydd sydd wedi ei wneud gan yr Awdurdod yn y wahanol brosiectau / gweithredoedd gwelliant a gytunwyd ar gyfer chwarter un a dau (01 Ebrill hyd at 30 Medi 2020).
- 1.2 Mae'r adroddiad yn dangos crynodeb o'r cynnydd sydd wedi ei wneud ar y prosiectau / mentrau sy'n berthnasol i Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.
- 1.3 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

2. ARGYMHELLIAD

2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynghlwm

3. PAPURAU CEFNDIROL

- 3.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2020-21: Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 a 2.


AMCANION LLESIANT A GWELLIANT 2020-21 : RHAGLEN WAITH


Diweddariad Chwarteri 1 a 2 : Mawrth – Medi, 2020


1. EIN CYMUNEDAU


GWEITHIO GYDA'N CYMUNEDAU I DDATBLYGU LLES ECONOMAIDD, DIWYLLIANNOL A CHYMDEITHASOL ERYRI

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:	Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i ddarparu tai fforddiadwy
------------------------------	---

Diweddariad Chwarter + Statws	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol	Amserlen	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
 Ch. 1-2 Ch. 3 Ch.4	<p>Er mwyn sicrhau bod Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI yn darparu asesiad o berfformiad yr Awdurdod o ran tai fforddiadwy – gan gynnwys lle bo hynny'n briodol unrhyw gamau i fynd i'r afael â thargedau na chafodd eu cyrraedd</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI tan Hydref 2021. Er gwaethaf hyn mae Adroddiad Monitro Blynyddol Dros Dro yn cael ei baratoi a fydd yn cael ei gyflwyno i Weithgor Aelodau yn gynnar yn 2021.</p>	Trwy 2020-21	Rheolwr Cynllunio


Statws:  Wedi symud ymlaen o fewn yr amserlen a/neu wedi ei gwblhau


 I'w symud ymlaen yn y chwarter(i) nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth, 2021


 Heb ei symud ymlaen a/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2021


* Swyddog sy'n Arwain

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:	Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy yn ein cymunedau sy'n defnyddio'r rhinweddau a'r cyfleoedd y mae Eryri yn eu darparu
------------------------------	---



Diweddariad Chwarter + Statws	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol	Amserlen	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
 Ch. 1-2 Ch. 3 Ch. 4	<p>Cydweithio gydag asiantaethau datblygu economaidd, gan gynnwys awdurdodau lleol i weithio tuag at gydnerthedd economaidd lleol a chyfleoedd economaidd, gan gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cefnogi mentrau o fewn y strategaethau twf rhanbarthol sy'n gwella cysylltedd digidol, wrth ddiogelu'r dirwedd ➤ Gweithio gyda'r adrannau datblygu economaidd o fewn cynghorau lleol i ddatblygu cyfleoedd a rennir sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol ➤ Gweithio gyda phartneriaid i arallgyfeirio'r economi gan gynnwys datblygu ymgyrch i annog busnesau sy'n gallu gweithio o bwll (e.e. busnesau technoleg a TG) i sefydlu yn yr ardal ➤ Cefnogi cyfleoedd yn y sector twristiaeth sydd o wrth uchel, o ansawdd uchel ac yn ystyriol o amddiffyn Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ➤ Sicrhau bod egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy wedi'u hymgorffori ar draws y Parc Cenedlaethol <p>Mae'r gwaith gyda'n partneriaid allweddol yn parhau.</p>	Trwy 2020-21	Rheolwr Partneriaethau Swyddog Partneriaethau


Statws:  Wedi symud ymlaen o fewn yr amserlen a/neu wedi ei gwblhau


 I'w symud ymlaen yn y chwarter(i) nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth, 2021


 Heb ei symud ymlaen a/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2021

* Swyddog sy'n Arwain

Diweddariad Chwarter + Statws	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol	Amserlen	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
 Ch. 1- 2 Ch. 3 Ch. 4	<p>Sicrhau bod Fforwm Eryri yn cyfarfod i ddarparu diweddariadau ar gynnydd wrth weithredu'r Cynllun Rheoli'r Parc yr Awdurdod</p> <p>Parhaus - mae Fforwm Eryri yn cwrdd bob chwarter ac wedi parhau i wneud hynny trwy gydol y cyfnod clo, nawr bod Cynllun Eryri wedi'i fabwysiadu'n swyddogol, bydd y Fforwm yn dechrau blaenoriaethu prosiectau i'w cwblhau.</p>	Parhaus	Rheolwr Partneriaethau
 Ch. 1- 2 Ch. 3 Ch. 4	<p>Parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Partneriaeth Yr Wyddfa gyda phartneriaid</p> <p>Parhaus - mae pob prosiect yn cael ei symud ymlaen ac o fewn amserlenni a bennwyd.</p>	Parhaus	Rheolwr Partneriaethau* Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa


Statws:  Wedi symud ymlaen o fewn yr amserlen a/neu wedi ei gwblhau


 I'w symud ymlaen yn y chwarter(i) nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth, 2021


 Heb ei symud ymlaen a/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2021


* Swyddog sy'n Arwain

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:	Cyfleu buddion dynodiad Eryri fel Parc Cenedlaethol i les ein cymunedau
------------------------------	---

Diweddariad Chwarter + Statws	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol	Amserlen	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
 Ch.1-2 Ch. 3 Ch. 4	<p>Adolygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Asesu ein dull gweithredu tuag at ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gynnal adolygiad cyflawn o'r sianel (asesiad o'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwn ar gyfer cyfathrebu) o weithgareddau'r Awdurdod CWBLHAWYD gan gynnwys yr holl arolwg staff. Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Tîm Rheoli ym mis Tachwedd. ➤ Defnyddio'r canlyniadau i fwydo i'r Strategaeth Gyfathrebu newydd. Adlinio'r ffocws i gyfathrebu â'n rhanddeiliaid pwysicaf o ran ein negeseuon allweddol Yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. ➤ Datblygu a gweithredu grid cyfathrebu (cynllun calendr ar weithgareddau cyfathrebu ar-lein a thraddodiadol) ar gyfer 2020-21 sydd wedi'i ysbrydoli gan y Rhinweddau Arbennig fel y'i nodir yng Nghynllun Eryri ac sy'n dathlu Pen-blwydd y Parciau yn 70 oed. CWBLHAWYD ac mae'n cael ei weithredu. Bydd yn cael ei adolygu unwaith y bydd Strategaeth Cyfathrebiadau newydd yn ei lle. Bydd papur ar gynlluniau 70 mlwyddiant yn cael ei drafod gyda'r Aelodau cyn diwedd y flwyddyn. 	Medi 2020 Mawrth 2021 Mai 2020 yna ei adolygu yn dilyn mabwysiadu'r Strategaeth Gyfathrebu	Pennaeth Ymgysylltu



Statws:  Wedi symud ymlaen o fewn yr amserlen a/neu wedi ei gwblhau


 I'w symud ymlaen yn y chwarter(i) nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth, 2021


 Heb ei symud ymlaen a/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2021


* Swyddog sy'n Arwain

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:	Datblygu ein gwaith o ddeall, hyrwyddo a rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol ymhellach
------------------------------	---




Diweddariad Chwarter + Statws	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol	Amserlen	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
 Ch. 1- 2 Ch. 3 Ch. 4	<p>Rheoli a datblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol yn barhaus fel un o'r safleoedd treftadaeth ddiwylliannol mwyaf arwyddocaol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol i'w weithredu <u>ar ôl Cofid-19</u></p> <p>Arweiniodd pandemig Coronafeirws at gau Yr Ysgwrn trwy gydol Chwarter 1 a hanner cyntaf Chwarter 2. Ail-agorwyd y safle yn llwyddiannus ganol mis Awst 2020. Gwnaed ceisiadau cyllido llwyddiannus i gronfa Lleoedd Cynaliadwy, Tirweddau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella seilwaith, ac i Artfund i ariannu digwyddiad rhithwir Carolau ac i Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru i ad-dalu cost ailagor.</p>	Mawrth 2021	Rheolwr Safle Yr Ysgwrn
 Ch. 1-2 Ch. 3 Ch. 4	<p>Paratoi a gweithredu strategaeth i'r Awdurdod amddiffyn, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri</p> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu Treftadaeth Ddiwylliannol yn cael ei ddatblygu fel is-dogfen o Gynllun Eryri. Mae partneriaid yn ymgysylltu a bydd drafft yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn gynnar yn 2021.</p>	Mawrth 2021	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol


Statws:  Wedi symud ymlaen o fewn yr amserlen a/neu wedi ei gwblhau


 I'w symud ymlaen yn y chwarter(i) nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth, 2021


 Heb ei symud ymlaen a/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2021

* Swyddog sy'n Arwain

Diweddariad Chwarter + Statws	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol	Amserlen	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<p>UWCH GWYRFAI</p> <p>Mae prosiect ar y cyd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chymdeithas Bori Uwch Gwyrfai i wella cyfleoedd pori ar y comin, gwella statws cadwraethol cynefinoedd, gwella cyfleusterau mynediad a hamdden a chynyddu lles y cyhoedd</p>	<p>Rhagfyr 2018 ↓ Mawrth 2021</p>	<p>£418,010</p> <p>Gwariant hyd yma: £190,010.46</p> <p>Gwaith cyfalaf Wedi ymrwymo: 96%</p> <p>Prosiect partneriaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> ❖ Sicrhau'r cydsyniadau / caniatad perthnasol ❖ Dangosyddion llwyddiant - cael 25 o bobl i mewn i hyfforddiant ❖ Adeiladu gwell cyfleusterau hamdden ar y comin - Dŵr Cymru yn anymatebol ❖ Staffio: Swyddog Prosiect yn gadael y swydd cyn diwedd y prosiect 	<p>Pob un yn unol â'r targed Heblaw am "Ardal o gynefin mawndir wedi'i ail-wlychu = 0 / 10ha" Gosodwyd y targed yn ystod y cam Mynegi Diddordeb. Cafwyd Cadarnhad Arbenigol dilynol nad oes angen 10ha o fawndir sydd angen ei ail-wlychu na mesurau rheoli.</p>	<p> SMS Uwch Gwyrfai (C.).pdf</p>
<p>MAWNDIROEDD</p> <p>Bydd y prosiect yn helpu i gyflawni targed Gweinidogol 2020 i ddod â mawndiroedd o dan reolaeth gynaliadwy.</p>	<p>Awst 2017 (Gohiriodd yr oedi staffio ddechrau'r prosiect hyd at Chwefror 2018) ↓ (Rhagfyr) Mawrth 2020</p> <p>Estyniad 3 mis heb ei ariannu</p>	<p>£924,956</p> <p>Gwariant 94% Wedi'i ymrwymo</p> <p>Prosiect partneriaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cafodd y mwyafrif o risgiau eu hosgoi neu eu rheoli'n dda trwy gydol y prosiect. ➤ Fodd bynnag, yn y flwyddyn olaf, gadawodd aelodau staff y prosiect ac ni phenodwyd neb yn eu lle ac felly fe leihawyd capasiti. Darparwyd cymorth gan sefydliadau partner i gadw'r prosiect ar y trywydd iawn. ➤ Mae Covid-19 wedi bod yn risg nas rhagwelwyd - yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol - sydd wedi effeithio'n ddifrifol ar ganlyniadau'r prosiect yn y chwarter diwethaf - ac felly cafwyd estyniad 3 mis 	<p>Gan fod y prosiect bron â dod i ben, rheolwyd y rhan fwyaf o dargedau'r prosiect sy'n cydfynd â'r targedau strategol. Er bod Covid-19 wedi gohirio rhai o dargedau'r prosiect, mae'r prif dargedau strategol wedi'u cyflawni.</p>	<p> SMS Mawn (C.).pdf</p>

PROSIECT	DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD	CYFANSWM CYLLID	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL Gweler yr adroddiadau llawn	Manylion Llawn y Prosiect
PROSIECTAU GRID CENEDLAETHOL: 3 phrosiect (Mae Prosiect 1 a 2 yn seiliedig ar wella gwerth cadwraeth Dyffryn Maentwrog wedi'u rhannu'n dri chategori: Rheoli Coetir Hynafol, Cysylltedd a Rhywogaethau Goresgynnol. Prosiect 3, Ffiniau Traddodiadol yn seiliedig ar wella cysylltedd, bioamrywiaeth a'r dirwedd hanesyddol, yn bennaf ar draws ardaloedd y Carneddau a Rhyd Uchaf yn y Parc. Rhaid i'r tri phrosiect fod o fewn 3km i seilwaith llinell Pŵer y Grid Cenedlaethol, yn unol â gofynion y grant.					
Menter Gwella Tirwedd Grid (MGT) y Grid Cenedlaethol 1. Gorllewin Maentwrog 2. Dwyrain Maentwrog 3. Ffiniau Traddodiadol Eryri	3 blynedd o ddechrau'r prosiect Prosiect 1. tua. 90% i'w gwblhau ym mis Rhagfyr 2020 Prosiect 2. tua 50%, wedi'i ymestyn 6 mis Prosiect 3. Wedi'i gwblhau	£598,529.00. 75% wedi'i ariannu gan GC 25% o bartneriaid APCE + 75% o'r cyllid a dderbyniwyd - y gweddill i'w hawlio pan y'i cwblheir	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae oedi cychwynnol sylweddol gan OFGEM a'r Grid Cenedlaethol wrth gael cymeradwyaeth a chaniatâd i ddechrau wedi taflu pob un o'r 3 phrosiect y tu ôl i'r amserlen gyflawni arfaethedig a hynny o sawl mis. ➤ Mae Covid 19 wedi arwain at oedi'r cwblhau. Mae cyllidwyr prosiect wedi cael diweddariad, bydd y gwaith yn parhau gan ddilyn canllawiau llym LIC Covid-19 Hysbyswyd MGT y Grid Cenedlaethol am yr oedi ac maent wedi cadarnhau estyniad i ddyddiadau cwblhau'r prosiectau.	Cyrhaeddwyd y targedau.	 Grid Cenedlaethol (C.).pdf
AWYR DYWYLL Yn dilyn llwyddiant APCE wrth gael statws achrededig Cronfa Awyr Dywyll ddiwedd 2015 rhaglen 3 blynedd arall i amddiffyn, gwella a hyrwyddo'r warchodfa	Ionawr 2019 ↓ 2022 <u>Partneriaid:</u> 3 x AoDdGA : Pen Llŷn, Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	£227,000 APCE: £40 mil Partneriaid: £87k Cyllid ychwanegol gan LIC: £100k	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Swyddog yn gadael y swydd: mae angen rhaglen fonitro flynyddol i gynnal statws yr Awyr Dywyll. ➤ Ni fydd cyllid ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer ôl-ffitio, fan a llwybr yn cael ei gwblhau mewn modd amserol oherwydd bod Covid yn tarfu ar linellau cynhyrchu a'r gallu i waith fynd yn ei flaen o fewn canllawiau'r llywodraeth. 	Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar gais CTL sy'n gobeithio ymestyn y prosiect 3 blynedd. Derbyniwyd yr MGT a gofynnwyd am gynnig llawn cyn cau Covid. Mae partneriaid wedi sicrhau a chytuno i ymestyn y contract swyddog i 2022, bydd hyn yn cael ei gyflwyno os derbynir yr arian CTL.	 Awyr Dywyll (C.).pdf

PROSIECT	DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD	CYFANSWM CYLLID	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL Gweler yr adroddiadau llawn	Manylion Llawn y prosiect
PROSIECTAU CYMORTH BUDDSODDI MEWN AMWYNDERAU TWRISTIAETH (a adwaenir fel TAIS) CROESO CYMRU - CYFANSWM ARIAN GRANT = £186,681					
TAIS NANT PERIS Cyflawni elfennau allweddol o Gynllun Partneriaeth yr Wyddfa trwy uwchraddio a moderneiddio seilwaith ymwelwyr hanfodol yn y prif faes parcio a theithio ar gyfer cyrchu'r Wyddfa.	Tachwedd 2018 ↓ Rhagfyr 2020	£87,100 £69,650 CC £17,450 APCE a phartneriaid	Gweler Aseiad Risg Ynglwm	Bydd targedau yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Croeso Cymru.	 TAIS Nant Peris (C.).pdf
TAIS OGWEN Gwella profiad ymwelwyr â Chwm Idwal trwy ddod â nodweddion tirwedd yr ucheldir yn fyw i bob ymwelydd â'r Ganolfan, gan gynnwys y rhai na allant brofi amgylchedd y mynydd drostynt eu hunain.	2018 ↓ Mehefin 2020 Mae Croeso Cymru wedi rhoi estyniadau cyffredinol i bob prosiect	£99,581 £82,664 CC £16,916 APCE a phartneriaid	❖ Oedi hefo'r gwaith cerrig allanol. Gweithio gyda'r contractwr i ddod o hyd i atebion. ❖ Oedi gydag agor y ganolfan oherwydd argyfwng Covid-19. Elfennau rhyngweithiol yn cael eu symud dros dro.	Cwblhawyd y mwyafrif o'r targedau 90% o'r hyn sy'n weddill wedi'u cwblhau.	 TAIS Ogwen (C.).pdf

PROSIECT	DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD	CYFANSWM CYLLID	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL Gweler yr adroddiadau llawn	Manylion Llawn y prosiect
GALLUOGI ADNODDAU NATURIOL A LLES LLYWODRAETH CYMRU (GANLI / ENRaW)					
PARTNERIAETH NATUR LEOL ERYRI (PNLE) Mae'r PNLE wedi'i sefydlu fel rhan o brosiect ledled Cymru i greu dull cydweithredol o ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth yn sgil yr argyfwng bioamrywiaeth.	Ebrill 2019 ↓ Mawrth 2022 Cydweithrediad rhwng APCE ac amryw o gyrff anllywodraethol amgylcheddol	£7k bob blwyddyn x 3 blynedd 2 x £30k o grantiau ym mlwyddyn 2	<ul style="list-style-type: none"> ❖ Newid staff: Mae cydlynnydd y prosiect wedi gadael y swydd yn ddiweddar. Yn y broses o recriwtio ar hyn o bryd ❖ Capasiti partneriaid cyflawni Daeth nifer o risgiau i'r amlwg o achos argyfwng Covid-19: ❖ Cyllid ddim yn cael ei wario ❖ Prosiectau y tu ôl i'r proffil ❖ Methu â chynhyrchu incwm o 20% erbyn diwedd y tair blynedd. Mae PNC Cymru yn bwriadu adolygu'r targed hwn gan mai'r consensws yn ei gyfanwydd ar draws y rhwydwaith yw bod hyn yn amhosibl i'w gyflawni ac na all y prosiect barhau heb gyllid Llywodraeth Cymru. 	Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau cronnus unigol a ddynodwyd erbyn diwedd y tair blynedd. Efallai y bydd y targedau ar gyfer yr ail flwyddyn yn brin, yn enwedig targedau fel gweithgareddau allgymorth cymunedol oherwydd y cyfyngiadau a gyflwynir gan Covid-19. Y gobaith yw y bydd y targedau hyn yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y prosiect trwy gynyddu nifer y gweithgareddau a'r digwyddiadau allgymorth a gynhelir yn y drydedd flwyddyn.	 PNLE

EITEM RHIF 15

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	18 Tachwedd 2020
TEITL	PROFFIL RISG YR AWDURDOD
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod gan ystyried effaith COVID-19.

CEFNDIR

- 1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri categori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sefyllfa gyfredol y Proffil Risg hwnnw a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Awdurdod yng nghyfarfod 3 Mehefin 2020.
- 1.2 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd chwarterol y Penaethiaid Gwasanaeth hefo'r Tîm Rheoli. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru. Nodir isod grynodedb o sefyllfa'r risgiau ynghyd â nodi os bu newid ers yr adroddiad ym Mehefin 2020 (manylder yn Atodiad 1).
- 1.3 Nodir crynodeb o'r risgiau:

Risg Uchel	Newid
Diffyg arian cyllido digonol	Dim
Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio)	Dim
Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at ddyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.	Dim
Effaith yr haint Coronavirus (COVID-19) ar waith yr Awdurdod.	Dim

Risg Canolig	Newid
Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch)	Lleihau o uchel
Risg i enw da par. Rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn	Dim
Methu a chyflawni gofynion y ddeddf "Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol"	Dim
Risgiau i'r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid "heb ei gadarnhau" (un ai cyfraniadau cyfalaf neu "heb fod yn arian") yng nghyfnod oes y prosiect.	Dim
Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data 2018	Dim
Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfodhaol.	Dim
Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod	Dim
Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Dim
Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol	Newydd
Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth)	Newydd
Cynhyrchu Incwm (Cynllunio)	Newydd

Risg Isel	Newid
Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri	Dim

GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Dim yn codi o'r Adroddiad hwn.

ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

PAPURAU CEFNDIR

Dim

COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI												
Cyf.	Disgrifiad risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau rheoli / gweithredoedd	Gweddill risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg.	Canlyniad		Effaith (1-5)	Tebyg. (1-5)	Canlyniad			
1	Diffyg arian cyllido craidd digonol	Tori Gwasanaethau	5	3	15	Consequential" digonol gan San Steffan i'w galluogi i gynnal lefel y grant Parc Cenedlaethol ar gyfer 2020/21, ond cafwyd setliad grant gwastad (dim chwyddiant, sy'n doriad gwirioneddol). Er hynny, yn Chwefror 2020, llwyddodd APCE i osod cyllideb gyfbwys ar gyfer 2020/21 a chadw lefel darbodus o gronfeydd wrth gefn. Ers hynny, mae'r argyfwng Covid-19 a chyfnodau clo yn golygu y gall APCE wynebu colledion incwm sylweddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn digolleddu rhan o'r incwm gollwyd yn 2020/21, ond gall yr effaith ar rhai ffynonellau incwm ymestyn am flynyddoedd i'r dyfodol. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn datgelu lefel y grant Parc Cenedlaethol ar gyfer 2021/22 cyn yr 8fed o Ragfyr 2020, yn sgil adolygiad gwariant Llywodraeth San Steffan a datganiad cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar yr 8fed o Ragfyr.	3	5	15	→	A (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Prif Swyddog Cyllid
2	Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch)	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 23ain o Hydref 2020 cymerwyd y penderfyniad i weithredu Plas Tan y Bwlch fel busnes G&B yn y tymor byr i ganolog, ac i symud ymlaen i ailstrwythuro staff fel amlinellwyd yn yr adroddiad. Mae'r penderfyniad yn golygu bod y risg i'r Awdurdod wedi ei lleihau rhywfaint. Pryn bynnag, tan i'r sefyllfa pandemig Covid-19 ddod yn gliriach, mae'r risg i'r Awdurdod yn parhau, er bod yr effaith a thebygolydd wedi lleihau rhywfaint.	3	4	12	↓	A (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Pennaeth Busnes - Plas Tan y Bwlch, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio)	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	Gwelwyd cynnydd cadarnhaol yn incwm Chwarter 2 sydd, ynghyd â chymorth gan Lywodraeth Cymru at golled incwm Chwarter 1, wedi golygu cyflawni 87.5% o'r targed incwm blynyddol hyd at ganol Hydref. Er hyn mae cyfyngiadau clo lleol Conwy wedi cael effaith sylweddol ar incwm Chwarter 3, a gyda cholled incwm hanner tymor yr Hydref yn ogystal ag ansicrwydd am gyfnodau clo pellach oherwydd Covid-19 yn ystod y Gaeaf; mae'r risg o fethu cyflawni'r targed yn parhau yn uchel.	4	5	20	→	A (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Pennaeth Eiddo, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
4	Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwm	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygreddd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau.	5	3	15	Datblygwyd safle Yr Ysgwm yn llwyddiannus, gyda dim ond rhai manylion i'w cadarnhau a'u cwblhau erbyn Ionawr, 2021. Oherwydd effaith y pandemig Covid-19, cafwyd estyniad safonol o 6 mis gan y Gronfa Dreftadaeth i gwbhau'r gwaith. Llwyddwyd i ail agor y safle ar raddfa rhan amser ym mis Awst. Gwelwyd cwymp enfawr mewn incwm oherwydd y cyfnod cau a'r rheolau atal lleolaidd Covid-19 oedd yn cyfyngu ar y nifer o ymwelwyr galla'r Ysgwm eu croesawu. Oherwydd cyfyngiadau pellach o Hydref 23ain, bydd Yr Ysgwm yn cau wythnos yn gyt ym ddiwedd ym gollu tri diwrnod o incwm. Llwyddwyd i sicrhau arbedion drwy'r cynllun ffyrlo ac mae cais wedi'i gyflwyno er mwyn hawlio rhai costau eraill yn ôl drwy'r Gronfa Adfer Diwylliant. Mae'r Awdurdod yn derbyn taliadau cyson drwy'r Cynllun Gwresogi Adnewyddol erbyn hyn. Mae gweithgareddau rhithiol ar y gweill dros y gaeaf gan gynnwys Calan Gaeaf a noson garolau. Bydd Bwrdd yr Ysgwm yn cyfarfod eto ym mis Tachwedd i adolygu'r sefyllfa ariannol.	3	3	9	→	A (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Prif Weithredwr
5	Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygreddd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.	4	3	12	Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr effennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa. Mae is-grŵp i Gynllun Yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafnidiaeth / parcio yn yr ardal. Mae astudiaeth ar reolaeth traffig ar gyfer ardaloedd y Wyddfa ac Ogwen wedi ei gomisiynu ac wedi ei dderbyn. Mae partneriaid nawr yn ystyried argymhellion yr adroddiad gyda Llywodraeth Cymru ac yn adlewyrchu'r gwersi a ddyddwyd dros gyfnod prysur yr haf.	2	2	4	→	A (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Prif Weithredwr
6	Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol	Adroddiad archwilio critigol / cyhoeddusrwydd negyddol	3	3	9	Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru ar gynllun peilot i ddatblygu ei effeithiolrwydd er mwyn gweithredu gofynion y Ddeddf Llesiant. Mae SAC wedi cytuno rhaglen 4 blynyddol ar agweddau o'r Pum Modd o Weithio o dan yr Egyddor Datblygu Cynaliadwy. Y rhaglen ydyw: • 2018-19 Cyd-weithio a Phartneriaethau (cwbhawyd), • 2019-20 Ymglymiad, cyfranogiad, ymgynghoriad ac ymgysylltu, 'Roedd y rhaglen gytunedig am y blynyddoedd nesaf wedi ei gadarnhau fel a ganlyn: • 2020-21 Integreiddio o bolisiau a gwasanaethau, • 2021-22 Atal pethau drwg. Mae SAC, serch hynny, wedi dewis gwynnch yr Awdurdod yn ystod pandemig Covid-19, fel maes archwilio perfformiad am 2020/21.	3	3	9	→	C (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Prif Weithredwr
7	Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwydd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Cenedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwala, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwyllir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect.	Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da.	3	4	12	Bydd y Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwr Prosiect yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau fod cyfraniadau "mewn nwyddau" yn digwydd ac y cyflwynir geisiadau grant effeithiol. Penodwyd staff craidd y cynllun yn y gwanwyn ac mae'r tim yn ei le ers mis Mehefin. Lansiwyd cyfnod gwireddu'r cynllun ym mis Hydref 2020 drwy ddiwyddiad rhithiol. Mae trefn o hysbysu Partneriaid o gynnydd yn digwydd drwy ddiweddariadau rheolaidd. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd y Grŵp Craidd eleni a chynhaliwyd cyfarfod blynyddol y bartneriaeth lawn ym mis Hydref. Mae'r holl bartneriaid wedi llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth (dim grym cyfreithiol) er mwyn sicrhau ymrwymiad i'r bartneriaeth; a bydd y partneriaid craidd, sydd wedi addo'r mwyaf yn nhermau cyllid a chyfraniadau mewn nwyddau, yn rhan o Gytundeb Partneriaeth (gyda grym cyfreithiol) sydd wedi ei ddarparu a'i rannu gyda hwy. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwr Prosiect yn parhau i weithio'n agos gyda chyllidwyr i sicrhau fod diwallu ar holl ofynion cyllido a phwrpasau cymeradwy. Mae'r argyfwng Covid-19 un achosi risg i amserlen y cynllun ac mae hyn yn cael ei drafod gyda'r Gronfa Dreftadaeth a phartneriaid. Bydd effaith llawn Covid-19 ar y cynllun yn dod yn fwy eglur dros y flwyddyn a ddaw ac mae swyddogion yn adolygu'r sefyllfa'n barhaus. Mae estyniad amser yn cael ei drafod gyda'r Gronfa Dreftadaeth ac yn debygol o gael ei gymeradwyo pan fydd llawn effaith pandemig Covid-19 ar y cynllun yn hysbys.	3	2	6	→	A (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Pennaeth Gwasanaeth Trefladaeth Ddiwyllianol
8	Anghydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR)	Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi	4	3	12	Wrthi'n adolygu ein system e-ddysgu fel bod rhaid gwneud y cwrs Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) yn flynyddol, a hefyd yn adolygu'r cyrsiau ar gael. Mae rheoli data yn barhaus.	3	2	6	→	A (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Pennaeth Technoleg Gwybodaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydyffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt	Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn	5	3	15	Disgwyllir bydd Adroddiad Cynnydd Canol-Tymor a chais am daliad yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn diwedd Hydref 2020 yn unol â hyn gytunwyd cynharach yn y flwyddyn (gohiriwyd o Ionawr 2020). Yn ogystal, bydd adroddiad nesaf i Lywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno yn Hydref / Tachwedd 2020 ar gyfer cyfnod Ebrill 2020 - Medi 2020. Disgwyllir i'r prosiect cyraedd y targed gwariant o £2m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2020/21 er mwyn hawlio cyfraniad LIC yn ei gyfanrwydd, ond os bydd cyfyngiadau llym yn cael eu gweithredu yng ngaeaf 2020/21 o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, bydd hyn yn rhoi ychydig o bwysau ar staff i gyrraedd y Er bod y prosiect wedi llythro yn erbyn profil o safbwynt gwariant, fe fu dal i'w fyny sylweddol yn ystod chwarter 4 2019/20. Mae safon y gwaith sydd wedi ei wneud yn dda a'r partneriaid i'w gweld yn hapus hefo'r hyn sy'n cael ei wneud, a gyda chyfleoedd i gyfrannu at a llywio'r prosiect trwy eu cynnychiolaeth ar y Bwrdd Prosiect a Grŵp Cyflawni. Yn ychwanegol, mae EASME (Comisiwn Ewropeaidd) wedi cymeradwyo adroddiad cynnydd cyntaf y prosiect a gyflwynwyd yn Ionawr 2020. Er i'r cyfyngiadau a roddwyd ym Mawrth 2020 o ganlyniad i bandemig Covid-19 arafu rhaglenni gwaith yn sylweddol am gyfnod byr, mae'r prosiect wedi gallu parhau gyda'r momentwm cafodd ei greu cyn y pandemig, ar ôl i gyfyngiadau'r llwyrglo ysgafnu ym mis Mehefin. Cyn belled fod yna ddim llwyrglo llawn arall, ni ddisgwyllir i'r sefyllfa Covid-19 parhaus effeithio'n ormodol ar weithrediad y prosiect am weddill 2020/21. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda'r prif gyllidwyr (EASME/LIC) parthed effeithiau posibl a datblygu darpariaethau.	4	4	16	→	A (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Prif Weithredwr / Rheolwr Prosiect
10	Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfodddhaol	Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifaf, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach	4	3	12	Er i'r cyfyngiadau a roddwyd ym Mawrth 2020 o ganlyniad i bandemig Covid-19 arafu rhaglenni gwaith yn sylweddol am gyfnod byr, mae'r prosiect wedi gallu parhau gyda'r momentwm cafodd ei greu cyn y pandemig, ar ôl i gyfyngiadau'r llwyrglo ysgafnu ym mis Mehefin. Cyn belled fod yna ddim llwyrglo llawn arall, ni ddisgwyllir i'r sefyllfa Covid-19 parhaus effeithio'n ormodol ar weithrediad y prosiect am weddill 2020/21. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda'r prif gyllidwyr (EASME/LIC) parthed effeithiau posibl a datblygu darpariaethau.	4	3	12	→	C (adolygydd Awdurdod 03/06/2020)	Prif Weithredwr / Rheolwr Prosiect

11	Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod	Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli.	3	3	9	Mae'n rhaid i swyddogion ddilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tim rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod. Mae'r pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau perthnasol angen ystyriaeth a chytundeb gyda phartneriaid a chyllidwyr prosiectau ar ail-broffilio a sut i symud ymlaen. Yn rhoi ystyriaeth i ddarparu fwy o gefnogaeth ganolog ar gyfer prosiectau er mwyn sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael rheoli.	2	4	8	➔	A (adolygwyd Awdurdod 03/06/2020)	Tim Rheoli
12	Gwynwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynnion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Effaith ar gadw staff a recriwtio ac hefyd perfformiad yr Awdurdod.	3	3	9	Mae cyfres o fesurau i ddelio gyda gwynwch yn cynnwys: 1. Gwerthusiad blynyddol ar gyfer staff unigol, 2. Datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle, 3. Sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer gwynwch staff 4. Cyfraddau cadw staff a salwch. Mesurau ychwanegol o gadw cysylltiadau gyda staff yn ystod cyfnod gweithredu dan gyfyngiadau Covid-19 yn cael eu gweithredu.	3	3	9	➔	A (adolygwyd Awdurdod 03/06/2020)	Tim Rheoli
13	Effaith yr haint Coronavirus (COVID-19) ar waith yr Awdurdod.	Yr Awdurdod yn methu a gweithredu o ran cyflawni dyletswyddau dyddiol a statudol. Colledion ariannol, methu a thalu cyflenwyr, a methiant cyffredinol i gynnal systemau arferol. Yr Awdurdod yn methu: • ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol, • I gyflawni yn erbyn y rhaglen waith gorfforaethol, • I dalu staff a chyflenwyr, • Llenill incwm yn erbyn targedau a gytunwyd, • cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd yr ardal, • cefnogi llesiant staff.	4	5	20	Mae angen sicrhau fod mesurau mewn lle parthed prif systemau'r Awdurdod a gallu staff allweddol i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Tim Rheoli a'r Penaeithiad Gwasanaeth wrthi'n trafod mesurau penodol ar gyfer hyn. Trefniadau gweithio amgen wedi eu sefydlu a bydd angen adolygu fel mae cyfnod y gaeaf yn dechrau.	4	5	20	➔	A (adolygwyd Awdurdod 03/06/2020)	Tim Rheoli
14	Yr Ysgwm yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.	Yr Ysgwm yn dibynnu ar fudd-dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad yd'r Ysgwm yn gynaliadwy.	4	4	16	Mae'r Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yn adolygu strwythur staffio a chostau rhedeg y safle er mwyn lleihau costau a chreu diwylliant o ganolbwyntio ar gynhyrchu incwm. Mae gwaith cychwynnol wedi'i gwblhau i'r perwyl hwn, e.e. drwy gomisiynu Cynllun Datblygu Cynulleidfa newydd yn hydref 2019 a chyflwyno cais grant llwyddiannus i wella isadedd Yr Ysgwm. Bydd hyn yn cynyddu'r potensial i gynhyrchu incwm a lleihau costau drwy system wresogi LPG a fydd yn weithredol dros y gaeaf a hefyd yn cynorthwyo parhad busnes drwy'r gaeaf. Mae'r gwaith hwn yn parhau a bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Gweithgor Aelodau yn fuan yn 2021. Mae sefyllfa bresennol y pandemig Covid-19 yn cynyddu'r risg cyfredol ac yn gwneud cynllunio ymlaen yn fwy heriol na'r arferol.	4	3	12	➔	A (newydd)	Pennaeth Gwasanaeth Treftadaeth Ddiwylliannol
14	Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth)	Canolfannau Gwybodaeth yn methu a gweithredu oddi fewn i gyllideb oherwydd cyfyngiadau Covid-19. > Cyfyngiadau Clo lleol (nid yn unig yng Nghymru ond trwy'r DU) yn golygu cwmp mewn niferoedd ymwelwyr. > Mesurau lechyd a Diogelwch yn golygu bod uchafswm o ymwelwyr yn gallu bod i mewn yn y ganolfan/au ar unwaith yn golygu cwmp yn niferoedd ymwelwyr. > Mesurau lechyd a diogelwch yn golygu na all Canolfan Beddgelert a Betws y Coed weithredu yn saff gydag un aelod o staff ar ddyletswydd. Angen un aelod o staff yn gweithio o ddesg ychwanegol i reoli mynediad trwy'r drws.	4	4	16	Ers ail agor y Canolfannau ym Mis Gorffennaf fe welwyd cwmp o rhwng 58% (Aberdyfi - Awst) a 15% (Betws - Medi) mewn niferoedd ymwelwyr. Tyd'r cwmp yma ddim wedi troi i fod yn gwmp cyfatebol mewn incwm. Yn wir mae gwariant y pen wedi codi yn y 3 canolfan, gydag Aberdyfi a Beddgelert yn cael eu mis Medi mwyaf llewyrchus erioed. Ond mae cael Sir Conwy mewn Clo Lleol wedi effeithio yn fawr ar y niferoedd a'r gwariant mis Hydref yng nghanolfan Betws, ar gyfyngiadau yng Ngogledd Orllewin Lloegr wedi effeithio ar Aberdyfi a Beddgelert. > Rheoli'r Rota waith a gwneud yn fawr o'r cynllun fyrlu wedi golygu nad oes gôr wariant ar y gyllideb cyflogau yn debygol eieni. Ond fe all costau ychwanegol fod ym Meddgelert yn yr hir dymor wrth fod angen dau ar ddyletswydd trwy'r tymor. Gobeithiwn dreialu technoleg newydd ar ddechrau tymor nesaf a all oresgyn hyn, ond mi fyddai yn golygu buddsoddiad cychwynnol. > Arbedion ar linellau gwariant yn ystod y clo a derbyniant grantiau yn golygu bod tebyg y bydd y Canolfannau o fewn cyllideb eieni. > Yn yr hir dymor, edrych ymlaen at dymor 21/22 mae llwyddiant yn ddbynnol ar amgylchiadau clo lleol. Os mae cyfyngiadau lleol yn cael eu llacio dros Ogledd Cymru a gogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr mae posibilrwydd cryf y bydd y patrymau dros	3	3	9	➔	A (newydd)	Rheolwr y Canolfannau Gwybodaeth
15	Cynhyrchu Incwm (Cynllunio)	Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol. Er bod hyn yn risg, yn hanesyddol mae'r amrywiadau mewn incwm ffioedd wedi bod yn gymharol isel. Gall hyn newid yn awr gyda Covid-19 a fydd yn effeithio'n sylweddol ar ffioedd, ac felly gallu'r gwasanaeth i gyflawni ei ddyletswyddau heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn.	3	3	9	Yn yr un modd â'r mwyafrif o Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru, nid yw Eryri yn agos at fod mewn sefyllfa i adennill costau yn llawn trwy ffioedd cynllunio. Er gwaethaf hyn, mae'r incwm Ffi Cynllunio o £140,000 sydd wedi'i gyllidebu yn rhan bwysig o gostau rhedeg rhan Rheoli Datblygu'r gwasanaeth (tua 35% o gyfanswm y costau neu 24% hefo'r tim polisi wedi'u cynnwys). Fel rheol, gellir amsugno cwmpiau dymor byr mewn ffioedd wedi'u cyllidebu trwy danwariant neu gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod os oes angen. Fodd bynnag, byddai lleihau dros y tymor hirach yn fwy o broblem. Mae Covid-19 wedi cynyddu tebygolrwydd y risg hon ynghyd â'i effaith bosibl hyd y gellir rhagweld. Mae hyn wedi'i wrthwysu'n rhannol gan gynydd o 20% mewn ffioedd cynllunio ym mis Awst 2020 gan Lywodraeth Cymru (ar ôl sawl blwyddyn heb gynydd) a fydd yn lliniaru hyn i raddau. Ym mis Hydref 2020, mae ffioedd cynllunio 15% i lawr gyda ffioedd cyngor cyn ymgeisio 24% i lawr - sydd mewn gwirionedd grym dipyn yn llai na'r hyn a ragwelwyd gyntaf gyda dyfodiad y llwyrglo ym Mawrth 2020. Mae'n anodd iawn rhagweld unrhyw ragamcanion tymor hir (neu hyd yn oed canolig) ar hyn o bryd, oherwydd natur y pandemig. Bydd asesiad agos o'r incwm ffioedd hwn yn parhau dros y misoedd nesaf. Bydd angen ail-werthuso cyllideb gyffredinol y gwasanaeth ar gyfer unrhyw duedd tymor hwy - bydd yn rhaid i Dim Rheoli'r Awdurdod ac Aelodau asesu hyn o bryd i'w gilydd.	3	3	9	➔	A (newydd)	Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir

Graddio	Sgôr
Isel	1 - 4
Canolig	5 - 14
Uchel	15 - 25

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	18 Tachwedd 2020
TEITL	CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Personél a'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
PWRPAS	Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y sector cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn ychwanegol at y ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- 1.2 O dan y dyletswyddau penodol, mae'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru baratoi Adroddiad Blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.
- 1.3 Mae'n rhaid i'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol nodi'n benodol:
- y camau y mae'r Awdurdod wedi'u cymryd i bennu a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
 - sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol;
 - y cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod; a
 - gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl.
- 1.4 Mae'r adroddiad blynyddol sydd ynghlwm yn nodi cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2019-20 i ddiwallu'r dyletswyddau ychwanegol hyn yng Nghymru.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

3. PAPURAU CEFNDIR

- 3.1 Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2019-20



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2019-20

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2 – 3
2.	Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol	3 - 4
3.	Defnyddio'r wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru	4 – 5
4.	Beth a Gyflawnwyd	6 – 16
5.	Hyfforddiant	16
6.	Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb	15 – 17
7.	Gwybodaeth Cyflogaeth	17 – 20

1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar y sector cyhoeddus. Mae'n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr o nodweddion sydd i'w diogelu yn lle amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anabledau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafiaeth.

Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau tâl

- Hyfforddiant staff
- Pwrcasu
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y ddyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi data cyfrifiad 2011 ar gyfer trigolion y Parc Cenedlaethol ar ei wefan. Mae'r data ar gyfer y boblogaeth amcangyfrifedig o 25,702 wedi cael ei rannu i amrywiol gategoriâu gan gynnwys proffiliau wardiau, gweithgaredd economaidd, statws tai, statws teuluol a sgiliau iaith Gymraeg. Mae data'r cyfrifiad yn darparu darlun o fywyd o fewn cymunedau unigol yn y Parc yn ogystal â darparu gwybodaeth leol werthfawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd data'r cyfrifiad yn gallu darparu gwybodaeth ar bob nodwedd a ddiogelir.

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei drydydd diweddariad ar gyflwr y genedl: 'A yw Cymru'n Decach? Cyflwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth i ba raddau mae cydraddoldeb a hawliau dynol wedi gwella (neu beidio) yng Nghymru ers 2015. Hon yw'r dystiolaeth mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn dibynnu arno'n bennaf wrth asesu a yw ein Hamcanion Cydraddoldeb ar y cyd yn cael effaith gadarnhaol ehangach ar draws Gogledd Cymru.

Er bod adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ddefnyddiol o ran dangos y darlun cenedlaethol, mae'r amrywiant rhwng rhanbarthau a siroedd yn gallu bod yn sylweddol. Oherwydd hynny, comisiynwyd gwaith gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol i fynd at wraidd y data cenedlaethol a'i blethu gyda data lleol ychwanegol, i greu darlun cliriach o'r sefyllfa yn siroedd Gogledd Cymru. O ganlyniad, mae'r ddogfen data cefndirol a gynhyrchwyd yn declyn data gwerthfawr sydd yn gallu rhoi cymorth i bob awdurdod wrth asesu effaith ar gydraddoldeb yn sgil eu penderfyniadau strategol a'u polisïau.

Gwybodaeth ac Ymgysylltu

Wrth ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn y digwyddiad ymgysylltu yn ôl ym mis Mai 2018, fe aeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ati i ddadansoddi'r adborth a dderbyniwyd ochr yn ochr â'r data lleol a oedd ar gael, fel

rhan o'r broses o adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru ar y cyd. Adnabuwyd nifer o feysydd gwaith a oedd angen gweithredu arnynt ymhellach er mwyn mynd i'r afael a materion penodol, ac edrychwyd ar y rhain mewn mwy o ddyfnder ac fe'u blaenoriaethwyd. Ymgwymerwyd â phroses o ymgynghori pellach wedi'u dargedu ar ein Hamcanion Cydraddoldeb drafft, er mwyn llunio meysydd gweithredu realistig ar eu cyfer.

Yn ogystal â gweithio'n rhanbarthol i hel data a safbwyntiau dros Ogledd Cymru, mae'r Awdurdod yn parhau i hel ei wybodaeth ei hun yn lleol.

Mae gwybodaeth yn cael ei hel o dro i dro trwy gyfrwng holiaduron ac arolygon, ac mae'r Awdurdod yn parhau i ymgysylltu gydag ystod eang o randdeiliad trwy'r Fforwm Cydraddoldeb, Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De, cynghorau tref a chymuned, asiantwyr cynllunio, grwpiau hamdden ac awyr agored, tiffeddianwyr a.y.b.

Gosodwyd ein Hamcanion Cydraddoldeb newydd allan ar y cyd ynghyd â'r meysydd gweithredu unigol yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 - 24, a oedd i fod i gael ei fabwysiadu ym Mhwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod ar y 25ain o Fawrth 2020. Fodd bynnag, canslwyd y cyfarfod gan fod y cyfnod llwyrsgloi cenedlaethol wedi cael ei weithredu ychydig ddyddiau ynghynt.

Adolygwyd y Cynllun newydd wedi hynny i sicrhau fod y meysydd gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyraeddadwy ar eu ffurf presennol, gan gymryd i ystriaeth y dirwedd Covid-19 newydd y bydd yr Awdurdod yn gweithredu ynddo yn y dyfodol rhagweladwy. Mabwysiadwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 - 24 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 15fed o Orffennaf 2020 wedi hynny.

3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Er bod pob partner wedi ymrwymo i'r 6 amcan lefel uchaf, mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 6 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **lechyd**
2. Ymdrin ag canlyniadau anghyfartal mewn **Addysg** er mwyn cyflawni potensial yr unigolyn
3. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**
4. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol
5. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran **Cynrychiolaeth a Llais**
6. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Allan o'r 6 Amcanion Cydraddoldeb sydd wedi'u nodi uchod, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r Amcanion Cydraddoldeb canlynol ynghyd â'r meysydd gweithredu sydd ynghlwm iddynt:

A1. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **lechyd**

Man Gweithredu: Mae'r nifer o bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffordd iachach o fyw yn cynyddu

A2. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Addysg** er mwyn cyflawni potensial yr unigolyn

Man Gweithredu: Bwlch cyflawniad addysgol rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng

A3. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**

Man Gweithredu: Adnabyddir ac eir i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio, dargadwad (cadw staff), hyfforddiant a phrosesau dyrchafu

Man Gweithredu: Bydd unrhyw fylchau mewn tâl rhwng nodweddion a ddiogelir yn cael eu hadnabod ac eir i'r afael â hwy

A4. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol

Man Gweithredu: Bydd adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch yn cynyddu a bydd camau yn cael eu cymryd i leihau'r digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddwch

A5. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Cynrychiolaeth a Llais**

Man Gweithredu: Bydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir

A6. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Man Gweithredu: Bydd mynediad at wybodaeth a chyfathrebu ynghyd â phrofiad y cwsmer yn gwella

Man Gweithredu: Bydd mynediad corfforol at wasanaethau, trafndiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella

4. Beth a Gyflawnwyd

Amcan Un: Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **iechyd**

Man Gweithredu: Mae'r nifer o bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffordd iachach o fyw yn cynyddu

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
<p>Sefydlu beth sy'n tynnu pobl at yr ardal a'r gweithgareddau y byddant yn ymgymryd â hwy trwy gynnal arolwg, a dadansoddi'r manteision iechyd y gweithgareddau hyn yn gyfunol.</p> <p>Datblygu rhaglen sy'n adnabod y manteision a'r cyfleoedd iechyd i'r darpar ddefnyddwyr.</p>	Mawrth 2020	<p>Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall gweithgareddau ac ymarfer corff cymedrol neu ysgafn yn yr awyr agored wella iechyd a lles yn gyffredinol ar gyfer pobl sydd ag ystod o namau. Er canlyniad, mae rhagnodi cymdeithasol bellach yn rhywbeth sy'n digwydd fwyfwy.</p> <p>Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod gweithgareddau awyr agored ac ymarfer corff yn gallu cynyddu llesiant cyffredinol ac yn gallu cyfrannu tuag at atal cyflyrau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw.</p>	Anabl Pawb

Cynnydd / Diweddariad:

Nid yw'r gwaith hwn wedi cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen, ond mae'n mynd rhagddo.

Fe'i cynlluniwyd fel rhan o waith Fforwm Eryri i'w gomisiynu yn 2020. Rhyddhawyd y tendr ar gyfer cynnal arolwg ar Gwerthwch i Gymru ym mis Mawrth 2020 er mwyn i'r gwaith ddechrau yng Ngwanwyn 2020.

Bydd dadansoddiad o'r canlyniadau yn deillio o'r arolwg hwn yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer datblygu strategaeth i hyrwyddo'r ystod eang o gyfleoedd i ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol sydd hefyd yn cyfrannu at iechyd a lles.

Prosiect / Mentor / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Datblygu cynnwys ar-lein sy'n hyrwyddo llwybrau a llwybr ffyrdd a chyfleoedd i wella iechyd a lles yn y Parc Cenedlaethol. Lledaenu negeseuon ymhellach trwy gyfryngau cymdeithasol ac annog defnyddwyr i rannu eu profiadau ar gyfryngau cymdeithasol.	Mawrth 2020	Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall gweithgareddau ac ymarfer corff cymedrol neu ysgafn yn yr awyr agored wella iechyd a lles yn gyffredinol ar gyfer pobl sydd ag ystod o namau. Er canlyniad, mae rhagnodi cymdeithasol bellach yn rhywbeth sy'n digwydd fwy-fwy. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod gweithgareddau awyr agored ac ymarfer corff yn gallu cynyddu llesiant cyffredinol ac yn gallu cyfrannu tuag at atal cyflyrau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw.	Pawb
<p><u>Diweddariad / Cynnydd:</u> Mae'r nodwedd reolaidd fisol yn parhau i fod yn boblogaidd ar y wefan, sef Warden gwahanol yn cyflwyno 'Taith y Mis' yn eu hardal. Mae'r rhain yn cael eu hyrwyddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r e-gylchlythyr misol Eryri.</p> <p>Nid yw'r gwaith datblygu pellach wedi mynd rhagddo yn unol â'r amserlen a osodwyd. Mae cyllid nawr wedi cael ei ddiogelu ar gyfer recriwtio Rheolwr Brand a Chynnwys i alluogi l wefan newydd gael ei datblygu ar gyfer yr Awdurdod. Bydd hyrwyddo cyfleoedd iechyd a lles a gynigir gan y Parc Cenedlaethol yn elfen bwysig o'r wefan, a bydd yn cynnwys gwella'r wybodaeth am lwybrau a theithiau.</p>			

Amcan Dau: Ymdrin ag canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion

Man Gweithredu: Bwlch cyflawniad addysgol rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng

Prosiect / Mentor / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Galluogi pob plentyn a pherson ifanc waeth beth yw ei nam / anghenion ychwanegol i allu	Parhaus	Cael gwared ar y rhwystrau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu er mwyn iddynt gael dysgu am, profi a mwynhau	Anabl Oed

<p>mynychu cyrsiau dydd a / neu hamdden ym Mhlas Tan y Bwlch, ac i fynychu ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau amrywiol a drefni'r gan yr Awdurdod.</p>		<p>pob agwedd ar y Parc Cenedlaethol.</p>	
---	--	---	--

Cynnydd / Diweddariad:

Mae cyfanswm o 295 o ddisgyblion wedi mynychu cyrsiau dydd a chyfanswm o 322 o ddisgyblion wedi mynychu cyrsiau preswyl (o 32 o ysgolion) ym Mhlas Tan y Bwlch yn ystod 2019/20.

Mae cyfanswm o 10 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y Cynllun Ceidwad Ifanc yn ystod y flwyddyn, sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i allu dysgu a chael profiad o sgiliau cymdeithasol a bywyd.

Mae nifer o weithgareddau a digwyddiadau rhyngweithiol wedi digwydd yn Yr Ysgwrn a gafodd eu hanelu at blant a phobl ifanc, megis darlleniadau a gweithdai celf a barddoniaeth. Yn ogystal, mae tripliau ysgol yn parhau i fod yn boblogaidd iawn. Mae yna hefyd gyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli yn Yr Ysgwrn.

Croesawyd 873 o ddisgyblion ysgol a cholegau addysg bellach i'r Ysgwrn yn ystod y flwyddyn, gyda'r rhan helaeth o ysgolion yn cymryd mantais ac yn gwerthfawrogi'r grant trafndiaeth sydd ar gael gan yr Awdurdod.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Cafwyd 2 sesiwn Barddoni i blant a theuluoedd a 2 ddiwrnod o wersi cloccio i blant a phobl ifanc (ac ambell riant). Mewn cydweithrediad â 'Mewn Cymeriad' cafwyd perfformiadau 'Kate Roberts' ar gyfer bobl ifanc 14+ o ysgolion lleol (Bro Idris a Moelwyn). Mynychodd oddeutu 100 o fyfyrwyr dros ddwy sesiwn.

Ar Dachwedd y 21ain cafodd plant o'r ysgol leol, Ysgol Bro Hedd Wyn, y cyfle i gymryd yr awenau yn Yr Ysgwrn yn ystod ein diwrnod 'Cymryd yr Awenau / Take over Day' blynyddol. Bu'r Rheolwr yn yr ysgol dros 2 bawn gyda blwyddyn 5 a 6 yn rhoi hyfforddiant i'r plant a'r sut i redeg y safle. Roedd y disgyblion yn cael cyfle i roi teithiau tywys i ymwelwyr, ateb y ffôn a defnyddio'r till a gwneud paneidiau a gweini cacennau.

Ddiwedd mis Tachwedd ac yn ystod mis Rhagfyr bu person ifanc yma yn derbyn hyfforddiant gan reolwr y safle. Roedd o'n rhan o brosiect AdTrack sydd yn helpu pobl ifanc 18+ i ddatblygu sgiliau a magu hyder wrth fynd ati i chwilio am waith.

Yn ystod dyddiau Llun ym mis Chwefror (pan fu'r Ysgwrn ar gau i'r cyhoedd) roedd Cymraeg i Blant yn defnyddio'r 'cwtsh' i gynnal sesiynau stori a chân i famau gyda phlant o dan flwydd. Roedd y sesiynau yn cael ei anelu at deuluoedd di-gymraeg a oedd eisiau defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

Mae cyfleoedd amrywiol sydd ar gael ar draws yr Awdurdod ac mae'n galluogi cyfranogwyr i adeiladu hyder ac yn galluogi pobl ifanc i wneud ffrindiau, dysgu sgiliau a chael profiadau newydd.

Mae asesiadau risg cynhwysfawr yn cael eu gwneud ar gyfer bob grŵp o ddisgyblion neu bobl ifanc yn safonol, fodd bynnag, mae asesiadau risg pellach yn cael eu gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl neu berson ifanc gydag unrhyw nam corfforol neu anghenion ychwanegol, i waredu - cyn belled ag y bo modd - unrhyw rwystrau iddynt allu cyfranogi'n llawn mewn gweithgareddau a digwyddiadau.

Amcan Tri: Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**

Man Gweithredu: Adnabyddir ac eir i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio, dargadwad (cadw staff), hyfforddiant a phrosesau dyrchafu

Man Gweithredu: Bydd unrhyw fylchau mewn tâl rhwng nodweddion a ddiogelir yn cael eu hadnabod ac eir i'r afael â hwy

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Monitro cyfraddau o unigolion o grwpiau a dangynrychiolir sy'n ymgeisio am swyddi gwag.	Blynyddol	Bydd y data a gasglwyd yn hysbysu unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol, i alluogi aelodau o grwpiau a dangynrychiolir i ymgeisio a chael swyddi gyda'r Awdurdod.	Pawb

Cynnydd / Diweddariad:

Mae data monitro a recriwtio ar gael o dan Adran 7 o'r adroddiad hwn.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Asesu a monitro'r bwllch tâl rhyw yn flynyddol.	Blynyddol	Bydd y data a gasglwyd yn hysbysu unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol.	Rhyw

Cynnydd / Diweddariad:

Yn seiliedig ar gyfraddau canolrif fesul awr gosodwyd gwaelodlin gyda data ar gyfer 31.03.2012 fel y canlynol:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.61	£12.77	£12.77	Nil	Nil
Rhan Amser	£8.00	£8.00	£8.00	Nil	Nil
Holl Staff	£12.77	£8.72	£9.91	£1.19	£4.05

Mae'r data ar gyfer 31.03.2019 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.72	£15.50	£13.72	Nil	Nil
Rhan Amser	£9.01	£9.67	£9.01	Nil	Nil
Holl Staff	£13.72	£10.64	£11.97	£1.33	£3.08

Mae'r data ar gyfer 31.03.2020 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.99	£13.99	£13.99	Nil	Nil
Rhan Amser	£9.55	£9.74	£9.93	Nil	Nil
Holl Staff	£13.99	£9.93	£11.64	£1.71	£4.06

Mae'r ffigurau uchod wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r **CANOLRHIF (MEDIAN)**.

Mae Canllawiau ACAS ar Adrodd ar Dâl Rhyw yn nodi y gellir gwneud cyfrifiadau gan ddefnyddio dau fath o gyfartaledd:

- Mae cyfartaledd **cymedrig** yn cynnwys adio'r holl rifau a rhannu'r canlyniad â faint o rifau oedd ar y rhestr.
- Mae cyfartaledd **canolrif** yn cynnwys rhestru'r holl rifau mewn trefn rifiadol. Os oes odrif o ganlyniadau, y cyfartaledd canolrif yw'r rhif canol. Os oes eilrif o ganlyniadau, y canolrif fydd cymedr y ddau rif canolog.

Mae defnyddio'r ddau fath gwahanol hyn o gyfartaledd yn ddefnyddiol i roi trosolwg mwy cytbwys o fwch cyflog cyffredinol cyflogwr:

- Mae cyfartaleddau cymedrig yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn gosod yr un gwerth ar bob rhif y maent yn ei ddefnyddio, gan roi arwydd cyffredinol da o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond gall cyfraddau tâl neu fonysau mawr neu fach iawn ddominyddu ac ystumio'r ateb. Er enghraifft, gall cyfartaleddau cymedrig fod yn ddefnyddiol mewn sefydliad lle mae mwyafrif helaeth y tâl bonws yn cael ei dderbyn gan nifer fach o aelodau bwrdd.

- Mae cyfartaleddau canolrif yn ddefnyddiol i nodi beth yw'r sefyllfa 'nodweddiadol' h.y. yng nghanol y sefydliad ac nid ydynt yn cael eu hystumio gan gyfraddau tâl mawr neu fach iawn o fonysau. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fydd pob mater bwllch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei godi. Er enghraifft, gallai cyfartaledd canolrif ddangos fod yn well dangosydd o fwllch cyflog 'canol y ffordd' mewn clwb chwaraeon gyda chyfartaledd cymedrig wedi'i ystumio gan chwaraewyr â chyflog uchel iawn ac aelodau'r bwrdd, ond gallai hefyd fethu â chipio gwybodaeth mor effeithiol lle mae'r materion bwllch cyflog yn fwyaf amlwg ymhlith y gweithwyr ar y cyflog isaf neu'r cyflog uchaf.

Isod mae'r data a gyfrifir ar gyfartaleddau **CYMEDRIG (MEAN)**:

Y gyfradd gyflog gymedrig yr awr i bob dyn yw £14.21 a'r gyfradd tâl gymedrig yr awr i bob merch yw £12.42. Mae hyn yn rhoi bwllch cyflog o 12.6%.

Amcan Pedwar: Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol

Man Gweithredu: Bydd adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch yn cynyddu a bydd camau yn cael eu cymryd i leihau'r digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddwch

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Gweithio ar y cyd â phartneriaid y Rhwydwaith i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a'r mecanweithiau adrodd, gan ddefnyddio Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb i ganolbwyntio'r cyhoeddusrwydd. Arweinir y gwaith gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Heddlu a Chomisiynydd Troseddu.	Parhaus	Codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a sut i'w adnabod, ynghyd â thynnu sylw at bwysigrwydd adrodd am ddigwyddiadau.	Pawb

Cynnydd / Diweddariad:

Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 12 - 19 Hydref 2019

Gwaith partneriaeth yn cael ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Swyddogion Rhanbarthol Cydlyniant Cymdeithasol.

Cytunwyd ar nifer o ddatganiadau i'r wasg a deunyddiau i greu cyhoeddusrwydd ar gyfer y gwahanol sefydliadau dan sylw a oedd yn cynnwys ymgyrch ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Defnyddiwyd y rhain dros yr wythnos fel ymgyrch ar y cyd wedi ei chydlynu ar draws awdurdodau cyhoeddus Gogledd Cymru, gyda'r pwyslais penodol ar gael y neges allan ar draws y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod yr wythnos lansiodd ymgyrch gan Heddlu Gogledd Cymru gyda Chwmni Bysus Arriva i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb Anabledd. Dangoswyd posteri gan Arriva ar eu holl fysiau ar draws Gogledd Cymru. Roedd y poster yn amlygu'r pwysigrwydd o adrodd am Droseddau Casineb Anabledd, ynghyd â gyrru neges glir i droseddwr na fydd hyn yn cael ei ddioddef.

Bu'r holl awdurdodau cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru yn annog pobl i gefnogi'r ymgyrch trwy ddefnyddio'r hashnod #AtalCasinebArFyMws

Mae'r ystadegau yn dangos bod yr wythnos ymgyrch hon yn bwysig i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb sy'n digwydd o fewn ein cymunedau. Roedd yna 3,932 o droseddau casineb wedi cael eu cofnodi ar draws Gogledd Cymru yn 2018/19 sydd yn gynydd o 17% ar y flwyddyn flaenorol.

- 2,676 (68%) yn droseddau casineb hiliol;**
- 751 (19%) yn droseddau casineb cyfeiriadedd rhywiol;**
- 206 (5%) yn droseddau casineb crefydd;**
- 443 (11%) yn droseddau casineb anabledd;**
- 120 (3%) yn droseddau casineb trawsryweddol.**

Y tu hwnt i ffiniau'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ei hun, gweithiodd aelodau'r Rhwydwaith Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn agos gyda 'Victim Support' o'r Ganolfan Genedlaethol ar Droseddau Casineb yng Nghymru i sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth maen nhw ei angen.

Amcan Pump: Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn Cynrychiolaeth a Llais

Man Gweithredu: Bydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir

Man Gweithredu: Ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus ac unigolion sy'n cynrychioli pobl leol o bob grŵp wedi'i ddiogelu

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Datblygu rhaglen wardeiniaid gwirfoddol yr Awdurdod ymhellach, gan alluogi pobl o bob cefndir ac o grwpiau nodweddion gwarchoddedig i fod yn rhan o waith yr Awdurdod.	Parhaus	Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd dda i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan, heb ofni bod diffyg profiad neu gymwysterau yn rhwystr.	Pawb

Diweddariad / Cynnydd:

Bellach, mae'r rhaglen wedi'i hen sefydlu gyda 25 o unigolion yn cymryd rhan yn Rhaglen Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa eleni. Wrth weithio ochr yn ochr gyda Wardeiniaid yr Awdurdod, mae eu cyfraniad gwerthfawr yn sicrhau bod cefnogaeth hanfodol ar gael i gynorthwyo gyda'r heriau sy'n codi / cael eu creu wrth gael dros hanner miliwn o ymwelwyr y flwyddyn.

Mae'r niferoedd sydd ar y Rhaglen Wardeiniaid Ifanc, mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi cynyddu hefyd i 10, gyda'u hoedran yn amrywio rhwng 14 a 18 oed.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ymhellach o fewn prosiect Yr Ysgwrn, o Gyfeillion Yr Ysgwrn, canllawiau gwirfoddolwyr a datblygu Fforwm leuenctid.	Ail ran o'r prosiect	Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd dda i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan, heb ofni bod diffyg profiad neu gymwysterau yn rhwystr.	Pawb

Cynnydd / Diweddariad:

Mae'r Ysgwrn yn parhau i weithio gyda gwirfoddolwyr ar wahanol elfennau o reoli'r safle. Eleni, roedd 14 o wirfoddolwyr rheolaidd yn gweithio ar y safle yn ystod y flwyddyn. Nid yn unig bod gan y gwirfoddolwyr angerdd am Yr Ysgwrn, ond maen nhw hefyd wedi bod yn meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o waith ehangach yr Awdurdod trwy fynychu sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth o'r Parc Cenedlaethol, cyfarfodydd a hyfforddiant corfforaethol.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Parhau i weithio'n agos â Chymdeithas Eryri a	Parhaus	Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd dda i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol	Pawb

phartneriaid eraill i ddatblygu diwrnodau prosiectau gwirfoddolwyr penodol yn ystod y flwyddyn.		gymryd rhan, heb ofni bod diffyg profiad neu gymwysterau yn rhwystr.	
---	--	--	--

Cynnydd / Diweddariad:

Mae perthynas yr Awdurdod gyda Chymdeithas Eryri yn parhau i fod yn glos. Yn ystod 2019/20 trefnwyd nifer o ddyddiau gwirfoddoli (er yn anffodus nid oes cofnod cywir wedi cael ei gynnal o'r nifer o ddyddiau a'r niferoedd o wirfoddolwyr). Mae'r gwirfoddolwyr yn cefnogi gwaith yr Awdurdod wrth gynnal a chadw llwybrau, clirio tyfiant rhywogaethau ymledol a chodi sbwriel ar Yr Wyddfa.

Ymgwymerwyd â'r broses recriwtio ar gyfer y swydd Swyddog Gwirfoddoli a Lles ym mis Tachwedd 2019. Mae porth newydd wedi cael ei sefydlu ar gyfer recriwtio a chofnodi / monitro ymglymiad gwirfoddolwyr yng ngwaith yr Awdurdod. Mae'r swyddog newydd ar hyn o bryd yn adolygu ac yn diweddarau strategaeth gwirfoddoli'r Awdurdod.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Fforwm Cydraddoldeb Eryri i gyfrannu at yr adolygiadau o Gynlluniau Allweddol y Parc.	2016-2020	Drwy brif ffrydio cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol yng ngwaith yr Awdurdod, bydd yn cael effaith gadarnhaol yn yr hirdymor ar strategaethau a pholisïau'r Awdurdod.	Pawb

Cynnydd / Diweddariad:

Mae is-grŵp y Fforwm wedi rhoi cymorth i'r Rheolwr Partneriaethau gyda'r elfennau cydraddoldeb o Gynllun Eryri, gan gynnwys hygyrchedd dogfennau ynghyd â mewnbwn i'r asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd.

Cyhoeddwyd y Cynllun drafft ar gyfer ymgynghori arno yn ystod y flwyddyn, ac fe wnaeth y cyhoeddusrwydd eang a gafodd y gweithgareddau hyrwyddo perthnasol sicrhau (mor bell â bod hynny'n bosib) fod bob rhan o'r gymuned wedi cael eu cyrraedd ac wedi cael cyfle i gyfrannu i'r broses.

Amcan Chwech: Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Man Gweithredu: Bydd mynediad at wybodaeth a chyfathrebu ynghyd â phrofiad y cwsmer yn gwella

Man Gweithredu: Bydd mynediad corfforol at wasanaethau, trafndiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir
Hyrwyddo llwybrau hygyrch newydd wrth iddynt gael eu datblygu, fel rhan o'r gwaith iechyd a lles ehangach.	Gwaith parhaus	Bydd mynediad i fannau agored ac ystod amrywiol o gyfleusterau hamdden yn cael ei wella.	Anabl Pawb
<p><u>Diweddariad / Cynnydd:</u></p> <p>Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen waith parhaus, sy'n parhau o un flwyddyn i'r llall.</p> <p>Mae gwaith sylweddol wedi digwydd ar lwybrau'r Wyddfa dros y misoedd diwethaf oherwydd y niwed a achoswyd yn sgil erydiad a glaw trwm gaeaf 2018/19. Roedd y gwaith atgyweirio'n cynnwys llwybr cyswllt wedi'i wynebu o'r newydd o Gwellyn i Fwlch Maesgwm a gwaith wynebu newydd o'r fan honno i lawr tuag at Lanberis. Mi fydd y gwaith atgyweirio yn parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.</p> <p>Roedd hyn yn cynnwys cyswllt wyneb newydd o Gwellyn i Fwlch Maesgwm gyda gwaith wynebu newydd ar y ffordd I lawr tuag at Lanberis. Mi fydd y gwaith atgyweirio yn parhau yn y flwyddyn sydd i ddod.</p> <p>Mae'r gwaith o osod wyneb newydd yn parhau ar y linc Ffridd Uchaf o Ben Lôn (cyffordd llwybr Rhyd Ddu i Lôn Gwyrfa), fel opsiwn mwy diogel na'r llwybr ceffyl/march presennol sy'n dod allan i'r brif ffordd mewn lle peryglus.</p> <p>Mae Gwasanaeth y Wardeiniaid yn parhau i gyfrannu i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Conwy ar y rhwydwaith o fewn y Parc Cenedlaethol, er mwyn gwneud pethau fel amnewid giataiu/camfeydd a gwaith atgyweirio sylfaenol arall pan fo'r angen. Mae'r holl waith yn cael ei wneud gan gontractwyr.</p> <p>Mae'r gwaith datblygu yn parhau ar gyfer Cylchdaith Yr Wyddfa – mae'r gwaith ymchwilio yn parhau ar gyfer y rhan nesaf o'r llwybr o orsaf pŵer Nant Gwynant i'r gweryll.</p> <p>Mae'r Awdurdod wedi prynu cerbyd Tramper (gydag arian gan LIC) sydd yn boblogaidd iawn. Bellach mae gan yr Awdurdod 2 gerbyd o'r fath. Mae'r rhain</p>			

wedi cael eu dylunio yn benodol ar gyfer pobl â namau corfforol a phroblemau symudedd, i alluogi iddynt gael mynediad i gefn gwlad ar dir heriol.

Ymgysylltu ac ymgynghori â Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De a grwpiau mynediad perthnasol o gyfnod datblygu unrhyw brosiectau llwybrau troed hygyrch.	Parhaus	Bydd hyn yn sicrhau y bydd materion hygyrchedd yn cael eu hystyried a'u hymgorffori o gyfnod cynnar yn y prosiect.	Anabledd
<p><u>Diweddariad / Cynnydd:</u> Y gwaith yma'n digwydd yn barhaus.</p>			

5. Hyfforddiant

Ni chynhaliwyd unrhyw gyrsiau hyfforddiant yn ymwneud â chydraddoldeb yn ystod y flwyddyn.

6. Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau sefydledig i asesu effaith unrhyw strategaethau diwygiedig, cynlluniau, gweithdrefnau, arferion neu unrhyw benderfyniadau mawr y mae'n eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 4 o asesiadau effaith cydraddoldeb.

Islaw mae crynodeb byr o'r sgriniadau effaith cydraddoldeb a gwblhawyd.

1. Ymgynghoriad Cynllun Eryri (Cynllun Partneriaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) ar y Cynllun Drafft

Mae'r Cynllun yn gosod allan sut fydd yr holl bartïon yn cydweithio i edrych ar ôl Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Cynllun drafft (sydd yn destun i'r asesiad hwn) yn dwyn y canlyniadau o'r gwaith ymgynghori cychwynnol a'r dadansoddiad data ynghyd, yn ogystal â chanlyniadau'r cyfnod ymgynghori dwys a gynhaliwyd dros 12 wythnos dros yr haf yn 2018, a'r canlyniadau ddaeth allan o'r paneli arbenigwyr a gynhaliwyd ar ôl yr ymgynghoriad. Casglwyd, cydgrynhowyd a mireiniwyd y wybodaeth a dderbyniwyd yn y gweithdai cynllunio gweithredu ac o ganlyniad i hyn fe grëwyd a greodd y Cynllun drafft.

Ymgwymerwyd â'r asesiad cyn y cyfnod ymgynghori ac wedyn fe ddiweddarwyd yr asesiad ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben i adlewyrchu'r ymatebion a dderbyniwyd.

2. Canllaw Cynllunio Atodol: Llety Ymwelwyr

Mae'r CCA hwn yn rhoi cyfarwyddwyd manwl ar sut fydd y polisïau sy'n berthnasol i Llety Ymwelwyr yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri yn cael eu gweithredu. Ymgwymerwyd â'r asesiad hwn ochr yn ochr â'r cyfnod ymgynghori o 6 wythnos. Mae'r polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri eisoes wedi bod yn ddarostyngedig i asesiad effaith cydraddoldeb manwl ar y cyd gyda'r adolygiad ffurf fer, a oedd yn cynnwys archwiliad cyhoeddus dros 3 diwrnod.

3. Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy

Mae'r CCA hwn yn rhoi cyfarwyddwyd manwl ar sut fydd y polisïau sy'n berthnasol i Llety Ymwelwyr yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri yn cael eu gweithredu. Ymgwymerwyd â'r asesiad hwn ochr yn ochr â'r cyfnod ymgynghori o 6 wythnos. Mae'r polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri eisoes wedi bod yn ddarostyngedig i asesiad effaith cydraddoldeb manwl ar y cyd gyda'r adolygiad ffurf fer, a oedd yn cynnwys archwiliad cyhoeddus dros 3 diwrnod.

4. Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 - 24

Ymgwymerwyd ag asesiad effaith ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2020-24. Er mai holl bwrpas y Cynllun yw lleihau neu ddileu anghydraddoldebau, mae'n bwysig fod asesiad llawn yn cael ei gynnal er mwyn nodi unrhyw effeithiau negyddol posib a allai ddeillio yn anfwriadol o'r manau gweithredu arfaethedig.

7. **Gwybodaeth Cyflogaeth**

Mae'r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir
- Gwrywod a benywod a gyflogir, yn ôl:
 - Swydd
 - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
 - Tâl
 - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
 - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu

- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant
- Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi
- Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2020 = 148

Proffil oedran

24 ac oddi tanodd	16
25 – 34	23
35 – 44	24
45 – 54	38
55 – 64	40
65 a throsodd	7

Dosbarthiad Benywod / Grywod

Benywod	76
Grywod	72

Mae 1.3% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl a / neu gyda nam.

Roedd 5 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Dsieineaidd).

Yn sgil y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r benywod a gyflogir, yn ôl:

- Swydd
- Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
- Tâl
- Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
- Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

Mae'r tabl nesaf yn dangos dosbarthiad gwrywod a benywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract ar 31.03.2019 (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd gwahanol o fewn y graddfeydd):

		Patrwm Gwaith						Math o Gontract					
		Amser llawn		Rhan amser		Hyblyg		Parhaol		Dros Dro		Tymor Penodol	
Graddfa	Tâl/Awr	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G
IC	£7.70	0	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1
1	£9.00	0	0	10	2	0	0	4	1	6	1	0	0
2	£9.148	0	1	1	2	0	0	1	3	0	0	0	0
3	£9.55	0	1	12	4	0	0	12	5	0	0	0	0
4	£9.93	3	2	12	3	0	0	14	4	0	0	1	1
5	£10.97	2	8	3	1	0	1	5	10	0	0	0	0
6	£12.35	4	4	2	1	0	0	4	4	0	0	2	1
7	£13.99	6	13	3	0	0	1	6	11	0	0	3	3
8	£15.81	4	7	1	1	0	0	5	6	0	0	0	2
9	£17.04	2	5	0	1	1	1	3	5	0	0	0	1
10	£18.03	3	3	1	0	0	0	3	3	0	0	1	0
11	£19.11	3	1	1	0	0	0	4	1	0	0	0	0
12	£20.11	0	1	1	0	1	0	2	1	0	0	0	0
13	£21.13	1	3	0	0	0	0	1	3	0	0	0	0
Prif Swyddog - Cyfarwyddwr	£32.95	0	2	0	0	0	0	0	2	0	0	0	0
Prif Swyddog - Prif Weithredwr	£47.25	0	1	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0

Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Roedd 167 o ymgeiswyr wedi llenwi ffurflenni monitro.

Tarddiad Ethnig

- 158 Gwyn
- 9 Cymysg
- 0 Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd
- 0 Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig
- 0 Tsieineaidd, Tsieineaidd Prydeinig, Tsieineaidd Saesneg, Tsieineaidd Albanaidd, Tsieineaidd Cymreig neu Grŵp Ethnig Arall
- 0 Dim ymateb

Cenedl

84 Gwryw
75 Benyw
0 Dim ymateb

Anabledd

11 ymgeiswyr gyda nam yr hoffent roi gwybod amdano

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu

	Ceisiadau	Penodiadau
Gwryw	6	5
Benyw	4	3
Cyfanswm	10	8

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais

Roedd ceisiadau a hyfforddiant a fynychwyd ar 124 achlysur gan fenywod a 74 gwaith gan wrywod (roedd rhai aelodau o staff wedi ymgeisio a bod yn bresennol ar fwy nag un achlysur.)

Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi

Nid oedd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod hwn.

Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu

Nid oedd unrhyw weithwyr yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod y cyfnod hwn.

Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Benyw 6
Gwryw 4
Cyfanswm 10

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	18 Tachwedd 2020
TEITL	ADRODDIAD MONITRO CWYNION
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
PWRPAS	Adrodd ar y cwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod

1.0. CEFNDIR

- 1.1. Fel rheol, cyflwynir yr Adroddiad Monitro Cwynion yn gyntaf i Aelodau'r Awdurdod yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf bob blwyddyn, cyn iddo gael ei gyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ystod y mis Medi canlynol. Eleni, oherwydd cyfnod clo Covid-19, nid oedd yn bosibl dilyn yr amserlen hon, ac yn unol â hynny nid yw Aelodau'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wedi gweld yr adroddiad hwn eto.
- 1.2. Mae pob cwyn ffurfiol yn cael ei chofrestru a'i monitro'n ganolog, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau gofal rhagorol i gwsmeriaid wrth ddarparu ein gwasanaeth. Derbyniodd yr Awdurdod 6 cwyn ffurfiol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.
- 1.3. O'r 6 cwyn a dderbyniwyd, roedd 2 yn ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio, 2 yn ymwneud â'r gwasanaeth eiddo, derbyniwyd 1 gŵyn am 2 aelod o staff, a derbyniwyd 1 gŵyn am agendâu a dogfennau cysylltiedig ar gyfer gwahanol bwyllgorau, byrddau a chyfarfodydd yr Awdurdod am nad ydynt ar gael ar ffurf papur a dim ond ar gael yn electronig.
- 1.4. Ymchwiliwyd yn drylwyr i bob cwyn, a derbyniodd pob un heblaw un ymateb o fewn y targed o 15 diwrnod gwaith. Rhoddwyd ymateb dros dro i'r un gŵyn na dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen ofynnol, nes bod modd darparu ymateb llawn.
- 1.5. O'r cwynion yr ymchwiliwyd iddynt, cafodd 4 eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion at Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru i'w hymchwilio.
- 1.6. Lle mae safon gwasanaeth yr Awdurdod heb gwrdd â'r disgwyliad, rydym wedi ymddiheuro'n briodol ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau ar unwaith.

2.0. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

Crynodeb o'r Cwynion a Gafodd Eu Cynnal neu a Gynhaliwyd yn rhannol**CYNLLUNIO****Diffyg penderfyniad ar gais cynllunio (Awst 2019)**

Derbyniwyd cwyn ynghylch yr amser a aeth heibio wedi i gais am ganiatâd adeilad rhestredig gael ei gyflwyno a bod y diffyg penderfyniad wedi parhau am 8 mis. Derbyniodd yr ymgeisydd y caniatâd adeilad rhestredig ddiwrnod ar ôl iddynt gyflwyno'r gŵyn, ond roedd am fynd ar drywydd y gŵyn gan ei fod yn teimlo bod yr amser a gymerwyd yn afresymol.

Roedd yn amlwg bod cyfiawnhad dros gŵyn yr ymgeisydd ac fe ymddiheurwyd. Cydnabuwyd bod y sefyllfa yn amlwg yn annerbyniol a chafwyd cadarnhad bod y mater yn cael sylw.

Esboniwyd i'r achwynydd, ers ymadawiad un aelod o staff o fewn y tîm amgylchedd adeiledig o ganlyniad i'r toriadau ariannol a oedd yn ofynnol gan yr Awdurdod, bod llwyth gwaith cynyddol y Swyddog Amgylchedd Adeiledig wedi golygu ei fod yn brwydro i sicrhau bod ei lwyth achos o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol.

Roedd y gwasanaeth Cynllunio eisoes yn ymwybodol o'r materion a chafwyd cadarnhad bod mesurau eisoes yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r broblem.

Ni chafwyd ymateb i gais am gyngor cyn cyflwyno cais (Mawrth 2020)

Roedd yr achwynydd wedi cyflwyno cais am gyngor cyn cyflwyno cais ynghylch darpar gais am ganiatâd cadwraeth ac adeilad rhestredig ryw 10 mis ynghynt ac nid oedd wedi derbyn ymateb.

Ymatebodd y Rheolwr Cynllunio newydd ei phenodi i'r gŵyn, a chydabuwyd ar unwaith fod y diffyg gwasanaeth a gafodd yr ymgeisydd yn amlwg yn annerbyniol ac fe gyflwynwyd ymddiheuriad. Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio ei bod yn ymwybodol bod problemau parhaus o ran ymdrin ag ardaloedd cadwraeth ac achosion adeiladau rhestredig ers i'r gwasanaeth cynllunio gael ei ad-drefnu, pan gafodd nifer y staff eu lleihau 18 mis ynghynt. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at oedi annerbyniol, ac yn amlwg doedd dim esgus am hyn.

Sicrhawyd yr achwynydd fod y sefyllfa'n cael ei chymryd o ddifrif a bod camau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r problemau ar frys. Derbyniodd yr achwynydd hefyd y cyngor y gofynnwyd amdano gyda'r ymateb i'r gŵyn.

EIDDO

Toiledau Cyhoeddus Morfa Dyffryn Ar gau yn ystod y Gaeaf (Rhagfyr 2019)

Cafwyd cwyn am benderfyniad yr Awdurdod i gau'r toiledau cyhoeddus yn ystod misoedd y gaeaf ym Morfa Dyffryn. Gofynnodd yr achwynydd pam nad oedd allweddi Radar yn cael eu defnyddio ar y safle, fel bod pobl anabl yn gallu parhau i ddefnyddio'r toiledau.

Awgrymodd yr achwynydd hefyd, pe bai gan yr Awdurdod well gorfodaeth parcio ar y safle, y byddai mwy o incwm yn cael ei gynhyrchu tuag at gynnal a chadw'r cyfleusterau.

Yr oedd y toiledau ym Morfa Dyffryn wedi bod yn cael eu gweithredu fel toiledau tymhorol ers 1 Ebrill 2006 o leiaf. Yn hanesyddol mae toiledau mewn lleoliadau gwledig, ynysig fel hwn, wedi dioddef yn aml o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol / fandaliaeth, gyda chynnydd sylweddol yn y digwyddiadau hyn yn ystod cyfnodau o ddefnydd isel. Problem gyffredin arall a gafwyd dros y gaeaf oedd pibellau'n byrstio a difrod yn cael ei achosi i'r adeilad o ganlyniad i hynny oherwydd yr amodau rhewllyd. Gan nad oes cyflenwad trydan yno, nid yw'n ymarferol gosod mesurau amddiffyn rhag rhew yn y safleoedd hyn. Yn unol â hynny, er mwyn amddiffyn y safleoedd hyn rhag difrod rhew, mae'r cyflenwad dŵr yn cael ei ddiffodd ac maent yn cael eu draenio yn gyfan gwbl pan fo'r toiledau ar gau.

Cydnabuwyd sylwadau'r achwynwyr ynghylch gorfodi taliadau parcio ceir yn well er mwyn cynyddu incwm, a chadarnhawyd bod goruchwylwyr Maes Parcio'r Awdurdod yn ymweld â'r safle fel rhan o'u llwybr goruchwyllo o amgylch amrywiol safleoedd, ond nid oes digon o adnoddau staff i gael mwy o bresenoldeb ar hyn o bryd.

Er bod rhai o doiledau hygyrch yr Awdurdod wedi'u gwarchod â Chlo Radar sy'n cael ei weithredu gyda Radar safonol, nid felly mae hi ar rai safleoedd eraill fel Morfa Dyffryn. Nid yw'n ymarferol nac ychwaith yn ariannol hyfyw i gael cloeon Radar ar flociau toiled anghysbell er mwyn galluogi mynediad y tu allan i'r tymor. Fel yr eglurwyd uchod, yn ystod misoedd y gaeaf mae'r adeilad cyfan yn cael ei ddraenio (wagio) fel nad yw'r toiledau'n weithredol. Yn ogystal, byddai'r gost o gael staff i fynychu'r toiledau i lanhau a chadw golwg ar y safle yn afresymol.

Eglurwyd y wybodaeth uchod i'r achwynydd a rhoddwyd ymddiheuriad nad oedd yn bosibl rhoi ymateb a oedd yn fwy cadarnhaol i'r gŵyn.

STAFF

Cerbyd APCE wedi'i barcio ar stryd ochr gul a chyfyngu mynediad (Mawrth 2020)

Cafwyd cwyn ynglŷn â cherbyd APCE gyda 2 aelod o staff a oedd wedi parcio i lawr stryd ochr gul, a oedd yn cyfyngu'r mynediad yr achwynydd wrth iddo adael ei ddreif. Roedd yr achwynydd hefyd yn pryderu y byddai'r parcio anystyriol yn cyfyngu cerbydau brys wrth iddynt fynd i lawr y ffordd. Tynnwyd llun o'r cerbyd.

Canfuwyd mai 2 aelod o staff o'r gwasanaeth Wardeiniaid a Mynediad oedd wedi parcio'r cerbyd am oddeutu 10 munud wrth brynu cinio o achos nad oedd lleoedd parcio ar y stryd fawr. Er eu bod wedi gwneud ymdrech i barcio mor agos at y wal â phosibl er mwyn peidio â rhwystro llif cerbydau i lawr y stryd, gellir gweld bod lleoliad parcio'r cerbyd yn ogystal â char cyfagos wedi ei gwneud hi'n anodd i'r achwynydd yrru o'i eiddo. Yn ogystal, cydnabuwyd y byddai cerbyd brys mawr wedi cael anawsterau pasio. Cydnabu'r staff dan sylw eu bod wedi gwneud camgymeriad a dywedwyd wrthynt am fod yn fwy gwyliadwrus yn y dyfodol. Ymddiheurodd y Pennaeth Gwasanaeth i'r achwynydd, ond roedd yn fodlon mai'r un tro yr oedd hyn wedi digwydd.

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	18 Tachwedd 2020
TEITL	RHYDDID GWYBODAETH
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
PWRPAS	Adrodd ar y ceisiadau am wybodaeth a ddaeth i law o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

1. CEFNDIR

- 1.1 Daeth rhwymedigaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2005. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ceisiadau am wybodaeth a gafodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a sut yr ymdriniwyd â hwy.
- 1.2 Daeth 16 o geisiadau i law yn ystod blwyddyn 2019.
- 1.3 O'r 16 cais, ymdriniwyd â 10 o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac ymdriniwyd â 6 o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Am ddadansoddiad cyffredinol o'r modd yr ymdriniwyd â'r ceisiadau, cyfeiriwch at y tabl ar y dudalen nesaf.
- 1.4 Roedd 9 cais a wnelo amrywiol fathau o wybodaeth yn ymwneud â chynllunio gan gynnwys:
 - Copïau o hen hanesion cynllunio;
 - Copïau o hen Rybuddion Gorfodaeth;
 - Gwybodaeth a wnelo ceisiadau cynllunio cyfredol, fel copïau o ohebiaeth o blaid neu yn erbyn cais a.y.b.;
 - Copïau o ffeiliau Gorfodaeth;
 - Y nifer o Rybuddion Gorfodaeth, Rhybuddion Tor-rheolaeth Cynllunio a rhybuddion anffurfiol yn berthnasol i osodiadau tymor byr; a
 - Mynediad at gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad tai.
- 1.5 Roedd 7 cais yn ymwneud â gwahanol faterion eraill, fel:
 - Y symiau a wariwyd ar gostau cyfreithiol dros y tair blynedd ddiwethaf;
 - Niferoedd o gytundebau peidio â datgelu yn eu lle gyda chyn aelodau o staff, wedi ei dorri lawr yn ôl rhyw;
 - Manylion cwynion gan ymwelwyr dros y tair blynedd ddiwethaf;
 - Manylion 'hela llwybr' sydd wedi digwydd ar dir yr Awdurdod; a
 - Nifer yr Ecolegwyr sy'n cael eu cyflogi i ymdrin â materion cynllunio.

- 1.6 Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd un cwyn anffurfiol gan aelod o'r cyhoedd am fod ei gohebiaeth gyda'r Awdurdod wedi cael ei rhyddhau fel rhan o gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- 1.7 Rhyddhawyd yr ohebiaeth wedi ei olygu, gydag unrhyw fanylion a allai fod wedi golygu ei bod yn cael ei hadnabod wedi'u gorchuddio yn y copiâu hynny. Esboniwyd y sefyllfa gyfreithiol i'r achwynydd ynghyd â goblygiadau statudol yr Awdurdod i ryddhau'r fath wybodaeth. Unwaith roedd yr achwynydd yn deall y sefyllfa gyfreithiol, roeddynt yn hapus gyda'r esboniad, a daeth y mater i ben.
- 1.8 Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd dwy gŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ymwneud a gwrthodiad i ryddhau gwybodaeth.
- 1.9 Roedd y cais cyntaf mewn perthynas â chais a gyflwynwyd yn ôl yn 2018 ynglŷn â mynediad at gopiâu blaenorol o'r Gofrestr o Fuddiannau Aelodau.
- 1.10 Mae'r Gofrestr o Fuddiannau Aelodau cyfredol ar gael i'r cyhoedd, ond mae copiâu blaenorol neu hen yn cael eu tynnu lawr ac yn cael eu rhyddhau o'r goblygiad i fod ar gael i'r cyhoedd cael eu hymchwilio. Gan fod y cofnodion hyn yn cynnwys data personol, roedd y Rheoliadau Data Personol Cyffredinol (GDPR) yn berthnasol i'r cais. Roeddem o'r farn na fuasai aelodau yn rhesymol yn disgwyl bod unrhyw ddatganiadau yn mynd i barhau i fod yn y parth cyhoeddus am gyfnod amhenodol, ac felly yn destun craffu cyhoeddus ar ôl i'w buddiant ddod i ben neu ar ôl iddynt orffen bod yn aelodau.
- 1.11 Roddem o'r farn nad oedd unrhyw sail gyfreithiol i ryddhau'r wybodaeth a bod unrhyw ddatgeliad yn rhoi'r Awdurdod yn agored i gŵyn posib o dorri Erthygl 6 o'r GDPR.
- 1.12 Cadarnhaodd y Comisiynydd Gwybodaeth fod GDPR yn berthnasol, a rhoddwyd ystyriaeth fanwl i bob elfen o'r achos o blaid ac yn erbyn rhyddhau'r wybodaeth. Ar ôl ystyriaeth gofalus, daeth y Comisiynydd i'r casgliad bod digon o fudd dilys i orbwyso hawliau a rhyddid sylfaenol y gwrthrych data, a phenderfynodd yn unol â hynny y dylid rhyddhau'r wybodaeth.
- 1.13 Gwnaethpwyd yr ail gais ym mis Hydref 2019. Roedd hwn yn gais am fynediad at gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio a gyflwynwyd gan ddatblygwr ar gyfer ei gynigion am ddatblygiad tai.
- 1.14 Ar yr adeg pan gafodd y cais ei gyflwyno, nid oedd unrhyw gais cynllunio ffurfiol wedi cael ei gyflwyno gan y datblygwr. Gwrthodwyd y cais ar y sail y dylai unrhyw un fedru ymofyn cyngor gan yr Awdurdod hwn mewn modd cyfrinachol ar gyfer eu cynigion drafft. Roedd y datblygwr wedi talu swm sylweddol o arian am y cyngor, ac ar yr adeg hynny roedd y wybodaeth o fath masnachol sensitif.
- 1.15 Dywedwyd wrth yr ymgeisydd pe bai cais ffurfiol yn cael ei gyflwyno, y buasai'r sefyllfa yn newid. O ganlyniad i'r cyngor cyn cyflwyno cais, pe bai cais cynllunio ffurfiol yn cael ei gyflwyno, buasai'r wybodaeth yn cael ei wneud yn gyhoeddus gan fod diddordebau'r ymgeisydd cynllunio eisoes wedi cael eu gwarchod yn ystod y cam datblygu cynlluniau.
- 1.16 Aeth yr ymgeisydd ati i gyflwyno y cais i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Rhagfyr 2019 i'w ystyried. Cafwyd Rhybudd Penderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar y 30ain o Fedi 2020 a gadarnhaodd penderfyniad yr Awdurdod i wrthod rhyddhau'r wybodaeth.

Ceisiadau yr ymdriniwyd â hwy o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
5 cais wedi'u caniatáu / datgeliad llawn
Gwrthodwyd 1 cais oherwydd nid oedd gan yr Awdurdod y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Ceisiadau yr ymdriniwyd â hwy o dan y Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
6 cais wedi'u caniatáu / datgeliad llawn
Gwrthodwyd neu gwrthodwyd yn rhannol 2 gais oherwydd ystyriwyd bod yr wybodaeth wedi'i heithrio o dan Reoliad 12(5)(f) - gwybodaeth a fyddai'n datgelu enwau aelodau o'r cyhoedd sy'n adrodd ynghylch tor-rheolaeth cynllunio, a gwybodaeth gyfrinachol a gyflwynwyd gan ddatblygwr fel rhan o gais am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio.
Gwrthodwyd neu gwrthodwyd yn rhannol 2 gais oherwydd ystyriwyd bod y wybodaeth yn fraint broffesiynol gyfreithiol, ac felly roedd wedi'i eithrio o dan Reoliad 12(5)(b).
Gwrthodwyd yn rhannol 1 cais oherwydd bod rhywfaint o'r wybodaeth yn ymwneud â gwarchod gwybodaeth sensitif am fywyd gwylt, sef lleoliadau nythu adar, setiau moch daear a.y.b., sy'n wybodaeth wedi'i eithrio o dan Reoliad 12(5)g.

2. GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim goblygiadau uniongyrchol.

3. ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

CYFARFOD	Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	18fed o Dachwedd, 2020
TEITL	Adroddiad Cynnydd Prosiectau Partneriaeth Yr Wyddfa
ADRODDIAD GAN	Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa
PWRPAS	Adrodd ar gynnydd mewn prosiectau a nodwyd yng Nghynllun Yr Wyddfa

1. CEFNDIR

- 1.1 Lansiodd cynllun rheoli ar gyfer Yr Wyddfa yn 2018 gan Bartneriaeth Yr Wyddfa.
- 1.2 Fe gyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Yr Wyddfa 2018-2019 i'r Awdurdod ar Orffennaf y 3ydd, 2019.
- 1.3 Dyma adroddiad ar gynnydd prosiectau sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Yr Wyddfa yn ystod 2019 - 2020.

2. Y CYNLLUN

- 2.1 Wedi lansio Cynllun Yr Wyddfa fe dderbyniodd y Bartneriaeth £190,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni prosiectau sydd wedi eu nodi yn y Cynllun. Llwyddodd y Bartneriaeth hefyd i sicrhau £80,000 ar gyfer prosiect TAIS (Tourism Amenity Investment Support) Croeso Cymru, er mwyn gwella cyfleusterau parcio a thrafnidiaeth yn Nant Peris.
- 2.2 Lluniwyd Adroddiad Archwiliad Mewnol yn Nhachwedd 2019 gan adran Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd oedd yn adolygu fod trefniadau monitro cynnydd Partneriaeth Yr Wyddfa yn briodol. Dyfarnwyd lefel sicrwydd 'Digonol' a olygir: Mae rheolaeth mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
- 2.3 Ymrwymwyd fod Partneriaeth Yr Wyddfa yn ailedrych ar briodoldeb y dangosyddion presennol, gan benderfynu os ydynt yn ychwanegu gwerth ac os oes dangosyddion amgen all fod yn fwy priodol i fesur cynnydd y Bartneriaeth.

- 2.4 Oherwydd nad yw'r broses uchod wedi digwydd eto, mae'r adroddiad hon yn edrych yn benodol ar gynnydd y prosiectau a'r gwaith gweithredu sydd wedi mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn. Fe fydd drafft o'r dangosyddion perfformiad diwygiedig yn mynd o flaen y Gweithgor yn fuan.
- 2.5 Bu'r Bartneriaeth mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod y cyfnod dan sylw gyda 11 cyfarfod wedi eu cynnal rhwng Mehefin 2019 ag Awst 2020.
- 2.6 Cafwyd y Bartneriaeth ei diweddaru'n gyson drwy ddulliau amrywiol yn cynnwys: diweddariadau ar wefan Partneriaeth Yr Wyddfa; 3 cylchlythyr penodol am waith y Bartneriaeth wedi eu rhannu a 157 o danysgrifwyr; newyddion am y gwaith wedi ei gynnwys yng nghylchlythyr yr Awdurdod ac yng nghylchgrawn Eryri 2020; ac fe gynhaliwyd 4 gweminar i'r sector awyr agored yn ystod y cyfnod clo a 2 wedi eu trefnu wedi'r cyfnod clo.

3. PROSIECTAU

3.1 Grant o Lywodraeth Cymru

3.1.1 Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen

Ers mis Ionawr eleni, mae tîm ymgynghori a benodwyd gan Bartneriaeth Yr Wyddfa, wedi bod yn dadansoddi'n fanwl yr amrywiol ffactorau hynny sy'n amgylchynu'r materion parcio a thrafnidiaeth.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad â chymunedau a phartneriaid a'r dadansoddiad data, roedd yn amlwg bod y momentwm a'r awydd i fynd ati i ddatblygu cynnig Twristiaeth Gynaliadwy integredig. Felly mae eu hargymhellion yn cynnwys atebion pellgyrhaeddol, cyfannol a chynaliadwy gan ddefnyddio model ar ffurf arddull Alpaidd, a allai drawsnewid ein hymagwedd tuag at deithio yn y rhanbarth. Am fwy o fanylion am y prosiect hwn a'r camau sydd wedi eu cymryd eisoes, ewch i dudalen 4 o **Atodiad 1**.

Gwaith perthnasol yn ystod haf 2020:

- > Treialu system rhagarchebu parcio ym Mhen y Pass
Yn unol ag argymhellion yn adolygiad a'r anogaeth i beilota atebion posibl, cafodd system rhagarchebu ei threialu ym Mhen y Pass am y tri phenwythnos olaf yn Awst 2020. Fe gefnogwyd y peilot gan Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa ac fe gyfrannwyd i'r gwaith cynllunio. Fe gynhaliwyd trafodaethau gyda dau gwmni arbenigol ac er i'r ddau gwmni gynnig system wedi ei theilwra ar gyfer Pen y Pass, penderfynnwyd i ddefnyddio gwasanaeth Eventbrite alluogodd i'r Awdurdod gynnig gwasanaeth bron yn gwbl ddwyieithog. Roedd y peilot yn llwyddiannus ac fe dderbyniwyd adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr oedd wedi gwerthfawrogi'r diffyg straen oedd rhagarchebu'n ei gynnig wrth gyrraedd eu cyrchfan. Yn dilyn y peilot, anelwn i gael system barhaol mewn lle erbyn tymor ymwelwyr 2021 ym meysydd parcio Pen y Pass ac Ogwen.

- > Diweddariadau parcio
Yn unol â'r argymhelliad i ddatblygu system fonitro amser real ar gyfer gwybodaeth draffig ar gyrion, ac mewn safleoedd parcio swyddogol yn y Parc, cafodd gwasanaeth monitro meysydd parcio ac argaeledd lleoedd parcio ei dreialu gan APCE yn ystod yr haf. Fe gefnogwyd y gwaith hwn gan Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa gan i'r swyddog fod yn rhan o'r tîm oedd yn gweithio ar y diweddariadau parcio. Er i'r gwasanaeth dderbyn adborth hynod o gadarnhaol a'i groesawu gan ddefnyddwyr, roedd y system yn ddibynnol iawn ar adnoddau dynol ac yn gofyn am lawer o amser staff. Anelwn i gynnig system symlach sy'n gofyn am lai o adnoddau ac amser staff erbyn tymor ymwelwyr 2020.

3.1.2 Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru (Trafnidiaeth Cymru) - 2020-2021

Mae Trafnidiaeth Cymru yn awyddus i gefnogi'r gwaith cychwynnol o ran rhoi'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth ar waith. Sicrhawyd cefnogaeth ariannol o £430k ar gyfer agweddau amrywiol o'r gwaith ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021. Am fwy o wybodaeth am y prosiectau sydd wedi derbyn y gefnogaeth yma ewch i dudalen 8 o **Atodiad 1**.

3.1.3 Wifi Yr Wyddfa

Dyma brosiect ar y cyd gydag Arloesi Gwynedd Wledig i edrych ar bosibiliadau ac opsiynau o ran gwella'r isadeiledd ar gyfer cysylltiadau digidol yn ardal Yr Wyddfa. Comisiynwyd arolwg opsiynau ar gyfer gwella cyflenwad WiFi ar y mynydd fyddai'n cyfrannu tuag at wella diogelwch ac yn cyrraedd gofynion ymwelwyr. Daeth yr arolwg i'r casgliad y byddai datblygu cyflenwad WiFi ar hyd ardal y mynydd yn rhy gostus ac yn rhy heriol gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Penderfynwyd defnyddio gweddill yr arian ar gyfer atgyfnerthu prosiectau eraill perthnasol er enghraifft datblygiadau yn deillio o'r Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth, ac i edrych ar opsiynau o ran cydweithio gyda lleoliadau megis fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Hafod y Llan, ar gyfer gwella cysylltiad yn yr ardal benodol honno.

3.1.4 Ap Llwybrau Yr Wyddfa

Fe lansiodd yr ap ar ddechrau Gorffennaf 2020 ac ers hynny, mae 1558 uned wedi gwerthu am £1.99 (1113 ar Apple a 445 ar Android). Gan dynnu cyfrannau Apple a Google mae cyfanswm gwerthiant yr ap ers ei lansio yn tua £1400 (£1000 ar Apple, £400 ar Android). Yn dilyn y mesurau brys i gau Pen y Pass yn yr haf, roedd yn rhaid gwneud diweddariad o'r ap er mwyn cynnwys y wybodaeth gywir ynglŷn â'r newidiadau. Roedd costau'r diweddariad yn £400. Am fwy o fanylion am y prosiect hwn ewch i dudalen 10 o **Atodiad 1**.

3.1.5 Cynllun Llysgennad Eryri

O dan faner Cynllun Llysgennad Gogledd Cymru, mae Cynllun Llysgennad Eryri wedi ei ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ddarpariaeth yn

cynnwys 12 modiwl hyfforddiant ar-lein sydd yn adlewyrchiad o Rinweddau Arbennig y Parc â'r hyn sy'n gwneud Eryri mor eithriadol. Mae cynnwys y modiwlau yn amrywio o destun ffeithiol, i ffotograffau anhygoel, i waith creadigol sy'n wledd i'r llygaid, ac mae ansawdd a chaliber y cyfranogwyr o'r radd flaenaf.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei lansio fel rhan o lansiad Cynllun Eryri ar y 26ain o Dachwedd, 2020. Am fwy o fanylion am gefndir a chynlluniau'r prosiect hwn ewch i dudalen 12 o **Atodiad 1**.

3.1.6 Ymgyrch Sbwriel

Dyma brosiect ar y cyd gyda Chymdeithas Eryri sydd yn cynnwys datblygu a chyflwyno negeseuon cydlynol, gweithredu'n ymarferol, a chynnal ymgyrchoedd i fynd i'r afael a'r broblem sbwriel ar Yr Wyddfa. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â'r problemau allweddol a amlygwyd yng Nghynllun Yr Wyddfa drwy weithredu sawl prosiect peilot. Un o'r prosiectau oedd ymgyrch ar wefannau cymdeithasol ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effeithiau negyddol sbwriel ar gynefinoedd Yr Wyddfa. Roedd y negeseuon yn cynnwys: effeithiau deunyddiau organig; atgoffa ymwelwyr fod Hafod Eryri wedi cau oherwydd y cyfyngiadau a bod angen 'mynd' cyn cychwyn; a'r nifer o oriau sy'n cael eu treulio gan wirfoddolwyr yn clirio sbwriel. Nôd y prosiect yw annog ymddygiad positif gan danlinellu hunan gyfrifoldeb dros wastraff/sbwriel.

3.1.7 Cynllun Cyfathrebu

Cyflawnwyd cynllun cyfathrebu newydd ar gyfer y Bartneriaeth gan gwmni ymgysylltu Spencer David. Roedd y cynllun yn cynnwys; cyd-destun o ran yr amgylchedd a thueddiadau ymwelwyr, diffiniad o'r gynulleidfa darged, archwiliad o adnoddau Partner, yr heriau a'r ffordd ymlaen, technegau cyfathrebu arfaethedig a rhaglen waith. Am fwy o fanylion am y cynllun cyfathrebu a'r argymhellion a gynigwyd ewch i dudalen 15 o **Atodiad 1**.

3.2 Prosiectau eraill

3.2.1 Prosiect TAIS Nant Peris

Derbyniwyd £80 mil o gronfa TAIS (Tourism Amenity Investment Support) Croeso Cymru i ddatblygu prosiect fyddai'n gweithredu elfennau allweddol o Gynllun Yr Wyddfa drwy uwchraddio a moderneiddio isadeiledd hanfodol ar gyfer ymwelwyr yn yr ardal, gan arwain at wella profiad ymwelwyr yn sylweddol yn y prif faes parcio ar gyfer parcio a theithio i'r Wyddfa. Roedd hyn yn cynnwys uwchraddio cyfleusterau toiled; gosod cysgodfa solar pob tywydd newydd wedi'i hadeiladu'n grefftus fydd yn cyfod deunyddiau traddodiadol â thechnoleg werdd fodern; a gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Nôd y prosiect oedd gwella'r ymdeimlad o le, gan gynyddu cynaladwyedd a gwella cyfleusterau ymwelwyr ar gyfer segmentau allweddol o'r farchnad.

Oherwydd rhesymau allan o'n rheolaeth yn ymwneud â'r pandemig, ni fydd

hi'n bosib cyflawni'r prosiect hwn o fewn y gyllideb a'r amserlen gaeth. Er hynny, mae Croeso Cymru yn agored i drafod gwario'r £40 mil sy'n weddill ar welliannau/gynlluniau perthnasol eraill sy'n fwy realistic. Mae'r trafodaethau ynglŷn â'r opsiynau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Am fwy o wybodaeth am y gwaith sydd wedi ei gwblhau yn barod ewch i dudalen 16 o **Atodiad 1**.

4. ARALL

4.1 Grŵp gweithredu Lleol (Lleoedd) Arloesi Gwynedd Wledig

Mae Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa yn cynrychioli'r Awdurdod ar Grŵp Gweithredu Lleol (Lleoedd) Arloesi Gwynedd Wledig.

4.2 Prosiectau eraill wedi eu nodi yng Nghynllun Yr Wyddfa i'w gweithredu

Am restr lawn o'r prosiectau ar ôl i'w gweithredu fel y nodir yng Nghynllun Yr Wyddfa ewch i dudalen 18 o **Atodiad 1**.

5. ARGYMHELLIAD

Bod yr aelodau'n:

Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu Cynllun Yr Wyddfa.

ADRODDIAD CYNNYDD PROSIECTAU

PARTNERIAETH YR WYDDFA

2019–2020



© Hafwrfa Y Cwm Cressa Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

CYFLWYNIAD

CYLLID

Wedi lasnio Cynllun Yr Wyddfa fe dderbyniodd y Bartneriaeth £190,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni prosiectau sydd wedi eu nodi yn y Cynllun. Llwyddodd y Bartneriaeth hefyd i sicrhau £80,000 ar gyfer prosiect TAIS Croeso Cymru, er mwyn gwella cyfleusterau parcio a thrafnidiaeth yn Nant Peris.

NODYN: Fe gyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Yr Wyddfa 2018-2019 i'r Awdurdod ar Orffennaf y 3^{ydd}, 2019.

ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL 2019 -2020

Lluniwyd Adroddiad Archwiliad Mewnol yn Nhachwedd 2019 gan adran Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd oedd yn adolygu fod trefniadau monitro cynnydd Partneriaeth Yr Wyddfa yn briodol. Fe wnaed hyn drwy wirio trefniadau casglu data dangosyddion llwyddiant Cynllun Yr Wyddfa, gan ganolbwyntio ar y dangosyddion hynny ble mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gasglu'r wybodaeth. Dyfarnwyd lefel sicrwydd 'Digonol' a olygir: Mae rheolaeth mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

Ymrwymwyd fod Partneriaeth Yr Wyddfa yn ailedrych ar briodoldeb y dangosyddion presennol, gan benderfynu os ydynt yn ychwanegu gwerth ac os oes dangosyddion amgen all fod yn fwy priodol i fesur cynnydd y Bartneriaeth.

Oherwydd nad yw'r broses uchod wedi digwydd eto, mae'r adroddiad hon yn edrych yn benodol ar gynnydd y prosiectau a'r gwaith gweithredu sydd wedi mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn. Fe fydd drafft o'r dangosyddion perfformiad diwygiedig yn mynd o flaen y Gweithgor ar yr 2^{il} o Ragfyr, 2020.



CYFARFODYDD

- Cyfarfod llawn Partneriaeth Yr Wyddfa - 18/06/2019
- Cyfarfod is-grŵp gweithgareddau awyr agored, antur ac addysg - 05/09/2019
- Cyfarfod is-grŵp economi a chymuned - 15/10/2019
- Cyfarfod is-grŵp gofalu am Yr Wyddfa - 05/09/2019
- Cyfarfod is-grŵp gwybodaeth a thwristiaeth - 15/10/2019
- Cyfarfod llawn Partneriaeth Yr Wyddfa - 21/11/2019
- Cyfarfod Cychwynnol rhwng y Bartneriaeth a Martin Higgitt Associates - 09/01/2020
- Hyfforddiant Arbenigwyr Ymweld â'r Wyddfa - 13/02/2020
- Gweminar yn cyflwyno'r Cynllun Cyfathrebu -27/02/2020
- Gweithdy Rhanddeiliaid Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth - 12/03/2020
- Cyfarfod Llawn Partneriaeth Yr Wyddfa - 08/09/2020

CYFATHREBU

- › **Gwefan Partneriaeth Yr Wyddfa:**
Mae gwefan Partnaeriaeth Yr Wyddfa wedi ei diweddarau'n gyson ac yn cael ei defnyddio i rannu newyddion gyda Partneriaid a rhanddeiliaid am y gwaith.
- › **Cylchlythyr Partneriaeth Yr Wyddfa:**
Fel y nodir yn y Cynllun mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cylchlythyr penodol gan Bartneriaeth Yr Wyddfa. Mae gan y cylchlythyr 157 o dasysgrifwyr ar hyn o bryd. Fe gyhoeddwyd 3 cylchlythyr yn ystod y cyfnod hwn ac mae'r holl gylchlythyron i'w gweld ar wefan Partneriaeth Yr Wyddfa.
- › **Cylchlythyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:**
Mae sawl diweddariad am waith y Bartneriaeth wedi ei gynnwys yng nghylchlythyr misol yr Awdurdod ac yng nghylchgrawn Eryri 2020.
- › **Gweminarau:**
Fel ymateb i argyfwng COVID-19, fe gynhaliwd 4 gweminar i'r sector awyr agored yn ystod y cyfnod clo gyda dwy wedi ei trefnu wedi'r cyfnod clo. Fe alluogwyd y gweminarau i'r Bartneriaeth rannu negeseuon ynglŷn ac ailagor yn sydyn ac yn glir. Roedd y trafodaethau'n cynnwys: llacio'r cyfyngiadau wedi'r cyfnod clo, campio anghymdeithasol, sbwriel a'r Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth.



PROSIECTAU

Mae'r holl brosiectau a nodir yn yr adran hon wedi eu cynnwys yng Nghynllun Yr Wyddfa fel pwyntiau gweithredu yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun.

GRANT O LYWODRAETH CYMRU

ADOLYGIAD PARCIO A THRAFNIDIAETH YR WYDDFA AC OGWEN- 2020

Ariannwyd gyda grant gan Lywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (wedi ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd).

> DYLETSWYDDAU CORFFORAETHOL

CAMAU GWEITHREDU WEDI EU NODI YNG NGHYNLLUN YR WYDDFA A CHYNLLUN ERYRI

Cynllun Yr Wyddfa

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd yn cydlynu arolwg o anghenion defnyddwyr gyda busnesau twristiaeth yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch cludiant a pharcio. Defnyddio canlyniadau i adolygu a gwella'r gwasanaeth Sherpa

Cynllun Eryri

- A1.4. Lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r tirwedd
- A3.1. Lleihau allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri
- B4.1. Gwella cynladwyedd ac argaeledd trafndiaeth ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr a mynd i'r afael â phroblemau parcio
- B4.2. Archwilio a sefydlu cyfleoedd i annog trafndiaeth fwy gwyrdd



Ers mis Ionawr eleni, mae tîm ymgynghori a benodwyd gan Bartneriaeth Yr Wyddfa, wedi bod yn dadansoddi'n fanwl yr amrywiol ffactorau hynny sy'n amgylchynu'r materion parcio a thrafnidiaeth.

Mae'r adroddiad yn datgan bod yr orddibyniaeth bresennol ar geir i gael mynediad at safleoedd prysur a adwaenir fel rhai 'pot mêl' allweddol a'r broblem parcio gronig ar adegau prysur o'r flwyddyn yn fethiant yng nghyd-destun pwrpasau craidd y Parc Cenedlaethol. Mae hefyd yn golygu bod cymunedau lleol a'r economi leol yn dioddef effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â lefelau niferoedd yr ymwelwyr, ac nid ydynt yn cael cymaint o fudd ag y gallant ei gael.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad â chymunedau a phartneriaid a'r dadansoddiad data, roedd yn amlwg bod y momentwm a'r awydd i fynd ati i ddatblygu cynnig Twristiaeth Gynaliadwy integredig. Felly mae eu hargymhellion yn cynnwys atebion pellgyrhaeddol, cyfannol a chynaliadwy gan ddefnyddio model ar ffurf arddull Alpaidd, a allai drawsnewid ein hymagwedd tuag at deithio yn y rhanbarth.

Mae'r adolygiad yn argymhell datblygu Dull Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy a fydd yn lleihau effaith amgylcheddol ymwelwyr ar y dirwedd warchoddedig, ac ar yr un pryd, lleihau'r problemau a chynyddu buddion twristiaeth i gymunedau a'r economi leol, gan wella profiad yr ymwelydd a galluogi ystod fwy amrywiol o ymwelwyr i fwynhau'r ardal. Mae gogledd Cymru ac Eryri mewn sefyllfa berffaith i ymateb i rai o'r 'tueddiadau-enfawr' tymor hwy mewn twristiaeth sydd a wnelo dilysrwydd, gweithgaredd ac antur, ac eco-dwristiaeth. Gyda sylfaen mewn teithio gwyrdd, byddai hyn yn gosod gogledd Cymru yn gadarn ar lwyfan y byd fel cyrchfan gynaliadwy. Gyda sylfaen mewn teithio gwyrdd, byddai hyn yn gosod gogledd Cymru ar lwyfan y byd fel cyrchfan gynaliadwy.

Mae'r ddogfen drafft yn cyd-fynd yn llawn ag ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn enwedig gyda'u pwyslais ar uwch gynllunio cymunedol, gweithio mewn partneriaeth, annog sgiliau mentergarol / entrepreneuriaid a chreu swyddi ar gyfer cynulleidfaoedd lleol, tra'n hyrwyddo a chynnal Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol yn gryf.

Byddai'r Dull Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy hwn yn trawsnewid sut mae'r ardal yn gweithredu ac yn cael ei hystyried fel cyrchfan. Yn sail i'r dull gweithredu hwn mae integreiddio, darparu gwasanaethau newydd ac ail-raddio'r gwasanaethau presennol. Mae galluogi cyflenwi blaengar o'r fath yn ymfyn strwythurau llywodraethu priodol ac ail-feddwl y model economaidd y darperir gwasanaethau ynddo. Argymhellir model llywodraethu newydd sy'n gyfle i'r ardal, a Chymru yn gyffredinol, i fod yn arwain y gad.

Fodd bynnag, bydd y dull gweithredu hwn sy'n arwain y byd o ran rheoli ymwelwyr yn gofyn am gymorth referniw cychwynnol a swm sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf cyn dod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Bydd atebion tymor hir i'r materion isadeiledd yn ymfyn dull gweithredu amlasiantaethol a gweithio mewn partneriaeth gref i sicrhau llwyddiant.



Isod mae crynodeb o'r camau a gymerwyd hyd yma a'r camau nesaf yn y broses:

Cam 1: Deall y materion trwy gyfrwng cyfarfodydd ac ymweliadau safle; adolygiad polisi cynhwysfawr; dadansoddiad data o ymwelwyr, lletai, pob math o gyfleusterau trafniadaeth a pharcio yn y rhanbarth; ac adolygiad o fentrau cysylltiedig eraill. Cwblhawyd ym mis Mawrth 2020.

Cam 2: Ymgynghoriad manwl ar draws pob sector yn ardal yr astudiaeth, gan gynnwys gweithdai. Cwblhawyd ym mis Mai 2020.

Cam 3: Mireinio'r adroddiad yn seiliedig ar ganfyddiadau Camau 1 a 2, gydag argymhellion llawn, cynllun gweithredu awgrymedig ac astudiaethau achos i'w cyflawni. Cwblhawyd ym mis Awst 2020.

Cam 4: Cyflwyno adolygiad i Weithgor Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn amlinellu argymhellion a strategaethau gweithredu posibl i gael adborth. Cwblhawyd ym mis Medi 2020.

Cam 5: Partneriaeth Yr Wyddfa i ystyried canfyddiadau'r adroddiad a'r camau nesaf. Cwblhawyd ym mis Medi 2020.

Cam 6: Cyflwyno diweddariad i Grŵp o Uwch Swyddogion Gogledd Cymru (Busnes) o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Cwblhawyd ym mis Medi 2020.

Cam 7: Cyflwyno diweddariad i Fforwm Twristiaeth Rhanbarth y Gogledd. Cwblhawyd yn Hydref 2020.

Cam 8: Cyflwyno diweddariad i Bwyllgor Craffu Economi a Lle Cyngor Bwrdeistrefol Conwy.



Y camau nesaf:

- › Cyflwyno diweddariad i Gabinet Cyngor Gwynedd. Wedi'i amserlennu ar gyfer tymor yr Hydref/Gaeaf 2020.
- › Gweithdy lefel uchel wedi'i hwyluso gyda chwaraewyr allweddol o bob sefydliad i archwilio'r goblygiadau llywodraethu ac ariannu. Wedi'i amserlennu ar gyfer tymor yr Hydref/Gaeaf 2020.
- › Ymgynghoriad cymunedol a gweithdai ar gyfer llunio prif-gynllun gan sicrhau bod pob ardal yn mynegi eu barn ac yn cael cyfle i lunio'r canlyniadau terfynol. Wedi'i amserlennu ar gyfer tymor yr Hydref/Gaeaf 2020.

Gwaith perthnasol yn ystod haf 2020:

- › Treialu system rhagarchebu parcio ym Mhen y Pass:
Yn unol ag argymhellion yn adolygiad a'r anogaeth i beilota atebion posibl, cafodd system rhagarchebu ei threialu ym Mhen y Pass am y tri phenwythnos olaf yn Awst 2020. Fe gefnogwyd y peilot gan Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa ac fe gyfrannwyd i'r gwaith cynllunio. Fe gynhaliwyd trafodaethau gyda dau gwmni arbenigol ac er i'r ddau gwmni gynnig system wedi ei theilwra ar gyfer Pen y Pass, penderfynnwyd i ddefnyddio gwasanaeth Eventbrite alluogodd i'r Awdurdod gynnig gwasanaeth bron yn gwbl ddwyieithog.

Roedd y peilot yn llwyddiannus ac fe dderbyniwyd adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr oedd wedi gwerthfawrogi'r diffyg straen oedd rhagarchebu'n ei gynnig wrth gyrraedd eu cyrchfan. Yn dilyn y peilot, anelwn i gael system barhaol mewn lle erbyn tymor ymwelwyr 2021 ym meysydd parcio Pen y Pass ac Ogwen.

- › Diweddariadau parcio:
Yn unol â'r argymhelliad i ddatblygu system fonitro amser real ar gyfer gwybodaeth draffig ar gyrion, ac mewn safleoedd parcio swyddogol yn y Parc, cafodd gwasanaeth monitro meysydd parcio ac argaeledd lleoedd parcio ei dreialu gan APCE yn ystod yr haf. Fe gefnogwyd y gwaith hwn gan Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa gan i'r swyddog fod yn rhan o'r tîm oedd yn gweithio ar y diweddariadau parcio. Er i'r gwasanaeth dderbyn adborth hynod o gadarnhaol a'i groesawu gan ddefnyddwyr, roedd y system yn ddibynnol iawn ar adnoddau dynol ac yn gofyn am lawer o amser staff. Anelwn i gynnig system symlach sy'n gofyn am lai o adnoddau ac amser staff erbyn tymor ymwelwyr 2020.



CEFNOGAETH GAN LYWODRAETH CYMRU (TRAFNIDIAETH CYMRU) – 2020-2021

Mae Trafnidiaeth Cymru yn awyddus i gefnogi'r gwaith cychwynnol o ran rhoi'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth ar waith. Sicrhawyd cefnogaeth ariannol o £430k ar gyfer agweddau amrywiol o'r gwaith ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021. Mae'r prosiectau sydd wedi derbyn y gefnogaeth yma yn cynnwys:

- › Gweithdai cynllunio cymunedol (gaeaf 2020): Gwaith uwchgyllunio gyda 4 pentref a lleoliad porth ac adroddiadau gwerthuso cysyniad / opsiynau ar gyfer y 4 lleoliad
- › Sefydlu system rag-archebu awtomatig ar gyfer Pen y Pass ac Ogwen
- › Datblygu system fonitro amser real gadarn sydd ddim angen llawer o adnoddau, ar gyfer traffig ar gyrron, ac mewn meysydd parcio yn y Parc
- › Cynigion rhwydwaith beiciau arfaethiedig a chynllun llogi beiciau
- › Astudiaeth rheoli trafndiaeth gyhoeddus: Diffinio rhwydwaith a gweithrediad gwasanaethau bysiau yn y dyfodol, gan gynnwys cysylltiadau ehangach â gwasanaethau trên - o bosibl i feysydd awyr perthnasol



© Hafwrailt y Gorn, Creso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

WIFI YR WYDDFA - 2018-2021

> DYLETSWYDDAU CORFFORAETHOL

CAMAU GWEITHREDU WEDI EU NODI YNG NGHYNLLUN YR WYDDFA A CHYNLLUN ERYRI

Cynllun Yr Wyddfa

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio technoleg newydd ar gyfer gwella cysylltedd ffôn / wifi

Cynllun Eryri

- B5.1. Cyfleusterau ymwelwyr yn derbyn cyllid a buddsoddiad digonol i gyrraedd a gwella ar ddisgwyliadau ymwelwyr
- B5.3. Llety o ansawdd uchel, yn gweddu i'r dirwedd, yn cwrdd â disgwyliadau a gofynion ymwelwyr ac yn helpu i gynyddu gwariant y pen

Dyma brosiect ar y cyd gydag Arloesi Gwynedd Wledig i edrych ar bosibiliadau ac opsiynau o ran gwella'r isadeiledd ar gyfer cysylltiadau digidol yn ardal Yr Wyddfa. Comisiynwyd arolwg opsiynau ar gyfer gwella cyflenwad WiFi ar y mynydd fyddai'n cyfrannu tuag at wella diogelwch ac yn cyrraedd gofynion ymwelwyr. Daeth yr arolwg i'r casgliad y byddai datblygu cyflenwad WiFi ar hyd ardal y mynydd yn rhy gostus ac yn rhy heriol gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Penderfynwyd i ddefnyddio gweddill yr arian ar gyfer atgyfnerthu prosiectau eraill perthnasol er enghraifft datblygiadau yn deillio o'r Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth, ac i edrych ar opsiynau o ran cydweithio gyda lleoliadau megis fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Hafod y Llan, ar gyfer gwella cysylltiad yn yr ardal benodol honno.

> DYLETSWYDDAU CORFFORAETHOL


CAMAU GWEITHREDU WEDI EU NODI YNG NGHYNLLUN YR WYDDFA A CHYNLLUN ERYRI

Cynllun Yr Wyddfa

- Archwilio hyfywedd datblygu ap Yr Wyddfa o safon uchel a'i hyrwyddo'n eang

Cynllun Eryri

- A5.1. Chwilio am gyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anhygyrch a grwpiau difreintiedig ymddiddori a dysgu am amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a'r modd y gallant hwy helpu i ofalu amdanynt"
- B3.1. Datblygu strategaeth marchnata brand ar gyfer Eryri yn seiliedig ar y Rhinweddau Arbennig a'i gweithredu yn gyson ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat





Am gostau ymchwilio hyfywedd datblygu ap, llwyddwyd i ddylunio a lansio ap newydd. Mae'r ap yn hawdd i'w ddefnyddio, yn gweithio gyda GPS ac yn cynnwys mapiau manwl sy'n dilyn y daith wrth i ddefnyddwyr gerdded ar unrhyw un o'r 6 prif lwybr i'r copa. Mae hyn yn gweithio all-lein, sy'n golygu nad oes angen cyflenwad i'r we neu signal ffôn tra'n ei ddefnyddio ar y mynydd. Mae pob map yn cynnwys cyfuchliniau fel bod modd cadw golwg ar rannau heriol wrth gerdded.

Mae'r ap yn helpu ymwelwyr â'r Wyddfa i gynllunio ymlaen llaw cyn ymweld ag yn cynnwys cyngor pwysig ynglŷn â sut i barchu, gofalu, a gwarchod y mynydd, yr amgylchedd o'i amgylch, a'r cymunedau lleol. Mae'r ap ar gael ar declynnau Android neu Apple.

Fe lanswyd yr ap ar ddechrau Gorffennaf 2020 ac ers hynny, mae 1558 uned wedi gwerthu am £1.99 (1113 ar Apple a 445 ar Android). Gan dynnu cyfrannau Apple a Google mae cyfanswm gwerthiant yr ap ers ei lansio yn tua £1400 (£1000 ar Apple, £400 ar Android).

Yn dilyn y mesurau brys i gau Pen y Pass yn yr haf, roedd yn rhaid gwneud diweddariad o'r ap er mwyn cynnwys y wybodaeth gywir ynglŷn â'r newidiadau. Roedd costau'r diweddariad yn £400.



CYNLLUN LLYSGENNAD ERYRI – 2020 ymlaen

> DYLETSWYDDAU CORFFORAETHOL

CAMAU GWEITHREDU WEDI EU NODI YNG NGHYNLLUN YR WYDDFA A CHYNLLUN ERYRI

Cynllun Yr Wyddfa

- Datblygu cynllun cenhadon

Cynllun Eryri

- A5.3. Darparu mesurau o dan Ganlyniad B3 a fydd – trwy wybodaeth, marchnata a brandio – yn cynnwys rhanddeiliaid fwyfwy yn y gwaith o ofalu am amgylchedd y Parc Cenedlaethol.
- “B3.3. Defnyddio’r strategaeth marchnata fel man cychwyn, datblygu cynllun ar y cyd gyda phartneriaid ynghylch y wybodaeth yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid mewn ymddygiad”
- C1.2. Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn yr ardal
- C4.1. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth rhwng y Parc Cenedlaethol a sefydliadau sydd yn bodoli yn y cymunedau



Cafwyd gweithdy hynod gadarnhaol ar yr 20^{fed} o Fehefin, 2019 yn Llandudno. Gweithdy ydoedd i drin a thrafod posibiladau datblygu Cynllun Llysgennad Twristiaeth yn ardal Yr Wyddfa. Gwahoddwyd llysgenhadon o gynlluniau sydd ar waith yn barod, a pherchnogion busnes o'r diwydiant twristiaeth yn ardal Yr Wyddfa ac fe gafwyd trafodaeth frwd a difyr dros ben.

Yn dilyn y drafodaeth yn y gweithdy, roedd consensws clir i ddatblygu cynllun fyddai'n ymestyn tu hwnt i ardal Yr Wyddfa ac yn adlewyrchu holl rinewddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Yn fwy na hynny, gan fod amcanion gan sefydliadau eraill o ran sefydlu cynlluniau o'r fath, penderfynwyd i gydweithio gyda awdurdodau lleol eraill ar gynllun rhanbarthol fyddai'n cynnwys ardal eang o ogledd Cymru. Mae'r awdurdodau sydd wedi bod yn rhan o'r trafodaethau yn cynnwys Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeisdrefol Conwy, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Gwynedd.

Fe fydd y cynlluniau unigol yn dilyn strwythur Cynllun Llysgennad Sir Ddinbych sydd wedi'i sefydlu yn y sir ers rhai blynyddoedd, ac yn rhannu plattform Cynllun Llysgennad Gogledd Cymru. Mae Cynllun Sir Ddinbych yn cynnwys hyfforddiant ar lein ar agweddau amrywiol ac yn achredu cymhwyster efydd, arian ac aur yn ddibynnol ar faint o fodiwlau gaiff eu cwblhau. Bwriad y cynlluniau unigol ydyw arfogi perchnogion a staff yn y diwydiant twristiaeth gyda'r gallu i addysgu ymwelwyr am nodweddion unigryw ac arbennig ardal benodol. Y mwyaf o hyfforddiant a gyflawnir, yr uchaf yw'r achrediad.

O dan faner Cynllun Llysgennad Gogledd Cymru, mae Cynllun Llysgennad Eryri wedi ei ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys 12 modiwl hyfforddiant ar-lein sydd yn adlewyrchiad o Rinweddau Arbennig y Parc â'r hyn sy'n gwneud Eryri mor eithriadol. Mae cynnwys y modiwlau yn amrywio o destun ffeithiol, i ffotograffau anhygoel, i waith creadigol sy'n wledd i'r llygaid, ac mae ansawdd a chaliber y cyfranogwyr o'r radd flaenaf.

Fel rhan o Gynllun Llysgennad Eryri, fe gafwyd diwrnod hyfforddiant penodol ar Yr Wyddfa cyn y cyfnod clo ym Mhlas Tan y Bwlch ble cymhwysodd 19 o fusnesau lleol fel Arbenigwyr Ymweld â'r Wyddfa. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth am hanes Yr Wyddfa, iaith a diwylliant, cynefinoedd a ffermydd, yn ogystal â gwybodaeth am ddiogelwch. Ein gobaith yw trefnu mwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ochr yn ochr â'r ddarpariaeth ar-lein pan fydd hynny'n ddiogel a phriodol.

Mae'r cynllun hwn wedi ei anelu'n benodol at unigolion neu fusnesau yn y diwydiant twristiaeth o fewn y Parc Cenedlaethol, ond yn agored i unrhyw un â diddordeb.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei lansio fel rhan o lansiad Cynllun Eryri ar y 26^{ain} o Dachwedd, 2020.

EIN NEGES I CHI OUR TAKE HOME MESSAGE

Fe gasglodd gwirfoddolwyr dros
3,000 o boteli plastig ar Yr Wyddfa
y llynedd.

Volunteers cleared over 3,000
plastic bottles from Snowdon last
year.

BYDDWCH YN DDIOGEL

TROEDIWCH YN YSGAFN

BYDDWCH YN GAREDIG

BE SAFE

TREAD LIGHTLY

BE KIND

Partneriaeth Yr Wyddfa
Snowdon Partnership



Graffeg â ranwyd ar wefannau cymdeithasol Cymdeithas Eryri fel rhan o'r ymgyrch dros yr haf eleni.

YMGYRCH SBWRIEL – 2020 ymlaen

Dyma brosiect ar y cyd gyda Chymdeithas Eryri sydd yn cynnwys datblygu a chyflwyno negeseuon cydlynol, gweithredu'n ymarferol, a chynnal ymgyrchoedd i fynd i'r afael a'r broblem sbwriel ar Yr Wyddfa. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â'r problemau allweddol a amlygwyd yng Nghynllun Yr Wyddfa drwy weithredu sawl prosiect peilot. Un o'r prosiectau oedd ymgyrch ar wefannau cymdeithasol ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effeithiau negyddol sbwriel ar gynefinoedd Yr Wyddfa. Roedd y negeseuon yn cynnwys: effeithiau deunyddiau organig; atgoffa ymwelwyr fod Hafod Eryri wedi cau oherwydd y cyfyngiadau a bod angen 'mynd' cyn cychwyn; a'r nifer o oriau sy'n cael eu treulio gan wirfoddolwyr yn clirio sbwriel. Nôd y prosiect yw annog ymddygiad positif gan danlinellu hunan gyfrifoldeb dros wastraff/sbwriel.

> DYLETSWYDDAU CORFFORAETHOL

CAMAU GWEITHREDU WEDI EU NODI YNG NGHYNLLUN YR WYDDFA A CHYNLLUN ERYRI

Cynllun Yr Wyddfa

- Paratoi cynllun cyfathrebu ar gyfer Partneriaeth Yr Wyddfa

Cynllun Eryri

- B3.1. Datblygu strategaeth marchnata brand ar gyfer Eryri yn seiliedig ar y Rhinweddau Arbennig a'i gweithredu yn gyson ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat
- B3.2. Annog ymwelwyr i ddod ar wahanol amseroedd o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y cyfnod prysuraf ac er mwyn helpu busnesau i oresgyn anawsterau tymhorol
- B3.3. Defnyddio'r strategaeth marchnata fel man cychwyn, datblygu cynllun ar y cyd gyda phartneriaid ynghylch y wybodaeth yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid mewn ymddygiad

Cyflawnwyd gynllun cyfathrebu newydd ar gyfer y Bareneriaeth gan gwmni ymgysylltu Spencer David. Roedd y cynllun yn cynnwys; cyd destyn o ran yr amgylchedd a thueddiadau ymwelwyr, diffiniad o'r gynulleidfa darged, archwiliad o adnoddau Partner, yr heriau a'r ffordd ymlaen, technegu cyfathrebu arfaethedig a rhaglen waith. Rhai o'r argymhellion a gynigwyd oedd:

- Sefydlu porth gwe penodol gydag adrannau pwrpasol ar gyfer Partneriaid, rhanddeiliaid ac ymwelwyr sy'n cynnwys deunyddiau a gwybodaeth wedi ei deilwra ar gyfer pob grŵp
- Datblygu llw cymdeithasol a chyfleoedd i ymwelwyr dynnu llw trwy gofrestru eu manylion mewn man pwrpasol ar wefan y Bartneriaeth
- Cynnal diddordeb yn y Cynllun Llysgennad wedi'r lansiad, drwy gynnal tua 3 digwyddiad briffio yn ystod y flwyddyn
- Datblygu bas data o fusnesau yn yr ardal
- Adolygu'r angen am fwy o arwyddion yn ardal Yr Wyddfa ac ar Yr Wyddfa yn annog ymafrer da - treialu rhoi arwyddion i fyny dros dro i weld os ydi hynny'n gwneud gwahaniaeth
- Trefnu ymweliad i'r cyfryngau
- Cynnal teithiau tywys yn cynnwys gwybodaeth ar ymweliad cyfrifol

Oherwydd blaenoriaethau yn ymwneud â'r pandemig a'r Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth nid yw'r Bartneriaeth wedi trafod yr argymhellion rhain eto. Bwriedir i trafod yr argymhellion rhain yng nghyfarfod nesaf Partneriaeth Yr Wyddfa sydd i'w gynnal ym mis Ionawr.

Am gopi o'r Cynllun Cyfathrebu cysylltwch â Catrin Glyn – Catrin.Glyn@Eryri.llyw.cymru

> DYLETSWYDDAU CORFFORAETHOL

CAMAU GWEITHREDU WEDI EU NODI YNG NGHYNLLUN YR WYDDFA A CHYNLLUN ERYRI

Cynllun Yr Wyddfa

- Adnoddau defnyddwyr yn bodloni ac yn rhagori ar ddisgwyliadau ac anghenion ymwelwyr

Cynllun Eryri

- B4.2. Archwilio a sefydlu cyfleoedd
- B5.3. Llety o ansawdd uchel, yn gweddu i'r dirwedd, yn cwrdd â disgwyliadau a gofynion ymwelwyr ac yn helpu i gynyddu gwariant y pen edd i annog trafndiaeth fwy gwyrdd
- B5.1. Cyfleusterau ymwelwyr yn derbyn cyllid a buddsoddiad digonol i gyrraedd a gwella ar ddisgwyliadau ymwelwyr

Derbyniwyd £80 mil o gronfa TAIS (Tourism Amenity Investment Support) Croeso Cymru i ddatblygu prosiect fyddai'n gweithredu elfennau allweddol o Gynllun Yr Wyddfa drwy uwchraddio a moderneiddio isadeiledd hanfodol ar gyfer ymwelwyr yn yr ardal, gan arwain at wella profiad ymwelwyr yn sylweddol yn y prif faes parcio ar gyfer parcio a theithio i'r Wyddfa. Roedd hyn yn cynnwys uwchraddio cyfleusterau toiled; gosod cysgodfa solar pob tywydd newydd wedi'i hadeiladu'n grefftus fydd yn cyfosod deunyddiau traddodiadol â thechnoleg werdd fodern; a gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Nod y prosiect oedd gwella'r ymdeimlad o le, gan gynyddu cynladwyedd a gwella cyfleusterau ymwelwyr ar gyfer segmentau allweddol o'r farchnad.

Gwaith wedi'i gwblhau 2018 - 2019:

Cysgodfa bysus solar a mainc:

Fe gomisiynwyd Joe Roberts fel artist blaenllaw i ddylunio'r cynlluniau ac i gefnogi'r Bartneriaeth gyda'r gwaith. Fe gwblhawyd yr allbynnau canlynol:

- Datblygu themâu a chysyniad celf; Gwaith cychwynnol i ymchwilio'r ardal, datblygu themâu ar gyfer y gysgodfa a drafftio dyluniadau cysyniad
- Cynnal sesiwn galw heibio ar gyfer cymuned Nant Peris i gasglu adborth ar y cysyniadau
- Datblygu cynllun dylunio ac ymgynghori â APCE
- Cefnogi'r Cais Cynllunio
- Ar ôl sicrhau caniatâd cynllunio, datblygwyd fanyleb llawn ar gyfer adeiladu'r prosiect



Gwella cyfleusterau toiled presennol:

Adnewyddwyd tu mewn y cyfleusterau toiled yn llwyr, gan olygu toiledau hygyrch sydd ar gael 24 awr rhwng Ebrill a Thachwedd. Roedd y gwaith yn cynnwys cael gwared ar yr holl osodiadau a ffitiadau presennol, gosod llawr teils newydd a theilsio waliau i wneud cyfleusterau'n haws i'w glanhau a chynnal amodau glân i ddefnyddwyr. Gosodwyd sychwyr dwylo sy'n gweithio gyda goleuadau LED ac yn arbed ynni i leihau'r defnydd ynni ar y safle. Mae gorsaf ail-lenwi dŵr yfed ym mhob toiled i alluogi defnyddwyr i ail-lenwi poteli dŵr er mwyn lleihau dibyniaeth ar blastig.

Pwyntiau gwefru cerbydau trydan (EV):

Fe wnaethpwyd gwaith monitro ar y cyflenwad presennol gan gontractwr trydanol i ddarganfod maint y cyflenwad er mwyn adolygu os oedd y cyflenwad yn ddigonol ar gyfer pwynt gwefru EV. Sefydlwyd y byddai'r cyflenwad hwnnw'n cefnogi gwefrydd cyflym 7KW (gwefrydd 4 awr) allfa ddwbl (2 blwg). Mae diffyg signal ffôn symudol 3G / 4G ar gyfer y mwyafrif o'r rwydweithiau mawr yn gwneud y safle yn anaddas i ddefnyddio ffôn clyfar neu gerdyn apiau / cardiau clwb EV, felly daethpwyd o hyd i wefrydd EV sy'n galluogi talu'n ddigyswllt.

Oherwydd rhesymau allan o'n rheolaeth yn ymwneud â'r pandemig, ni fydd hi'n bosib cyflawni'r prosiect hwn o fewn y gyllideb a'r amserlen gaeth. Er hynny, mae Croeso Cymru yn agored i drafod gwario'r £40 mil sy'n weddill ar welliannau/gynlluniau perthnasol eraill sy'n fwy realistic. Mae'r trafodaethau ynglŷn â'r opsiynau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.



ARALL

GRŴP GWEITHREDU LLEOL (LLEOEDD) ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

Mae Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa yn cynrychioli'r Awdurdod ar Grŵp Gweithredu Lleol (Lleoedd) Arloesi Gwynedd Wledig.

PROSIECTAU ERAILL WEDI EI NODI YNG NGHYNLLUN YR WYDDFA I'W GWEITHREDU

- › Cynllun Dehongli ar gyfer Yr Wyddfa (arian wedi ei gadarnhau):
Caiff y cynllun hwn ei ddatblygu ar y cyd â'r Cynllun Dehongli Diwylliant sy'n cael ei ddatblygu'n fewnol, a'r model Twristiaeth Gynaliadwy sydd wedi ei amlinellu yng nghynllun cyfathrebu Partneriaeth Yr Wyddfa a'r Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth
- › Cylchdaith Yr Wyddfa
- › Gweithio gyda'r argymhellion o'r Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth a nifer o rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth i fwrw'r gwaith pwysig yma yn ei flaen
- › Datblygu cyfleoedd iechyd a lles trwy Grŵp Beth am Symud Gogledd Cymru
- › Datblygu ymgyrch newid ymddygiad yn ymwneud a sbwriel a pharchu ardal Yr Wyddfa i'w ymestyn i'r Parc Cenedlaethol i gyd
- › Arolwg dichonoldeb i wasanaethau ymwelwyr ym Mhen y Pass (arian wedi ei gadarnhau)
- › Gwasanaethau ymwelwyr i wneud mwy na diwallu anghenion a disgwyliadau ymwelwyr
- › Gweithio gyda partneriaid i ddatblygu brand ac annog defnydd a chynhyrchiant cynyrch lleol
- › Hwyluso a chefnogi unrhyw dirfeddianwyr sydd yn awyddus i dreialu cynlluniau gwasanaethau ecosystem ar Yr Wyddfa

EITEM RHIF 20

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	18 Tachwedd 2020
TEITL	STRATEGAETH ADNODDAU DYNOL 2017 - 2020: ADRODDIAD DIWEDDARU
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Personél
PWRPAS	Er Gwybodaeth

1.0 CEFNDIR

- 1.1 Cafodd y Strategaeth Adnoddau Dynol ar gyfer 2017 – 2020 ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 15 Tachwedd 2017.
- 1.2 Mae Adran 6 o'r Strategaeth Adnoddau Dynol yn nodi bod angen cyflwyno adroddiadau cynnydd am y Strategaeth a'i gweithrediad bob blwyddyn yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mhob blwyddyn ariannol.
- 1.3 Mae copi o'r Strategaeth Adnoddau Dynol ynghlwm yn Atodiad 1 â'r wybodaeth am gynnydd wedi'i hamlygu.

2.0 ARGYMHELLIAD

- 2.1 Nodi'r adroddiad diweddarau er gwybodaeth.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI



STRATEGAETH ADNODDAU DYNOL

2017 – 2020

Adolygwyd: Mehefin 2018
Adolygwyd: Mehefin 2019
Adolygwyd: Tachwedd 2020

Cynnwys

Tud.

1.	Cyflwyniad	3
2.	Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion yr Awdurdod	4
3.	Cefndir a Chyd-destun – Y Bobl sy'n gweithio yn yr Awdurdod	6
4.	Y Dylanwadau a'r Heriau Allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod	12
5.	Camau Gweithredu a Rhaglen Waith y Strategaeth AD	12
6.	Monitro cynnydd â'r camau gweithredu a'r rhaglen waith	18
7.	Goblygiadau o ran Adnoddau	18

1. Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn dilyn ymlaen o'r 2 flaenorol ac yn adeiladu ar yr hyn y mae'r Gwasanaeth Personél wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod hwnnw.

Unwaith eto, mae'n strategaeth tair blynedd, a fydd yn caniatáu hyblygrwydd wrth i ddylanwadau a heriau newid a datblygu.

Wrth ddatblygu'r strategaeth, mae'r Tîm Rheoli, y Penaethiaid Gwasanaeth, cynrychiolwyr yr undebau a'r Grwp Cynrychiolwyr Staff wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y cynnwys. Bydd yr Aelodau'n trafod y ddogfen yn ystod un o gyfarfodydd y Gweithgor Aelodau cyn i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ei fabwysiadu.

2. Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion yr Awdurdod

Gweledigaeth

Mabwysiadodd yr Awdurdod y weledigaeth ar gyfer y Parc ym mis Rhagfyr 2009 yn dilyn ymgynghoriad allanol helaeth gyda'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid allweddol. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc (yng Nghynllun Rheolaeth y Parc) wedi'i nodi isod:

Erbyn 2035, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirlun a warchodir, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Cyflenwir pwrpasau'r Parc Cenedlaethol trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid yn yr hinsawdd, wedi ei seilio ar adnoddau naturiol – nodweddion y tirlun, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy undod.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu datrysiadau arloesol mewn Byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr â'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol sy'n enwog yn rhyngwladol ac un o'r lleoedd i enaid gael llonydd.

Nodau ac Amcanion

Mae blaenoriaethau gwasanaethau yn sylfaen i'r weledigaeth, gydag Amcanion Llesiant a'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn sail i'r rheiny.

Daw'r Amcanion Llesiant o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y saith nod llesiant yw:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Amcanion Llesiant a'r Gweithgareddau Cyfatebol, a chrynodeb o'r modd y maent yn bodloni'r Nodau Llesiant yn ymddangos yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r rhain wedi'u seilio ar y penawdau a ganlyn:

Cyfathrebu

Cynlluniau a Pholisïau

Iechyd a Lles

Ymgysylltu â Phartneriaethau a Gwirfoddolwyr

Her Ariannol a Rheoli Perfformiad

Mae'r camau gweithredu yn y Strategaeth AD wedi'u cysylltu â'r uchod.

Mae'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018/19 yn nodi'r Amcanion Lles a'r Gweithgareddau Cyfatebol canlynol:

Ein Cymunedau
Ein Cynlluniau a'n Polisiâu
Iechyd a Lles
Pobl, Lleoedd a Phartneriaid
Cydbwysu ein hadnoddau a'n hymdrechion.

Mae'r Strategaeth Adnoddau Dynol a'r Rhaglen Waith (Adran 5) wedi eu hadolygu i adlewyrchu hyn.

3. Cefndir a Chyd-destun – y Bobl sy'n gweithio yn yr Awdurdod

Strwythur yr Awdurdod

Prif Weithredwr

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir


<ul style="list-style-type: none">Gweinyddol a Gofal Cwsmer	<ul style="list-style-type: none">Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth
<ul style="list-style-type: none">Cyllid	<ul style="list-style-type: none">Treftadaeth Ddiwylliannol
<ul style="list-style-type: none">Systemau Gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none">Cynllunio
<ul style="list-style-type: none">Cyfreithiol	<ul style="list-style-type: none">Wardeiniaid a Mynediad
<ul style="list-style-type: none">Personél	
<ul style="list-style-type: none">Plas Tan y Bwlch	
<ul style="list-style-type: none">Eiddo	
<ul style="list-style-type: none">Ymgysylltu	

Niferoedd Staff

Mae gan yr Awdurdod 115 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ac mae'n cyflogi 85 o bobl yn llawn amser a 63 o bobl yn rhan-amser (rhifau yn seiliedig ar 31.03.20).

Proffil Oed


O dan delerau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014, gall staff ymddeol o 55 oed os yw'r Awdurdod yn cytuno (â'r buddion pensiwn yn destun gostyngiad actiwaraid). Fodd bynnag, yr oedran ymddeol arferol yw'r oed pan fydd gan rywun hawl i bensiwn y wladwriaeth.



Dros 65	=	7
55 – 64	=	40
45 – 54	=	38
35 – 44	=	24
25 – 34	=	23
O dan 25	=	16

Dosbarthiad staff gwrywaidd / benywaidd trwy'r Cyfarwyddiaethau

Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad y staff gwrywaidd a benywaidd trwy'r cyfarwyddiaethau.



Mae'r tabl nesaf yn dangos dosbarthiad gwrywod a benywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract ar 31.03.2020 (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd gwahanol o fewn y graddfeydd):

		Patrwm Gwaith						Math o Gontract					
		Amser llawn		Rhan amser		Hyblyg		Parhaol		Dros Dro		Tymor Penodol	
Graddfa	Tâl/Awr	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G
IC	£7.70	0	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1
1	£9.00	0	0	10	2	0	0	4	1	6	1	0	0
2	£9.148	0	1	1	2	0	0	1	3	0	0	0	0
3	£9.55	0	1	12	4	0	0	12	5	0	0	0	0
4	£9.93	3	2	12	3	0	0	14	4	0	0	1	1
5	£10.97	2	8	3	1	0	1	5	10	0	0	0	0
6	£12.35	4	4	2	1	0	0	4	4	0	0	2	1
7	£13.99	6	13	3	0	0	1	6	11	0	0	3	3
8	£15.81	4	7	1	1	0	0	5	6	0	0	0	2
9	£17.04	2	5	0	1	1	1	3	5	0	0	0	1
10	£18.03	3	3	1	0	0	0	3	3	0	0	1	0
11	£19.11	3	1	1	0	0	0	4	1	0	0	0	0
12	£20.11	0	1	1	0	1	0	2	1	0	0	0	0
13	£21.13	1	3	0	0	0	0	1	3	0	0	0	0
Prif Swyddog - Cyfarwyddwr	£32.95	0	2	0	0	0	0	0	2	0	0	0	0
Prif Swyddog - Prif Weithredwr	£47.25	0	1	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0

Mae adroddiad monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gofyn i'r Bwlch Cyflog Rhyw gael ei asesu a'i fonitro'n flynyddol. Mae'r wybodaeth ganlynol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.2018:

Yn seiliedig ar gyfraddau canolrif fesul awr gosodwyd gwaelodlin gyda data ar gyfer 31.03.2012 fel y canlynol:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.61	£12.77	£12.77	Dim	£0.84
Rhan Amser	£8.00	£8.00	£8.00	Dim	Dim
Holl Staff	£12.77	£8.72	£9.91	£1.19	£4.05

Mae'r data ar gyfer 31.03.2018 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.45	£15.20	£13.45	Nil	Nil
Rhan Amser	£8.35	£9.21	£9.21	Nil	Nil
Holl Staff	£13.45	£10.43	£12.53	£2.10	£3.02

Mae'r data ar gyfer 31.03.2019 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.72	£15.50	£13.72	Nil	Nil
Rhan Amser	£9.01	£9.67	£9.01	Nil	Nil
Holl Staff	£13.72	£10.64	£11.97	£1.33	£3.08

Mae'r data ar gyfer 31.03.2020 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.99	£13.99	£13.99	Nil	Nil
Rhan Amser	£9.55	£9.74	£9.93	Nil	Nil
Holl Staff	£13.99	£9.93	£11.64	£1.71	£4.06

Mae'r ffigurau uchod wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r **CANOLRHIF (MEDIAN)**.

Mae Canllawiau ACAS ar Adrodd ar Dâl Rhyw yn nodi y gellir gwneud cyfrifiadau gan ddefnyddio dau fath o gyfartaledd:

- Mae cyfartaledd **cymedrig** yn cynnwys adio'r holl rifau a rhannu'r canlyniad â faint o rifau oedd ar y rhestr.
- Mae cyfartaledd **canolrif** yn cynnwys rhestru'r holl rifau yn nhrefn rhifiadol. Os oes odrif o ganlyniadau, y cyfartaledd canolrif yw'r rhif canol. Os oes eilrif o ganlyniadau, y canolrif fydd cymedr y ddau rif canolog.

Mae defnyddio'r ddau fath gwahanol hyn o gyfartaledd yn ddefnyddiol i roi trosolwg mwy cytbwys o fwloch cyflog cyffredinol cyflogwr:

- Mae cyfartaleddau cymedrig yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn gosod yr un gwerth ar bob rhif y maent yn ei ddefnyddio, gan roi arwydd cyffredinol da o'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau, ond gall cyfraddau tâl neu fonysau mawr neu fach iawn ddominyddu ac ystumio'r ateb. Er enghraifft, gall cyfartaleddau cymedrig fod yn ddefnyddiol mewn sefydliad lle mae mwyafrif helaeth y tâl bonws yn cael ei dderbyn gan nifer fach o aelodau bwrdd.
- Mae cyfartaleddau canolrif yn ddefnyddiol i nodi beth yw'r sefyllfa 'nodweddiadol' h.y. yng nghanol y sefydliad ac nid ydynt yn cael eu hystumio gan gyfraddau tâl mawr neu fach iawn o fonysau. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fydd pob mater bwloch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei godi. Er enghraifft, gallai cyfartaledd canolrif ddangos gwell arwydd o fwloch cyflog 'canol y ffordd' mewn clwb chwaraeon gyda chyfartaledd cymedrig wedi'i

ystumio gan chwaraewyr â chyflog uchel iawn ac aelodau bwrdd, ond gallai hefyd fethu â chodi mor effeithiol lle mae'r materion bwlich cyflog yn fwyaf amlwg ymhlith y gweithwyr ar y cyflog isaf neu'r cyflog uchaf.

Ethnigrwydd ac Anabledd

Yn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn bennaf ddisgyn i mewn i'r categori Gwyn Cymreig, a does dim un ohonynt yn hanu o unrhyw un o'r prif grwpiau ethnig eraill (cymysg, Asiaidd, Du neu Dsieineaid). Yn ei gyd-destun, mae hyn yn adlewyrchiad o'r cymunedau yn y Parc Cenedlaethol.

Mae canran y cyflogeion sy'n datgan eu bod yn anabl o dan delerau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn 1.3%

Absenoldeb Salwch

Mae'r tablau sy'n dilyn yn dangos gwir nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch a nifer y dyddiau a gollwyd fesul pob aelod o staff cyfwerth ag amser llawn fel yr adroddwyd yn erbyn dangosydd perfformiad cenedlaethol CHR/002.

Rheswm	Dyddiau Absenoldeb				
	2019/20	2018/19	2017/18	2016/17	2015/16
Absenoldeb Salwch (cyfanswm)	1340	1011	876	925	851
Absenoldeb tymor byr (llai na 2 wythnos)	272	385	397	412	543
Cyfnodau o 2 – 4 wythnos	124	132	65	141	144
Tymor hir (dros 4 wythnos)	944	494	414	372	164
Diwrnodau fesul staff cyfwerth ag amser llawn	11.5	8.9	7.2	8.17	7.24

Adroddir ynglŷn â gwybodaeth am salwch bob chwarter, a gwneir dadansoddiad mwy manwl bob blwyddyn. Mae'r Tîm Rheoli hefyd yn cael gwybodaeth am lefelau 'Bradford Factor' ar gyfer cyflogeion (dyma offeryn gwybodaeth rheoli sy'n tynnu sylw at absenoldeb tymor byr aml).

Dylid nodi, fel sefydliad bychan, pan fydd staff yn absennol o'r gwaith am gyfnodau estynedig, y gall hynny ystumio'r canlyniadau.

Trosiant Staff

Yn gyffredinol, mae cyfradd trosiant staff yn parhau i fod yn gyson ar wahân i flynyddoedd lle bu'r Awdurdod gyda gostyngiadau yn y gyllideb.

2015/16	8.85%	(12 o bobl)
2016/17	8.3%	(11 o bobl)
2017/18	5.2%	(7 o bobl)
2018/19	14.3%	(19 o bobl)
2019/20	7.4%	(10 o bobl)

4. Y Dylanwadau a'r Heriau Allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod

Cenedlaethol

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Rhaglen y Llywodraeth 2016-21 Symud Cymru Ymlaen
- Adroddiad Tirweddau'r Dyfodol
- Her ariannol

Lleol

- Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol – cefnogaeth gan bartneriaid / partneriaethau
- Cynllun Datblygu Lleol
- Angen gosod amcanion llesiant ar gyfer y 3 blynedd nesaf
- Defnyddio gwirfoddolwyr o wahanol ffynonellau e.e. Yr Ysgwrn, Partneriaeth Eryri
- Sefydlu cysylltiadau agos â'n cymunedau - gwrando ar eu hanghenion, cymunedau'n deall beth mae'r Parc Cenedlaethol yn ei wneud.

Materion sydd a wnelo â'r Gweithlu

Cyfredol

Oherwydd yr heriau ariannol a wynebwyd dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y staff a gyflogir gan yr Awdurdod wedi lleihau'n sylweddol. Mae hyn wedi arwain at bwysau ar y staff sy'n weddill i ddarparu'r un gwasanaeth, neu wasanaeth tebyg, gyda llai o swyddi / pobl.

Y Dyfodol

- Perthynas rhwng staff a gwirfoddolwyr ynghyd â rôl y staff i annog gwirfoddolwyr a gwirfoddoli

5. Camau Gweithredu a Rhaglen Waith y Strategaeth AD

Mae'r meysydd ar gyfer y Rhaglen Waith wedi'u halinio â'r Amcanion Llesiant y mae'r gweithgareddau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol wedi'u seilio arnynt.

Y bwriad yw i'r camau yn y Rhaglen Waith fod yn **CAMPUS** h.y.

Cyraeddadwy
Amserol
Mesuradwy
Priodol
Uchelgeisiol
Synhwyrol

Mae'r Swyddogion Arweiniol ar gyfer gweithredu hefyd wedi'u pennu.

Swyddogion Arweiniol

PP	Pennaeth Personél
TRh	Tîm Rheoli
PG	Penaethiaid Gwasanaeth
PG&GC	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
SC	Swyddog Cymunedol
PW	Prif Weithredwr

Nid yw'r rhestr o gamau yn gynhwysfawr ac ychwanegir ati yn adolygiad blynyddol y Strategaeth AD.

	Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur o Lwyddiant	Ein Cymunedau	Cynlluniau a Pholisiau	Iechyd a Lles	Pobl, Lleoedd a Phartneriaethau	Cydbwyo ein hadnoddau a'n ymdrechion
1.	Sicrhau bod staff yn cael eu gwerthuso bob blwyddyn ac y nodir eu hanghenion hyfforddiant 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP TRh PG	Erbyn Gorffennaf bob blwyddyn	% y gwerthusiadau a gynhelir Yn ystod y cyfnod hwn, gwerthuswyd 93% o'r staff. Cymerwyd camau ar gyfer 2018/19 i wella'r ffigwr yma. Yn ystod y cyfnod hwn, gwerthuswyd 74% o'r staff. Mae'r gostyngiad oherwydd swyddi gwag a newidiadau yn dilyn ail strwythuro. Yn ystod y cyfnod hwn, gwerthuswyd 75% o'r staff.					✓
2.	Arolygu staff am lefel bodlonrwydd â lefel yr arweiniad a'r gefnogaeth y maent yn ei chael gan eu rheolwyr llinell 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PG&GC	Ionawr bob blwyddyn	% y staff sy'n fodlon neu'n fodlon iawn Nododd 77% o staff a ymatebodd i'r arolwg yn ystod y cyfnod yma eu bod yn fodlon iawn neu'n fodlon o'r gefnogaeth. Nododd 85.4% o staff a ymatebodd i'r arolwg yn ystod y cyfnod yma eu bod yn fodlon iawn neu'n fodlon o'r gefnogaeth. Nododd 90% o staff a ymatebodd i'r arolwg yn ystod y cyfnod yma eu bod yn fodlon iawn neu'n fodlon o'r gefnogaeth.					✓
3.	Nodi unrhyw anghenion hyfforddiant i gefnogi staff perthnasol fel llysgenhadon 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP TRh PG	Erbyn Gorffennaf bob blwyddyn	% y gwerthusiadau a gynhelir Yn ystod y cyfnod hwn gwerthuswyd 93% o'r staff. Mae'r gwerthusiadau yn cael eu harchwilio am anghenion hyfforddiant. Yn ystod y cyfnod hwn gwerthuswyd 74% o'r staff. Mae'r gwerthusiadau yn cael eu harchwilio am anghenion hyfforddiant. Yn ystod y cyfnod hwn gwerthuswyd 75% o'r staff. Mae'r gwerthusiadau yn cael eu harchwilio am anghenion hyfforddiant.					✓

	Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur o Lwyddiant	Ein Cymunedau	Cynlluniau a Pholisïau	Iechyd a Lles	Pobl, Lleoedd a Phartneriaethau	Cydbwyo ein hadnoddau a'n ymdrechion
4.	Nodi hyfforddiant priodol i gefnogi staff perthnasol fel llysgenhadon os gwelir bod unrhyw anghenion hyfforddiant 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Erbyn Rhagfyr bob blwyddyn	Pennu hyfforddiant a'i ddarparu Yn ystod y cyfnod hwn gwerthuswyd 93% o'r staff. Mae'r gwerthusiadau yn cael eu harchwilio am anghenion hyfforddiant. Yn ystod y cyfnod hwn gwerthuswyd 74% o'r staff. Mae'r gwerthusiadau yn cael eu harchwilio am anghenion hyfforddiant. Yn ystod y cyfnod hwn gwerthuswyd 75% o'r staff. Mae'r gwerthusiadau yn cael eu harchwilio am anghenion hyfforddiant.					✓
5.	Datblygu / diwygio / adolygu polisïau / gweithdrefnau / canllawiau AD / Personél / Staff i wneud yn siŵr eu bod yn cefnogi gweledigaeth yr Awdurdod ac yn cynnig hyblygrwydd, eglurder ac yn addas i'r diben 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Parhaus	Polisïau / gweithdrefnau / canllawiau yn cael eu datblygu / diwygio / adolygu Camau parhaus Camau parhaus Camau parhaus	✓	✓	✓	✓	✓
6.	Hwyluso cyfarfodydd chwarterol y Grŵp Iechyd a Diogelwch 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Chwarterol	Cyfarfodydd yn cael eu trefnu, rhaglenni a nodiadau'n cael eu cynhyrchu Cyfarfodydd wedi eu cynnal yn chwarterol Cyfarfodydd wedi eu cynnal yn chwarterol Cyfarfodydd wedi eu cynnal yn chwarterol			✓		✓
7.	Staff fel gwirfoddolwyr ar gyfer cynllun Prosiectau'r Awdurdod 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	SC	Parhaus	Staff yn gwirfoddoli e.e. gwaith arolygu, helpu i glirio rhywogaethau ymledol ac ati Parhaus Parhaus Parhaus	✓		✓	✓	

	Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur o Lwyddiant	Ein Cymunedau	Cynlluniau a Pholisiau	Iechyd a Lles	Pobl, Lleoedd a Phartneriaethau	Cydbwyso ein hadnoddau a'n ymdrechion
8.	Hwyluso cyfarfodydd y Grŵp Cynrychiolwyr Staff (3 y flwyddyn) 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Parhaus	Cyfarfodydd yn cael eu trefnu, rhaglenni a nodiadau'n cael eu cynhyrchu Tri chyfarfod wedi'u cynnal Tri chyfarfod wedi'u cynnal <i>Tri chyfarfod wedi'u cynnal</i>	✓			✓	✓
9.	Bydd rheolwyr yn cyfathrebu'n effeithiol, rheolaidd, onest ac yn agored drwy, er enghraifft, gynnal gwerthusiadau, cyfarfodydd tîm a sesiynau un i un rheolaidd 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	Holl Reolwyr	Parhaus	Gwerthusiadau, cyfarfodydd tîm a sesiynau un i un Parhaus Parhaus <i>Parhaus</i>	✓				✓
10.	Hwyluso Diwrnod Datblygu Staff blynyddol 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Blynyddol	Cynhelir diwrnod datblygu staff <i>Ni chynhaliwyd ddiwrnod datblygu staff yn ystod y cyfnod yma</i> <i>Ni chynhaliwyd ddiwrnod datblygu staff yn ystod y cyfnod yma. Fodd bynnag, mae gwasanaethau unigol wedi ymgymryd a digwyddiadau tebyg.</i> <i>Ni chynhaliwyd ddiwrnod datblygu staff yn ystod y cyfnod yma. Fodd bynnag, mae gwasanaethau unigol wedi ymgymryd a digwyddiadau tebyg.</i>	✓		✓		
11.	Sefydlu tîm prosiect i benderfynu ar ein dull gweithredu o ran prentisiaethau 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	Tri PP	<i>Rhagfyr 2019</i>	Datblygir dull gweithredu o ran prentisiaethau, a chynllunnir unrhyw gamau i ddilyn Dim diweddariad hyd yma <i>Dim diweddariad hyd yma</i> <i>Dim diweddariad hyd yma</i>	✓	✓			✓

	Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur o Lwyddiant	Ein Cymunedau	Cynlluniau a Pholisiau	Iechyd a Lies	Pobl, Lleuedd a Phartneriaid	Cydbwyso ein hadnoddau a'n ymdrechion
12.	Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl i Reolwyr Llinell 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Mawrth 2018	Cynnal Cyrsiau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Dau sesiwn wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod yma <i>Trydydd sesiwn wedi ei gynnal</i> Dim sesiynau wedi eu cynnal yn ystod y cyfnod yma			✓		✓
13.	Hyrwyddo iechyd staff 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Rhagfyr 2019	Trefnu sesiynau galw heibio ar gyfer pwysedd gwaed, siwgr gwaed a cholesterol Dim diweddariad hyd yma Trefniadau mewn llaw i'w cynnal cyn diwedd Rhagfyr 2019 Dim diweddariad hyd yma			✓		
14.	Parhau i ganolbwyntio ar gydbwysedd bywyd a gwaith 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	TRh PP	Parhaus	Ystyried trefniadau gwaith hyblyg pellach Parhaus – ymdrin a cheisiadau unigol yn ôl y gofyn Parhaus Parhaus			✓		
15.	Gweithio ar y cyd ac ymgynghori â GMB ac UNSAIN 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	TRh PP	Parhaus	Perthnasau gwaith effeithiol Parhaus Parhaus Parhaus	✓	✓	✓	✓	✓
16.	Prif Weithredwr i gynnal cyfarfodydd i'r holl staff yn rheolaidd 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PW	Parhaus	Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd Parhaus Parhaus Parhaus	✓	✓			✓

	Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur o Lwyddiant	Ein Cymunedau	Cynlluniau a Pholisiau	Iechyd a Lles	Pobl, Lleuedd a Phartneriaid	Cydbwyso ein hadnoddau a'n ymdrechion
17.	Hyfforddiant priodol ar gyfer rheolwyr i gefnogi rheoli perfformiad a sicrhau y gweithredir yn gyson 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Rhagfyr 2018	Cynhelir hyfforddiant a chaiff cysondeb y dull gweithredu ei fonitro Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant gan ACAS ar ddelio gydag ymddygiad anodd Dim diweddariad hyd yma Dim diweddariad hyd yma	✓				✓
18.	Ymchwilio i gyfleoedd e-ddysgu ar gyfer rhai pynciau e.e. cydraddoldeb ac amrywiaeth, cyfarpar sgrin arddangos 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Rhagfyr 2018	Cynhelir hyfforddiant Mae'r Awdurdod wedi ymuno a'r grŵp o Barciau Cenedlaethol eraill sy'n defnyddio system ddysgu electronig 'Pwll Dysgu'. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod y misoedd nesaf. Mae staff wedi ymgymryd a'r modiwl RhDDC. Modiwlau pellach i'w datblygu Dim diweddariad hyd yma		✓	✓	✓	
19.	Adolygu trefniadau adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ynglŷn ag absenoldeb staff ac adroddiadau monitro iechyd a diogelwch blynyddol 2017/18 Diweddariad 2018/19 Diweddariad 2019/20 Diweddariad	PP	Gorffennaf 2018	Diwygir adroddiadau i ystyried sylwadau gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2017 Adroddiadau wedi eu paratoi yn unol â'r syniadau a wnaed. <i>Gweler adroddiad ar Absenoldebau Staff i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 24/07/2019.</i> Adroddiad ar Absenoldebau Staff i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18/11/2020.	✓	✓	✓		✓

6. Monitro cynnydd â'r camau gweithredu a'r rhaglen waith

Adroddir ar gynnydd yn flynyddol yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mhob blwyddyn ariannol.

Bydd camau pellach yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith fel sy'n briodol.

7. Goblygiadau o ran Adnoddau

Amser staff

Anghenion hyfforddiant

Mae nifer o faterion hyfforddiant, a bydd gofyn mynd i'r afael â hwy maes o law.

EITEM RHIF 21

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	18 Tachwedd 2020
TEITL	ABSENOLDEBAU STAFF 2019/20
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Personel
PWRPAS	Er Gwybodaeth

1.0 CEFNDIR

1.1 Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Gorffennaf fod y '*nifer y diwrnodau / shifftiau gwaith cyfwerth ag amser llawn (CALI) o weithwyr yr awdurdod a gollwyd oherwydd salwch*' yn 11.5 diwrnod.

1.2 Mae'r tabl isod yn darparu mwy o wybodaeth ar absenoldebau ar draws yr Awdurdod:

Rheswm	Dyddiau Absenoldeb				
	2019/20	2018/19	2017/18	2016/17	2015/16
Absenoldeb Salwch (cyfanswm)	1340	1011	876	925	851
Absenoldeb tymor byr (llai na 2 wythnos)	272	385	397	412	543
Cyfnodau o 2 – 4 wythnos	124	132	65	141	144
Tymor hir (dros 4 wythnos)	944	494	414	372	164
Dyddiau CALI	11.5	8.9	7.2	8.17	7.24

1.3 Mae'r tabl isod yn dangos rhywfaint o wybodaeth cymhariaethol o Barciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro.

Parc Cenedlaethol	Nifer y dyddiau gollwyd CALI trwy gyfrwng absenoldeb salwch	% absenoldeb salwch CALI
Bannau Brycheiniog	7	2.69%
Arfordir Penfro	8.63	4%
Eryri	11.5	5%

2.0 ABSENOLDEBAU A THUEDDIADAU OHERWYDD SALWCH

2.1 Yn ystod y drafodaeth flaenorol o'r adroddiad blynyddol yma, gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion am absenoldebau a thueddiadau oherwydd salwch. Mae'r adroddiad am 2017/18 yn dangos y dadansoddiad yn erbyn Dosbarthiadau Absenoldebau oherwydd Salwch.

2.2 Dadansoddwyd y data ar gyfer 2017/18 ac mae hyn wedi sefydlu llinell sylfaen. Mae gwybodaeth ar gyfer 2019/20 wedi'i hychwanegu ar ddibenion cymharu, a gellir ei gweld yn Atodiad 1.

3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

Atodiad 1

Categori	2018/19		2018/19		2017/18	
	Nifer o ddyddiau	% o'r cyfanswm absenoldeb	Nifer o ddyddiau	% o'r cyfanswm absenoldeb	Nifer o ddyddiau	% o'r cyfanswm absenoldeb
Pryder / straen / iselder / salwch seiciatryddol eraill	476	35.5%	295	29.2%	170	19%
Problemau cefn	158	11.8%	37.5	3.7%	175	20%
Problemau cyhyrsgerberbydol eraill - (Ac eithrio problemau cefn - cynnwys problemau gwddf)			39	3.8%	60	7%
Annwyd, Peswch, Ffliw	129	9.6%	110.5	11%	103	12%
Asthma	18	1.3%	14	1.4%	1	0.1%
Problemau gyda'r frest a phroblemau anadlol - (ac eithrio problemau trwynol a'r gwddf, asthma, annwyd, peswch, ffliw)					10	1%
Cur pen / meigrin	20	1.5%	25	2.5%	27	3%
Tiwmorau anfaalen a malignus	10	0.75%				
Anhwylderau gwaed (ee anemia)						
Problemau calon, cardiaidd a cylchredol	18	1.3%	55	5.5%		
Llosgiadau, gwenwyno, llosg eira, hypothermia						
Clust, trwyn, gwddf	37	2.7%	27.5	2.7%	43	5%
Problemau deintyddol a llafar					1	0.1%
Problemau llygaid	74	5.5%	83	8.2%	1	0.1%
Problemau endocrin / glandiwlar (ee clefyd siwgr, thyroid, problemau metabolig)						
Problemau gastroberfeddol (ee poen yn yr abdomen, gastro-enteritis, chwydu, dolur rhydd) - eithrio problemau deintyddol a llafar	60	4.4%	123	12.2%	101	12%
Anhwylderau geniwrinol a gynaeolegol - ac eithrio anhwylderau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd						
Clefydau heintus					5	0.5%
Anaf, torri asgwrn	54	4.0%	14.5	1.4%		
Anhwylderau'r system nerfol						
Anhwylderau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd	9	0.7%			25	3%
Anhwylderau'r croen						
Camddefnyddio sylweddau						
Achosion hysbys eraill – nad ydynt wedi'u dosbarthu mewn mannau eraill	227	16.9%	114	11.2%	50	6%
Achosion anhysbys / heb eu nodi	50	3.7%	73	7.2%	104	11.2%
CYFANSWM	1340		1011		876	

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	18 Tachwedd 2020
TEITL	ADRODDIAD MONITRO IECHYD A DIOGELWCH BLYNYDDOL 2019/20
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Personél
PWRPAS	Er Gwybodaeth

1.0 CEFNDIR

- 1.1 Mae'r awdurdod wedi mabwysiadu Polisi Iechyd a Diogelwch yn flaenorol. Mae hyn yn nodi cyfrifoldebau a swyddogaethau Iechyd a Diogelwch ar gyfer rheolwyr a staff. Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch ac mae unrhyw ddiwygiadau yn cael eu cadarnhau gan y Tîm Rheoli.
- 1.2 Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod yn chwarterol. Caiff y Grŵp ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar ran y Tîm Rheoli ac mae'n cael ei gydlynu a'i weinyddu gan y Gwasanaeth Personél.

Aelodau presennol y Grŵp yw:
 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
 Pennaeth Personél
 Pennaeth Busnes - Plas Tan y Bwlch
 Pennaeth Wardeinio
 Uwch Warden
 Pennaeth Eiddo
 Uwch Swyddog Cynllunio - Rheolaeth Datblygu
 Pennaeth Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth
 Swyddog Coed a Choedlannau

Mae Swyddogion eraill yn adrodd i / yn mynychu'r Grŵp yn ôl yr angen. Er enghraifft, Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer, Pennaeth Ymgysylltu.

- 1.3 Mae Iechyd a Diogelwch hefyd yn cael ei gynnwys yng nghylch gwaith y Cyd Weithgor Lleol gyda'r Undebau Llafur a minnau yn adrodd fel y bo'n briodol.
- 1.4 Mae eitem safonol ar raglen cyfarfodydd y Tîm Rheoli lle y gellir codi unrhyw faterion.

2.0 HYFFORDDIANT

2.1 Mae'r hyfforddiant lechyd a Diogelwch perthnasol yn ystod y cyfnod hwn wedi cynnwys:

Hyfforddiant Gorfodol

- Cymorth Cyntaf yn y Gweithle
- Cymorth Cyntaf Argyfwng ar gyfer pobl awyr agored (Gofal Brys Achub)
- Llif gadwyn - Sylfaenol ac Adnewyddu
- Llif gadwyn - Coed Canolig eu Maint a Rhai wedi Chwythu Drosodd
- Prys-g-dorrwr / Strimmer
- Tocio gyda Pholyn ddelir â llaw

Hyfforddiant Dymunol

- IOSH
- Gweithio'n Ddiogel (IOSH)
- Rheoli lechyd a Diogelwch
- Asesiad Risg
- Marsial Tan

3.0 YMCHWILIO I DDIGWYDDIADAU

3.1 Mae'r dadansoddiad o'r digwyddiadau / damweiniau a adroddwyd yn dangos bod 13 o achosion wedi cael eu hadrodd.

2019/20	2018/19	2017/18	2016/17	2015/16
13	7	7	14	22

3.2 Adroddwyd ar un digwyddiad i'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch o dan y 'Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) '.

4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.



**BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH
DYDD MERCHER 1 GORFFENNAF 2020**

	<p><u>Presennol:</u></p> <p>Aelodau: Cyng. Freya Bentham Mr. Neil Martinson (Cadeirydd) Ms. Tracey Evans Mr. Emyr Williams Mr. Iwan Jones Mr. Andrew Oughton</p> <p>Yn bresennol (ex officio): Cyng. Wyn Ellis Jones Mr. Owain Wyn</p> <p>Swyddogion: Mr. Dafydd Edwards, Mr. Emyr Roberts, Mrs. Jo Worrall, Mrs Anwen Gaffey, Mrs Sarah Roberts.</p>
1.	<p>Ymddiheuriadau</p> <p>Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.</p>
2.	<p>Datgan Budd</p> <p>Datganodd Mr. A. Oughton fudd yn eitem 5 ar y Rhaglen ac aeth allan o'r cyfarfod tra bo'r mater yn cael ei drafod.</p>
3.	<p>Cofnodion</p> <p>Derbyniwyd cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2020, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.</p>
4.	<p>Busnes y Dyfodol</p> <p>Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y gofynnir i'r Bwrdd Rheoli drafod a chytuno ar opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch a fyddai wedyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2020.</p> <p>Cyflwynodd y Pennaeth Busnes ei adroddiad yn amlinellu manylion potensial ac opsiynau busnes yn y dyfodol. Dywedodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyddiad i fusnesau sy'n darparu llety preswyl, fel Plas, ar gyfer ailagor, er bod Croeso Cymru wedi awgrymu y gellid cymryd archebion o'r 26ain Medi 2020 ymlaen.</p> <p>Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes ei fod wedi derbyn arweiniad Llywodraeth Cymru yn ddiweddar iawn ar gyfer "<i>Busnesau twristiaeth a lletygarwch: arweiniad ar gyfer ailagor fesul cam</i>" ac wedi cael cipgolwg ar y ddogfen, dywedodd ei bod yn gosod gofynion beichus ar fusnesau..</p>

	<p>Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion gyfleoedd busnes posibl yn y dyfodol ac ystyried pob maes gwaith yn fanwl. Trafododd yr aelodau hefyd y gostyngiad disgwylidig o 75% mewn incwm ar gyfer 2020/21 yn ogystal â'r gostyngiad disgwylidig o 50% yn incwm cwrs ar gyfer 2021/2022.</p> <p>Yn codi ar hynny,</p> <ul style="list-style-type: none"> - gofynnwyd i'r Pennaeth Busnes pa mor hyderus ydoedd y gallai Plas gyflawni 50% o incwm cwrs yn 2021/2022. Dywedodd fod y ffigurau a ddarparwyd yn seiliedig ar ragolygon busnes o'r Pasg 2021 ymlaen, pan ddisgwylid i archebion grŵp ddychwelyd i lefelau arferol ond gyda gostyngiad mewn presenoldeb ar gyrsiau yn y dyfodol. - trafodwyd cost ychwanegol cwrdd â gofynion chanllawiau Llywodraeth Cymru hefyd. Ni chafwyd unrhyw arwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai'r cyfyngiadau pellter cymdeithasol 2 fetr yn cael eu llacio ac roedd hyn yn creu problemau capasiti nyny Plas. Roedd gan y Ganolfan uchafswm o 23 ystafell wely en-suite ar gael, ni ellid defnyddio'r Annecs mwyach, a dim ond tua 20 o westeion y gallai'r ystafell fwyta ddarparu ar eu cyfer. - trafodwyd yr ailddatblygiad arfaethedig a dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr arian yn ei le a'r broses dendro ar y gweill. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes ei fod yn aros am hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ar y cais cynllunio a disgwylir hynny heddiw. Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion fod rhai agweddau ar yr ailddatblygiad, megis llety'r hostel a'r cynnig ystafell wely moethus yn feysydd yr oedd angen eu hailystyried pe bai'r gwaith yn mynd yn ei flaen. - cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod y pensaer wedi amcangyfrif amserlen o 12 wythnos o'r dechrau i'r diwedd i gwblhau'r gwaith adeiladu a'r adnewyddu. <p>PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.</p>
5.	<p>Adroddiad ar Amcangost yr opsiynau sy'n ymwneud â Phlas Tan y Bwlch</p>
	<p>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad, i'w ystyried ar y cyd â'r adroddiad gan y Pennaeth Busnes ar incwm y dyfodol. Bydd yr adroddiadau yn rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd ffurfio argymhellion i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.</p> <p>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Trafododd yr aelodau sut roedd Plas Tan y Bwlch wedi methu â chyrraedd ei darged incwm dros y pum mlynedd diwethaf a nodwyd hefyd y diffyg net a ragwelir dros y ddwy flynedd nesaf, yn seiliedig ar y model busnes cyfredol. - dywedwyd wrth y Bwrdd fod yr Awdurdod yn dal i aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch a fyddent yn darparu cymorth ariannol i dalu am ryw faint o'r golled mewn incwm masnachol neu'r cyfan ohono. - Trafododd yr aelodau yn fanwl a ddylid argymhell y dylai'r Awdurdod fwrw ymlaen â'r ailddatblygiad arfaethedig ac a fyddai Grant Llywodraeth Cymru o £229,000 o dan risg o gael ei adfachu yn y dyfodol. - gofynnodd y Bwrdd i Swyddogion ofyn am sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn hyblyg pe bai'r Awdurdod yn penderfynu ail bwrpasu Plas Tan y Bwlch rywbryd yn y dyfodol.

- Roedd yr aelodau o'r farn bod hwn yn gyfle i gyflawni'r gwaith ailddatblygu, a chynyddu gwerth yr adeilad. Roedd yn gwneud synnwyr busnes a byddai hefyd yn caniatáu i'r Awdurdod newid y model busnes fel y mae, ac ailasesu'r set sgiliau sydd ei hangen yn y Plas ar gyfer y dyfodol. Byddai parhau â'r ailddatblygiad hefyd yn diogelu'r adeilad rhestredig Gradd II.
- trafododd y Bwrdd nifer o opsiynau ar gyfer y dyfodol a oedd yn cynnwys:-
 - parhau gyda'r model busnes fel y mae a hefyd ar lefel lawer is.
 - rhewi y Ganolfan (cau'r ganolfan dros dro) tan ddiwedd y pandemig.
 - ailgyflunio'r tŷ ar gyfer gwesteion gwely a brecwast i fanteisio ar y cynnydd a ragwelir ymysg trigolion y DU yn cymryd gwyliau 'adref'
- darparodd y Pennaeth Cyllid fanylion ffrydiau incwm cyfredol, sy'n cynnwys rhent o siale a mast wedi'i leoli ar y tir, incwm o'r Cynllun Hydro, ad-daliadau mewnol ac yn seiliedig ar bris o £65 y noson ar gyfer gwesteion gwely a brecwast, gyda model busnes llawer llai, gallai o bosibl ganiatáu i'r Ganolfan adennill costau. Nid oedd yr amcangyfrifon hyn yn cynnwys costau ychwanegol glanweithwyr, sgriniau, PPE ac ati, i leihau'r risg o Cofid yn y Ganolfan.
- Nododd yr aelodau, er bod gan Blas Tan y Bwlch gyllid tan ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd hyn ar sail Plas yn cynhyrchu incwm ar lefelau cyn Cofid-19. Yn unol â hynny, pe na bai'r cais am arian ychwanegol yn llwyddiant, byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn. O ystyried yr uchod, roedd y Bwrdd yn gyffredinol yn cefnogi sefydlu model busnes symlach a fyddai'n bwydo i mewn i agenda'r Awdurdod ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc a gwirfoddolwyr.
- cytunodd y Bwrdd y dylai'r Awdurdod, o dan yr amgylchiadau presennol ac o ystyried nifer y staff a allai gael eu heffeithio, ddechrau'r broses o ymgynghori'n ffurfiol â'r staff a'r Undebau Llafur ar ddyfodol y Ganolfan.
- cyfeiriodd y Prif Swyddog Cyllid at y ffigurau yn nhablau 2 a 3 yr adroddiad a oedd yn atgyfnerthu'r angen i'r Awdurdod ail-werthuso dyfodol Plas Tan y Bwlch. Teimlai nad hwn oedd yr amser i ystyried cael gwared ar unrhyw asedau ac y byddai rhewi'r ganolfan yn rhannol yn caniatáu i Plas barhau i weithredu. Hefyd, wrth i adnewyddiadau gael eu gwneud, byddai hyn yn darparu diogelwch ar gyfer yr Adeilad Rhestredig Gradd II. Teimlai fod grant Llywodraeth Cymru yn eithaf hael yn ddarostyngedig nad oedd unrhyw amodau caeth ynghlwm iddo.
- Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd Plas Tan y Bwlch, a oedd yn cefnogi ail bwrpas yr Awdurdod, yn gwneud defnydd da o adnoddau. Roedd y Ganolfan wedi costio dros £1.5 miliwn i'r Awdurdod dros y 6 blynedd diwethaf.
- Roedd yr aelodau'n hapus i ystyried amrywiaeth o wahanol opsiynau ar gyfer y Ganolfan, ond cytunwyd bod y model busnes cyfredol wedi dod i ben erbyn hyn.
- roedd y Bwrdd yn pryderu bod cofnodion Plas Tan y Bwlch dros nifer o flynyddoedd wedi cofnodi addewidion uchelgeisiol a than-gyflawni, ac nad oedd yr adroddiadau erioed wedi bod yn ddigon manwl i'r Bwrdd wneud penderfyniadau gwybodus.
- nid oes gan y Parc Cenedlaethol fel Awdurdod yr arbenigedd i lwyddo yn y sector busnes gwestai. Yn gyffredinol, mae busnesau gwestai llwyddiannus yn rhan o grwpiau mwy yn hytrach nag endidau annibynnol.

- Trafododd yr aelodau incwm Awdurdodau Lleol yn y dyfodol, a fyddai, fwy na thebyg yn cael ei leihau, ac ystyried faint mae Plas Tan y Bwlch yn ei gyfrannu at ail bwrpas yr Awdurdod a'i fod yn bennaf yn draenio adnoddau o weithgareddau eraill.
- Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a fyddent yn barod i fuddsoddi eu harian eu hunain ym Mhlas Tan y Bwlch, gan gofio ei bod yn debygol y byddai'r referniw hefyd yn gostwng.
- cytunodd y Bwrdd nad oedd y sefyllfa bresennol yn gynaliadwy ac y byddai'r cyfnod ymgynghori o 3 mis yn caniatáu amser i'r Awdurdod benderfynu sut i symud ymlaen yn y tymor canolig.

PENDERFYNWYD

- 1. yn ddarostyngedig y cadarnheir hyblygrwydd Llywodraeth Cymru o ran defnyddio'r grant, i argymhell y dylai'r Awdurdod barhau â'r gwaith ailddatblygu arfaethedig dros fisoedd yr haf.**
- 2. argymhell y dylai'r Awdurdod ddechrau'r broses o gynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda staff ac Undebau Llafur ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.**
- 3. cynghori'r Awdurdod bod adroddiad yn amlinellu gwahanol fodelau busnes, ac fe fyddai ffyrdd amgen ymlaen ar gyfer Plas Tan y Bwlch yn cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 23 Medi 2020.**
- 4. os yw'n ymarferol, sefydlu model busnes symlach ar gyfer Plas Tan y Bwlch yn y tymor byr.**

Daeth y cyfarfod i ben am 15:40



**BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH
DYDD MERCHER 19eg AWST 2020**

	<p><u>Presennol:</u></p> <p>Aelodau: Mr. Neil Martinson (Cadeirydd) Ms. Tracey Evans Mr. Emyr Williams Mr. Iwan Jones Mr. Andrew Oughton</p> <p>Yn bresennol (ex officio): Cyng. Elwyn Edwards, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Wyn Ellis Jones Mr. Owain Wyn</p> <p>Swyddogion: Mr. Dafydd Edwards, Mrs. Jo Worrall, Ms. Bethan Hughes, Mrs Sarah Roberts.</p>
1.	Ymddiheuriadau
	Cyng. Freya Bentham.
2.	Datgan Budd
	<p>Cyhoeddodd Mr. A. Oughton ddi-ddordeb yn Eitem 6 ar yr Agenda a gadawodd y cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod.</p> <p>Cyhoeddodd Mrs S. Roberts ddi-ddordeb yn Eitem 5 ar yr Agenda ond arhosodd yn y cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod.</p>
3.	Cofnodion
	<p>Derbyniwyd cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2020, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.</p> <p>Yn codi yn sgil hynny, <u>Eitem 4. Busnes yn y Dyfodol</u> Gofynnodd Aelod pam nad oedd Plas wedi gallu ailagor i ddarparu llety a theimlai fod hwn yn gyfle a gollwyd gan ei bod bron yn amhosibl archebu llety yn yr ardal hyd at fis Hydref 2020. Dywedodd y Pennaeth Busnes, wedi i ymarfer costio gael ei gyflawni, nad oedd yn gost-efeithiol i ailagor yr ystafell de na ddarparu llety Gwely a Brechwast, hefyd ni ellid cynhyrchu digon o incwm i gyfiawnhau tynnu staff oddi ar y cynllun seibiant.</p>

	<p><u>Eitem 5 - Adroddiad ar Amcangyfrif o Gost yr Opsiynau sy'n ymwneud â Phlas Tan y Bwlch</u></p> <p>Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn hyblyg gyda'r grant hyd yn oed pe bai'r Awdurdod yn cytuno i sefydlu partneriaeth â Sefydliad arall ond dywedodd na fyddai'r Awdurdod yn awdurdodi'r buddsoddiad ar hyn o bryd.</p> <p>Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y gwaith ailddatblygu ar y Prif Dŷ a'r Adain. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y tendrau ar gyfer y gwaith ailddatblygu wedi dod yn ôl a bod y gost yn uwch na'r disgwyl ond bod y pensaer yn hyderus y gallai llawer iawn o'r gwaith gael ei wneud o fewn y cyllid grant.</p> <p>Trafododd yr aelodau a ellid ymestyn yr amserlen ar gyfer y tendrau am gyfnod pellach i ganiatáu mwy o amser. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd penderfyniad wedi'i wneud oherwydd trafodaethau a oedd yn digwydd gyda darpar bartneriaid ac ati.</p>
4.	<p>Ymatebion Staff i'r Ymgynghoriad Ffurfiol ar Ddyfodol Plas Tan y Bwlch</p>
	<p>Cyflwynodd y Pennaeth Personél yr adroddiad i Aelodau'r Bwrdd a rhoi cefndir i'r Aelodau. Diolchodd y Pennaeth Personél i staff Plas Tan Y Bwlch am anfon eu sylwadau ac i'r cyfieithwyr am weithio o fewn terfyn amser tynn iawn. Gofynnodd y Pennaeth Personél i'r Aelodau nodi cynnwys Atodiad 1 a rhoi amlinelliad o'r sylwadau staff a dderbyniwyd i'r Aelodau.</p> <p>Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - diolch i'r staff am gyflwyno eu hymatebion mewn amgylchiadau a oedd yn anodd iawn. - Cododd yr aelodau bryderon ynghylch iechyd a lles staff. Dywedodd y Pennaeth Busnes fod iechyd a lles pob aelod o staff yn bryder sylweddol a'i fod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r staff. - roedd Aelod yn pryderu y gallai rhai o'r ymatebion a dderbyniwyd gan staff fod wedi'u diwygio. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Personél fod yr ymatebion fel ag yr oeddynt wedi'u derbyn gan staff. Cytunodd swyddogion i ymchwilio i'r mater ymhellach. - Roedd yr aelodau'n teimlo nad oedd Plas wedi cael sylw digonol dros nifer o flynyddoedd - Roedd yr aelodau'n poeni am y nifer isel o ysgolion a oedd yn mynychu Plas gan ystyried bod 1,300 o ysgolion yng Nghymru, trafododd yr aelodau a oedd Plas yn cael ei farchnata'n effeithiol er mwyn annog mwy o ysgolion i ddefnyddio'r Ganolfan. Trafododd yr aelodau hefyd a wnaed rhyw fath o werthusiad o'r ddarpariaeth addysg yn y Plas. Teimlai'r Prif Weithredwr fod dod o hyd i ffordd addas o ymgysylltu ag adroddiad Donaldson yn rhywbeth y dylid ei ystyried - Nododd yr aelodau rwystredigaeth gan staff ynghylch yr ymdeimlad o esgeulustod a deimlwyd yn y Plas ac nad oedd unrhyw syniadau i gynhyrchu incwm ychwanegol wedi cael ystyriaeth briodol. - Cytunodd yr aelodau fod gormod o wrthdaro o ran y defnydd a wneir o'r Plas. - Teimlai'r aelodau fod ymgysylltu da â staff yn fuddiol o dan amgylchiadau o'r fath a bod yn rhaid i'r rhesymau dros beidio ag ailagor gael eu cyfleu i staff mewn ffordd onest. - nid oes gan yr Awdurdod yr arbenigedd i redeg canolfan fasnachol, roedd busnesau eraill yn llawer mwy effeithlon na'r Awdurdod.

	<ul style="list-style-type: none"> - Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion bwysigrwydd gwasanaethu pwrpasau'r Awdurdod a'r ffyrdd y gellir eu cyflawni. - Trafododd yr aelodau'r incwm a gynhyrchwyd o du ysgolion a chytunwyd nad oedd yn cynhyrchu elw digonol i'r Plas. <p>PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau a dderbyniwyd gan staff.</p>
5.	<p>Cwmpasu Senarios / Costiadau Senarios Gwahanol ar gyfer Dyfodol Busnes Plas Tan y Bwlch</p> <p>Rhoddodd y Prif Weithredwr y cefndir i'r Aelodau a chynghorodd fod yr adroddiad yn gyfle i Aelodau'r Bwrdd drafod a chytuno ar yr opsiynau i wneud gwaith pellach arnynt cyn gwneud argymhelliad ffurfiol i'r Awdurdod.</p> <p>Rhoddodd y Pennaeth Busnes esboniad pellach i'r Bwrdd ar ffigurau a dywedodd mai rhain oedd y ffigurau mwyaf cyfredol.</p> <p>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a phob senario yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Trafododd yr aelodau'r ffigurau gan bryderu eu bod yn wahanol i'r ffigurau a ddarparwyd yn yr adroddiad diwethaf. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod y ffigurau bellach yn cynnwys costau rhoi'r staff ar y cynllun seibiant. - Roedd yr aelodau'n poeni faint o gymorth ariannol a fyddai'n cael ei roi gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y byddai cymorth ariannol ar gael ar gyfer yr ail chwarter ond dywedodd fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y sefyllfa ariannol hirdymor. - Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i aelodau'r Bwrdd ystyried lefel y risg yr oeddent hwy fel Aelodau / fel Awdurdod yn barod i'w chymryd. - Trafododd yr aelodau a ddylid symud ymlaen gyda'r gwaith ailddatblygu yn y Plas ar hyn o bryd oherwydd trafodaeth barhaus gyda darpar bartneriaid ac ati. - Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y ffigurau a chytuno ei bod yn anodd iawn i'r Bwrdd wneud penderfyniad hyddysg, gan nad oedd y ffigurau a ddarparwyd yn rhoi digon o wybodaeth. - Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion y gallai parhau â'r opsiwn o fusnes fel arfer wneud y sefyllfa'n waeth o lawer. - Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol esboniad pellach ar Opsiwn 2 o'r senarios. - Trafododd yr aelodau'r newidiadau yng nghwricwlwm yr ysgol ac ystyried a fyddai gan y Plas y gallu i barhau ag Addysg fel darpariaeth yn y dyfodol. - Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion fod angen i'r Plas barhau i weithredu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd am y tro. - Trafododd yr aelodau'r opsiynau a chytuno i wneud gwaith pellach ar Opsiynau 2, 3 a 4. <p>-</p> <p>PENDERFYNWYD</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. nodi'r adroddiad. 2. Swyddogion i bennu'r ffordd orau i ganiatáu i'r Plas ailagor gyda llai o gost a gweithgaredd cyn gynted â phosibl. 3. Swyddogion i wneud gwaith pellach ar opsiynau 2, 3 a 4 ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf o Fwrdd Plas Tan y Bwlch ym mis Medi. 4. aros am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch.

<p>6.</p>	<p>Opsiynau partneriaeth, prydlesu, rhentu, gwaredu.</p> <p>Cynghorodd y Prif Weithredwr yr Aelodau ar y sefydliadau a oedd wedi mynegi diddordeb mewn dod yn bartner gyda'r Awdurdod. Roedd y Prif Weithredwr wedi darparu'r wybodaeth ariannol berthnasol i'r Plas i bob sefydliad.</p> <p>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Trafododd yr aelodau ddarpar bartneriaid ac ystyried a fyddai partner mwy masnachol yn opsiwn mwy ffafriol. Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion ynghylch chwilio am ddarpar bartneriaid pellach er mwyn peidio â bod yn rhy gyfyngedig. - Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai unrhyw ddarpar bartner eisiau gweld Plas yn parhau i weithredu am gyfnod cyn ffurfio partneriaeth bosibl gyda'r Awdurdod. Cytunodd yr aelodau y dylai'r Awdurdod hefyd gael cyfle i edrych ar gyfrifon / ffigurau ariannol unrhyw bartner posib. - Trafododd yr aelodau'r broses ar gyfer ffurfio partneriaeth a'r amserlenni posibl ar gyfer proses o'r fath. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai matrices sgorio yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob darpar bartner ond na fyddai unrhyw benderfyniadau ffurfiol yn cael eu gwneud tan ar ôl cyfarfod yr Awdurdod ar 23 Medi 2020. - roedd Aelod yn teimlo bod Plas yn adeilad eiconig a bod cadw ethos Cymreig adeilad o'r fath yn bwysig. - Roedd yr aelodau'n teimlo bod angen i ffigurau incwm a gwariant fod yn gliriach. - Teimlai'r aelodau y byddai'n fuddiol i'r Bwrdd drefnu cyfarfod pellach i drafod yr opsiynau ymhellach cyn ffurfio unrhyw argymhellion i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch. - Trafododd yr aelodau sut y gallai Plas ailagor cyn gynted â phosibl. - Gofynnodd yr aelodau a allai swyddog o'r Pencadlys arwain wrth symud Plas ymlaen dros y tymor byr. Cynghorodd y Prif Weithredwr ar drafodaeth ddiweddar gyda Swyddogion perthnasol ond cadarnhaodd nad oedd hyn yn bosibl oherwydd ymrwymadau gwaith eraill. <p>PENDERFYNWYD</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. nodi'r adroddiad. 2. y Prif Weithredwr i barhau â thrafodaethau parhaus gyda phartneriaid posibl ac i geisio partner mwy masnachol. 3. i Swyddogion a chadeiryddion perthnasol gael trafodaethau parhaus ar y ffordd ymlaen. 4. aros am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch
<p>7.</p>	<p>Casgliadau a gwaith pellach</p> <p>Cytunodd yr aelodau y byddai Swyddogion yn gwneud gwaith pellach ar opsiynau 2, 3 a 4 hyd nes y byddai datblygiadau ar bartneriaethau posib.</p> <p>Yn codi yn sgil hynny, pe na bai'r opsiynau a amlinellwyd yn llwyddiannus, yna byddai angen symud ymlaen gydag opsiynau 5 a 6.</p> <p>Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion y dylai Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch gwrdd ddechrau mis Medi cyn llunio argymhellion i'r Awdurdod.</p> <p>PENDERFYNWYD:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. i Swyddogion wneud gwaith pellach ar Opsiynau 2, 3 a 4.

	<p>2. bod cyfarfod pellach o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch yn cael ei drefnu ddechrau mis Medi cyn llunio argymhellion i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.</p> <p>3. i Swyddogion roi adborth clir i staff ar y camau nesaf ac ati.</p> <p>4. argymell i'r Awdurdod na ddylai'r gwaith ailddatblygu fynd yn ei flaen ar hyn o bryd oherwydd trafodaethau parhaus.</p>
8.	Cyfarfod Nesaf - dechrau mis Medi
	Clerc y Pwyllgor i drefnu dyddiad ddechrau mis Medi ar gyfer cyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30



**BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH
DYDD GWENER 11 MEDI 2020**

	<p><u>Presennol:</u></p> <p>Aelodau: Mr. Neil Martinson (Cadeirydd) Ms. Tracey Evans Mr. Emyr Williams Mr. Iwan Jones Mr. Andrew Oughton</p> <p>Yn mynychu: Mr. Owain Wyn (ex-officio) Cyng. Alwyn Gruffydd (ex-officio) Cyng. Elwyn Edwards (ex-officio)</p> <p>Swyddogion: Mrs Jo Worrall, Mrs. Anwen Gaffey.</p>
1.	<p>Ymddiheuriadau</p>
	<p>Cyng. Wyn E. Jones; Mr. Dafydd Edwards (Swyddog Adran 151)</p> <p>Yn codi ar hynny, manteisiodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ar y cyfle i ymddiheuro i'r Pennaeth Personél am godi cyfres o gwestiynau diangen mewn cyfarfod diweddar, gan nodi ei fod wedi cael ei gamarwain.</p>
2.	<p>Datgan Budd</p>
	<p>Datganodd Mr. Andrew Oughton fudd yn Eitem 3 ar yr Agenda.</p>
3.	<p>Achos Busnes Posibl ar gyfer Dechrau Llety o Fath Gwely a Brecwast yn y Plas</p>
	<p>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad i'r Aelodau Iunio argymhellion i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.</p> <p>Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi ymchwilio i'r galw am wely a brecwast yn yr ardal. Roedd ymchwiliadau wedi dangos bod prinder llety o'r fath yn ystod gwyliau ysgol a thymhorau'r ysgwydd, ac mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r staff, cytunwyd i agor Plas Tan y Bwlch ar sail gwely a brecwast ar sail prawf, i sefydlu lefel y busnes dros y tymor byr. Dywedwyd wrth yr aelodau fod Plas Tan y Bwlch, yn unol â hynny, wedi agor heddiw ac ar hyn o bryd bod 16 ystafell ar gael trwy Airbnb.</p>

Rhagwelwyd hefyd y gellid cynyddu nifer yr ystafelloedd sydd ar gael i 20 erbyn dechrau 2021, yn dilyn uwchraddio'r tair ystafell anabl a thrwy drosi'r Lolfa Tudor yn ystafell wely.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod hefyd yn obeithiol y gallai Plas Tan y Bwlch ddenu busnes ychwanegol, gan fod nifer o brosiectau adeiladu mawr ar fin dechrau yn yr ardal, er ei bod yn rhy fuan i gynnwys unrhyw dargedau yn yr adroddiad. Roedd wedi paratoi taenlen (Atodiad 3) a ddangosodd y byddai'r model busnes Gwely a Brecwast, ar ôl ystyried cyfraddau deiliadaeth rhagamcanol a chostau staff, yn arwain at golled o £15,240, a oedd yn dal o fewn cyllideb Plas Tan y Bwlch ar gyfer 2020/21. Amlygwyd risgiau pellach hefyd, megis bod y pandemig yn gwaethygu dros fisoedd y gaeaf a gostyngiad posibl yn nifer y bobl sy'n teithio.

Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod Airbnb yn gweithio'n dda a'i fod wedi arwain at archebu 50% o'r Ganolfan ar gyfer y 10/11 diwrnod nesaf. Wrth nodi cyflwr presennol yr adeilad, roedd yn gobeithio y byddai Plas Tan y Bwlch yn gallu denu a chynnal adolygiadau cadarnhaol ar-lein.

Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn: -

- a allai hyn fod yn rhy ychydig yn rhy hwyr? Dylai Plas Tan y Bwlch fod wedi bod yn barod i ailagor yn unol ag adolygiadau tair wythnos Llywodraeth Cymru ac i fod yn barod ar gyfer y dyfodol - dylai fod Cynllun Ôl-adferiad ar waith. Byddai'r Aelod yn anfon templed enghreifftiol at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol.
- dywedodd y Prif Weithredwr pe bai cyfnod clo arall yn y chwarter nesaf, gallai'r Ganolfan ddiodeff colled o hyd at £30k, a oedd yn dal i fod o fewn cyllideb Plas Tan y Bwlch. Cytunodd y gallai'r Awdurdod fod wedi colli cyfle yn y tymor byr, ond gan fod y rhan fwyaf o staff y Ganolfan ar y cynllun seibiant, roedd swyddogion yn teimlo y bu'n rhaid aros nes derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddai'r Awdurdod yn cael ei ad-dalu am golli incwm yn y Plas
- nododd Aelod bryderon bod y rhagdybiaethau a wnaed yn y proffil busnes yn rhy optimistaidd ac y gallai referniw ystafelloedd ar gyfartaledd fod yn is ac arwain at golled fwy na'r disgwyl yn y proffil. Gofynnwyd i swyddogion baratoi gwahanol senarios ar opsiynau deiliadaeth ystafelloedd mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y rhagdybiaethau a wnaed yn seiliedig ar gyflogi staff parhaol ac nad oeddent yn cynnwys staff tymhorol nac wedi'u prynu i mewn. Byddai'r swydd yn cael ei hail-asesu unwaith y byddai swyddogion yn sefydlu beth fydd lefel y busnes. Byddai'r achos dros agor y bar a darparu prydau min nos hefyd yn cael ei ystyried, er y gellid darparu cinio llawn heb unrhyw gostau staff ychwanegol.
- roedd Cadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch o'r farn bod y rhagamcanion yn yr adroddiad yn realistig ond yn pryderu bod y rhestriad Airbnb yn tan werthu'r Plas, ac y dylid ei newid yn ddi-oed. Dylai swyddogion hefyd groes-hyrwyddo y rhestriad Airbnb gyda phrif borthiant Twitter yr Awdurdod a cheisio cynyddu buddion safleoedd teithio ar-lein eraill i'r eithaf, ac o bosibl trafod sut i hyrwyddo Plas Tan y Bwlch ymhellach gyda Croeso Cymru

- roedd y Cadeirydd wedi cael argraff dda gyda'r ymroddiad a'r angerdd a ddangoswyd gan y staff mewn cyfarfod diweddar.
- cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol â'r pwyntiau a wnaed a chadarnhaodd y byddai'r rhestriad yn cael ei wella a ffotograffau'n cael eu darparu yn dangos yr ystafelloedd gwely a'r golygfeydd anhygoel o'r tŷ a'r gerddi.
- cytunodd y Bwrdd i beidio â bwrw ymlaen â phrynu system archebu newydd a allai gefnogi asiantau archebu ar-lein eraill ond yn hytrach defnyddio offer am ddim sydd ar gael fel "Free to Book" sy'n integreiddio pob plattfform. Efallai y bydd opsiynau eraill ar gael hefyd, ond os na, cynigiwyd aros gydag Airbnb.
- Cytunodd yr aelodau ei bod yn bwysig cadw'r adeilad ar agor.
- dylai swyddogion barhau i chwilio am gyfleoedd a marchnadoedd busnes newydd a hefyd dechrau'r broses o ddod o hyd i bartner (iaid) tymor hir ar gyfer y Plas.
- pe bai cyfnod clo yn digwydd eto yn y dyfodol, roedd angen cynnal diogelwch yr adeilad a sicrhau bod gofalwr yn bresennol ar y safle.
- bydd y model newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithio ar opsiynau diswyddo a chytuno ar strwythur staff newydd.
- Diolchodd yr aelodau i swyddogion am yr adroddiad a phwysleisiwyd bod marchnata'r Plas yn well bellach yn hanfodol.

PENDERFYNWYD

1. nodi'r adroddiad.

2. cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ym mis Medi:-

- darparu amlinelliad o'r sefyllfa dros dro yn y Plas a chadarnhau mai darparu Gwely a Brecwast oedd yr unig opsiwn realistig wrth symud ymlaen.
- adrodd bod y Ganolfan bellach ar agor ar gyfer busnes Gwely a Brecwast ac yn cael ei hyrwyddo trwy Airbnb.
- argymhell y dylid trefnu Cyfarfod Awdurdod Arbennig ym mis Hydref, y bydd swyddogion yn penderfynu ar y dyddiad hwnnw.

3. cyflwyno adroddiad manwl i'r Awdurdod ym mis Hydref:-

- sefydlu model busnes symlach, gan gynnwys cynigion ac amlinelliad o'r ystod o risgiau o ran goblygiadau ariannol.
- i gynghori ar y strwythur staff newydd a oedd i'w sefydlu gan fod y newid yn y model busnes yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi disgrifiadau swydd newydd a rhoi cyfle i staff wneud cais am y swyddi newydd.
- paratoi Cynllun B pe bai busnes yn cael ei gloi i lawr yn llwyr a'i golli.
- cynnwys y potensial i bartneriaethau symud ymlaen yn y tymor hir.
- sefydlu proses ar gyfer adolygu'r sefyllfa yn y Plas.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05